

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO*: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

Cafodd yr adroddiad sy’n dilyn ei drafod yn helaeth yng Nghynhadledd 2019. Gwnaeth y Gynhadledd newidiadau i rai o’r penderfyniadau a gyflwynwyd gan y Grŵp Tasg, ac felly mae rhai o’r penderfyniadau sydd yn awr yn cael eu cyflwyno i’r Synodau fel penderfyniadau dros dro yn wahanol i’r rhai a ddisgrifir yn adran 5 o’r adroddiad. Fodd bynnag, roedd penderfyniad 10/1 yn rhoi cyfarwyddyd bod yr adroddiad i gael ei gymeradwyo ar gyfer astudio a thrafodaeth weddigar, felly mae’r adroddiad llawn yn cael ei atgynhyrchu yma yn y ffurf a ddefnyddiwyd i’w gyflwyno i’r Gynhadledd.

Fodd bynnag, mae’r penderfyniadau a ddangosir ar ddiwedd yr adroddiad yn cael eu dangos yn y ffurf a basiwyd gan y Gynhadledd a’r rhain, yn arbennig y rhai y nodir eu bod yn rhai dros dro, sydd i gael eu trafod yn y Synodau.

Rhagair: Gwahoddiad personol i deithio ymlaen mewn cariad, ffydd a llawenydd

“Y peth mwyaf un a ddysgwch byth
ffydd caru a bod yn wrthrych cariad eich hunan”.¹

Beth yw’r ffordd orau i ni fyw mewn perthnasoedd heddiw? Mae pawb ohonon ni’n byw gydag amrywiaeth aruthrol o berthnasoedd yn ein byd; rhai yn agosach a rhai yn bellach i ffwrdd. Oddi mewn i’n cylchoedd o ffrindiau, teulu a chydabod, bydd gan y mwyafrif ohonom o leiaf rywfaint o brofiad o deuluoedd confensiynol dau-riant, teuluoedd un rhiant, cyplau sy’n byw gyda’i gilydd, pobl sengl, pobl sydd wedi ysgaru ac ailbiodi, partneriaethau rhwng pobl o’r un rhyw, a llawer o berthnasoedd eraill.

Beth yw’r ffordd orau i ni fyw’n ffyddlon fel Cristnogion yn y perthnasoedd hyn heddiw? Fel Methodistiaid, mae sut rydym ni’n ateb y cwestiwn hwn yn amrywio. Ac eto, rydym ni’n cael ein galw i fod mewn cymundeb cariadus â’n gilydd. Mae’r hyn rydym ni’n ei rannu, wrth garu Duw a gwybod bod Duw yn ein caru ninnau, yn llawer mwy nag unrhyw beth sy’n dod rhyngom.

Rydym ni, y Methodistiaid, wedi bod ar “Bererindod Ffydd” yn ystod y 25 mlynedd diwethaf er mwyn darganfod sut gallwn ni fynegi ein cariad at Dduw yn well o ran sut rydym ni’n caru ein gilydd, ac yn galluogi’n gilydd i garu. Mae llawer o gamau dewr eisoes wedi’u cymryd. Dyw hynny ddim wedi bod yn hawdd. Mae’n drist ein bod weithiau wedi brifo’n gilydd ac wedi cael ein temtio i ymwahanu oherwydd y materion hyn sy’n ymwneud â chariad. Oherwydd mae’r cwestiynau sy’n ganolog i’r bererindod hon, yn eu hanfod, yn ymwneud â sut gallwn ni fyw a charu’n briodol.

* Cymerwyd teitl yr adroddiad hwn o emyn Fred Pratt Green “How rich is God’s creation (The Joy of Being Friends)” ac mae’n cael ei ddefnyddio trwy ganiatâd Stainer & Bell Ltd, Llundain, Lloegr, www.stainer.co.uk

1 Aralleiriad o ran o gân George Alexander Aberle (a adwaenir wrth yr enw eden ahbez), *Nature Boy*, 1948 (canwyd gan Nat King Cole).

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

Mae edrych ar y perthnasoedd hyn yn codi cwestiynau ynghylch natur priodas, cyd-fyw, byw mewn perthnasoedd a byw gyda gwahanol rywioldeb. Mae’r cwestiynau hyn yn torri trwedd i’n gwir hunaniaeth, a hunaniaeth y rhai rydym ni’n eu caru, a phwy gallan nhw fod. Mae ein Pererindod Ffydd wedi’n herio i wrando a dysgu oddi wrth ein gilydd, a symud ar y cyd. Weithiau, rydym ni’n cael trafferth deall pam nad yw eraill yn gweld pethau yn yr un ffordd â ni, Ac eto, fel Methodistiaid, rydym wedi dewis teithio ymlaen gyda’n gilydd, a chael hyd i ffyrdd o fyw gyda daliadau sy’n gwrthdaro.

Ni yw’r Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd cyfredol, ac felly rydym wedi ymrwymo i barhau yn y modd hwnnw. Rydym ni’n eich gwahodd chi, ddarllenwyr yr adroddiad hwn, i deithio gyda ni, a chyd holl gymuned y Methodistiaid. Fe’ch gwahoddwn i gyfrannu eich profiadau bywyd chi i’r hyn rydym ni’n ei ddweud; ac i ymuno â ni trwy fod yn agored i ddysgu mwy am ystyr caru a chael eich caru, wrth i Dduw ein ffurfio’n fodau dynol.

Mae ein taith fel Grŵp Tasg yn enghraifft fyw, ymarferol o Bererindod Ffydd. Rydym wedi cychwyn o fannau gwahanol ac rydym wedi anghytuno. Rydym wedi mynd i’r afael â’n daliadau sy’n gwrthdaro, a chawsom fod Duw yn cwrrd â ni yn ein gilydd. Yn yr hyn sy’n dilyn rydym ni’n cynnig i chi, ac i weddill yr Eglwys Fethodistaidd, ffrwyth ein sgysiau wrth i ni geisio teithio ymhellach gyda’n gilydd.

Fe’ch gwahoddwn i ymuno â ni a gweddïwn y cawn, gyda’n gilydd:

“Fel partneriaid y Crist byw
Sy’n mentro dilyn ei lwybr,
Ganfod yn rhyfeddod cariad ein bod yn rhannu
llawenydd tragwyddol Duw.”²

Cyflwyniad

Sefydlodd Cynhadledd 2016 Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd i edrych eto ar y diffiniad o briodas a’i ystyried (er enghraifft yn Rheol Sefydlog 011A Cymal (1)), a pharatoi Datganiad newydd ynghylch dyfarniad y Gynhadledd ar briodas a pherthnasoedd, Mabwysiadodd Cynhadledd 2018 Benderfyniad 27A/2 oedd yn rhoi cyfarwyddyd y dylai’r Grŵp Tasg, yn hytrach na datganiad, gyflwyno adroddiad ar y materion hyn, a allai gynnwys unrhyw newidiadau a gynigir i’r Rheolau Sefydlog, petai’r diffiniad o briodas i newid.

0.1 Beth yw ein tasg?

0.1.1 Wrth wraidd Cristnogaeth mae grym gras Duw a’i allu i’n trawsffurfio ni a’n

2 Aralleiriad o bennill olaf Rosemary Wakelin, *Singing the Faith* rhif 687.

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

perthnasoedd, er mwyn i ni fwynhau bywyd yn ei holl gyflawnder. Fel Cristnogion sy'n Fethodistiaid, rydym wedi ymgysylltu o ddfiri â chanfod beth mae hynny'n ei olygu ar gyfer ein perthynas â Duw ac â'n gilydd fel disgyblion Crist, a hefyd i'n cymunedau ehangach o safbwynt rhannu newyddion da iachawdwriaeth a chyfiawnder cymdeithasol. Rydym wedi dweud a gwneud llawer llai ynghylch cymhwysu mewnwleidiad ffydd i'n perthnasoedd agos a rhywiol.³ Mae'r adroddiad hwn yn parhau â'r gwaith o ddatblygu, a chymhwyso'n llawnach, ein dealltwriaeth o ras Duw i'n holl berthnasoedd a'n perthnasoedd rhywiol yn arbennig. Drwy wneud hynny, rydym ni'n dysgu mwy am sut mae Duw yn ein galw ni i fod yn bobl sy'n rhan o'r byd modern.

- 0.1.2 Fel rhan o'n Pererindod Ffydd, a hyd yn oed cyn hynny, mae'r Eglwys Fethodistaidd wedi myfyrto ar y materion hyn sy'n ymwneud â pherthynas pobl â'i gilydd, gan gynhyrchu sawl adroddiad, gan gynnwys Datganiad o'n diwinyddiaeth yn 1992.⁴ Fel Eglwys, rydym wedi parhau i weithio i ganfod beth mae'n ei olygu i drin ein gilydd fel personau a grewd yn gyfartal ar ddelw Duw. Rydym wedi canolbwytio'n bennaf ar faterion ysgariad, cydraddoldeb rhywedd a rhywioldeb pobl o'r un rhyw. Rydym ni, y Grŵp Tasg presennol, yn adeiladu ar yr holl waith a wnaed eisoes, ac yn ymhelaethu arno.

Rydym ni'n credu bod Duw wedi ein creu i fod mewn perthnasoedd ac wedi dangos i ni sut mae ffynnu trwy'r perthnasoedd hynny.

- 0.1.3 Mae ein tasg yn un eithriadol o gymhleth, gyda hanes hir ac ystod aruthrol o fewnwleidiad perthnasol o faes diwinyddiaeth a bron pob agwedd arall ar ddydsgeidiaeth ddynol. Yn y byd ehangach, mae terminoleg newydd a geirfa arbenigol wedi cael eu datblygu i drafod y materion hyn, ac rydym yn cynnwys geirfa yn adran 1. Mae rhai o'r syniadau ychwanegol y tu ôl i'n meddyliau a'n hargymhellion i'w canfod yn y papurau ategol a'r llyfryddiaeth sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn.⁵ Carem bwysleisio mai crynodeb syml o'n canfyddiadau a'n hargymhellion yw'r hyn sy'n dilyn, wrth i ni geisio canfod mwy o ystyr dilyn Duw yn ein holl ymwneud â'n gilydd a sefyll gyda'n gilydd fel corff amrywiol o ddisgyblion.

0.2 Pam mae'r dasg hon yn angenrheidiol?

- 0.2.1 Sefydlwyd ein grŵp gan Gynhadledd y Methodistiaid yn 2016, o ganlyniad i'r gwaith a wnaed gan y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd blaenorol, a fu'n adrodd i

3 I weld beth rydym ni'n ei olygu wrth 'perthnasoedd rhywiol' gweler ymhellach 1.4.1 ac 1.4.5 a'r rhestr termau.

4 *A Methodist Statement on A Christian Understanding of Family life, the Single Person and Marriage, 1992.*

5 Gweler tudalen Priodas a Pherthnasoedd 2019 ar wefan yr Eglwys Fethodistaidd.

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

Gynhadledd 2016.⁶ Yna newidiwyd ein cylch gorchwyl gan Gynhadledd 2018.⁷

0.2.2 Gan adeiladu ar Adroddiad Grŵp Tasg 2016, a'r trafodaethau a'r gweithdai yn y Gynhadledd yn 2018, rydym wedi nodi'r anghenion canlynol ar gyfer y gwaith hwn.

- Mae perthnasoedd, rhyw a phriodas yn faterion pwysig i bawb. Mae hyn yn her ac yn gyfle ar yr un pryd. Fel rhan o'i galwad a'i chenhadaeth, mae'n rhaid i'r Eglwys Fethodistaidd ymgysylltu â sut mae pobl yn byw heddiw mewn gwirionedd.⁸
- Bu llawer o ddatblygiadau yn ein dealltwriaeth o'r materion hyn yn ystod y deugain mlynedd diwethaf, a hefyd sawl newid cyfreithiol pwysig. Gan nad yw'r Eglwys Fethodistaidd wedi myfrio'n llawn ar ein diwyddiaeth yn maes priodas a pherthnasoedd ers 1992, nododd Grŵp Tasg 2016 fod angen diweddarau a darparu canllawiau polisi.⁹
- Trwy ymgynghori â'r Methodistiaid eu hunain, nododd y Grŵp Tasg blaenorol fod angen i'r Eglwys Fethodistaidd edrych eto ar y 'diffiniad' o briodas.¹⁰
- Mae sawl rheidrwydd bugeiliol ar gyfer gwaith o'r fath. Mae'r rhain yn cynnwys ymdrin â'r loes a deimlir gan y rhai sydd â chanfyddiad bod y diffiniad presennol yn awgrymu eu bod yn 'bobl eilradd', ac ar yr un pryd angen am gydnabod "y teimladau o ddieithrio a thrallod" a fynegir gan y rhai sy'n pryderu y gallai

6 Yn 2016, mabwysiodd y Gynhadledd Benderfyniadau 29/7, 29/8 a 29/9 yn y ffurf ganlynol (Cofnod Dyddiol 6/14/1 a 6/14/2):

- 29/7. Rhoddodd y Gynhadledd gyfarwyddyd fod rhaid paratoi Datganiad Newydd o ddyfarniad y Gynhadledd ynghylch priodas a pherthnasoedd, ac fel rhan o'r broses honno, y dylai'r diffiniad o briodas gael sylw o'r newydd.
- 29/8. Penododd y Gynhadledd Grŵp Tasg Newydd, oedd yn gorfod cynnwys pobl â gwybodaeth arbenigol am faterion Ffydd a Threfn a phriodas a pherthnasoedd, i ddiweddarau'r Datganiad a goruchwylio'r broses o ymgynghori â'r Methodistiaid ar y diffiniad o briodas.
- 29/9. Rhoddodd y Gynhadledd gyfarwyddyd bod rhaid i'r Grŵp Tasg Newydd adrodd i Gynhadledd 2018 gyda thestun drafft ar gyfer datganiad newydd, y mae'n rhaid iddo gynnwys y canlynol:

- a) ystyried yr holl Adroddiadau perthnasol a gynhyrchwyd a'r Penderfyniadau a basiwyd gan y Gynhadledd... (sc. fel y nodwyd ym mharagraff 3.5.1 o adroddiad 2016);
- b) ystyried y diffiniad o briodas, gan gynnwys y materion a godwyd ar hyd adran 3 o... adroddiad (sc. 2016).

- 7 Yn 2018, mabwysiodd y Gynhadledd Benderfyniadau 27A/1 a 27A/2 (Cofnod Dyddiol 7/17/2), a roddodd i'r Grŵp Tasg y gorchwyl o gyflwyno adroddiad gydag argymhellion i Gynhadledd 2019 yn hytrach na Datganiad drafft ffurfiol. Byddai'r broses hon yn caniatáu ar gyfer ymgynghori priodol, ond hefyd yn ymateb i'r ymdeimlad o frys oedd yn cael ei fynegi gan lawer ynghylch y materion hyn.
- 8 Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2016 3.1.1 (a). Gweler y dudalen Priodas a Pherthnasoedd ar y we am drafodaeth lawnach ar sut mae'r grŵp Tasg presennol wedi datblygu gwaith Adroddiad 2016.
- 9 Mae'r cais am ganllawiau polisi yn digwydd droeon ar hyd adroddiad 2016 ar Briodas a Pherthnasoedd: gweler 3.2.1, 3.2.2 (a), (c) ac (e).
- 10 Adroddiad *Priodas a Pherthnasoedd*, 2016, 3.7.

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

unrhyw addasu ar y diffiniad o briodas niweidio “eu dealltwriaeth o’u priodas eu hunain”.¹¹ Mae angen adolygu hefyd beth mae’r diffiniad presennol, gyda’i bwyslais ar “briodas fel rhodd” yn ei ddweud wrth bobl sengl.¹²

- Mae rheidrwydd bugeiliol pellach yn codi yng nghyswllt sut mae’r Eglwys Fethodistaidd yn cefnogi’r rhai sy’n “byw’n ffyddlon gyda’i gilydd, ond y mae priodas yn opsiwn anodd iddyn nhw”.¹³ Yng Nghynhadledd 2015, rhoddodd Rhybudd o Gynnig 2015/219 gyfarwyddyd y dylai ystyried cyd-fyw fod yn rhan o unrhyw broses fyddai’n diwygio diffiniad yr Eglwys Fethodistaidd o briodas.¹⁴
- Mae angen i ni fedru siarad yn well â’n gilydd ynghylch perthnasoedd, priodas a rhywioldeb. Mae hyn wedi dod yn fwyaf eglur oddi wrth y Methodistiaid ifanc yn 3Generate.¹⁵ Mae hefyd yn eglur o adroddiadau blaenorol i’r Gynhadledd bod gwaith yn dal i’w wneud i alluogi mwy ohonom ni ar draws y Cyfundeb i fedru ymgysylltu’n agored, yn gadarnhaol, yn feiblaidd ac yn barchus â’n gilydd ynghylch y materion hyn.
- Dangosodd y drafodaeth yng Nghynhadledd 2018 ar sawl rhybudd o gynnig ei bod hi’n bryd gwneud penderfyniadau am ein diwinyddiaeth a’n harferion a fydd yn cadarnhau ein hamrywiaeth ac yn galluogi pawb ohonom i ffynnu, fel pobl sydd â daliadau sy’n gwrthdweud ei gilydd.¹⁶

0.2.3 Yn ein bywydau fel Methodistiaid sy’n addoli, rydym yn aml yn gweddïo ac yn canu am ein hymrwymiad i’n gilydd. Yn ein gofal bugeiliol a’n myfyrodau gyda’n gilydd rydym yn aml yn canolbwyntio ar ein perthnasoedd pwysig. Nod yr adroddiad hwn yw darparu adnodd a fydd yn ein galluogi i fod yn fwy triw i ni’n hunain, a siarad yn dda am faterion rhywioldeb. Wrth fynd ati fel Grŵp Tasg, rydym wedi dysgu mwy am sut mae gwneud hyn er bod gennym ddaliadau sy’n gwrthdaro.

0.3 Sut rydym wedi mynd ati gyda’r dasg hon?

0.3.1 Fel Grŵp Tasg rydym wedi cychwyn gyda Duw ym mhopeth. Fe’n galwyd i’r gwaith hwn gan y Gynhadledd fel wyth o bobl ffydd. Yn ein hymwneud â’n gilydd cyfrannwyd yr hyn rydym ni’n ei ddarganfod am Dduw trwy weddi a’r Beibl, a’r hyn yr ydym eisoes yn ei wybod am Dduw a phwy mae Duw wedi’n creu i fod. Mae gennym ni rywedd,

11 Adroddiad 2016 3.1.1 (b)

12 Adroddiad 2016 3.1.1 (b) (ii)

13 Adroddiad 2016 3.1.1 (b) iv

14 Adroddiad 2016 3.2.1

15 Adroddiad 2016 3.3.5

16 Cariwyd Rhybudd o Gynnig 2018/203 (Cofnod Dyddiol 7/17/8 ac 8/53/1-2). Trafodwyd Rhybudd o Gynnig 2018/112 yn llawn ond yn y diwedd ni chafodd ei roi gerbron (Cofnod Dyddiol 7/17/6). Dangosodd y drafodaeth yr angerdd a’r brys sy’n cael ei fynegi gan lawer wrth bwysu am ddarparu priodas rhwng dau berson o’r un rhyw gan yr Eglwys Fethodistaidd, ond ar yr un pryd roedd safbwyntiau eraill y mae angen eu parchu.

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

rhywioldeb, cefndir diwylliannol ac oedrannau gwahanol. Rhyngom, rydym mewn amrywiol fathau o berthnasoedd. Mae ein hunaniaeth yn wahanol, ond daw pawb ohonom o hyd i'n hunaniaeth sylfaenol yng Nghrist.

- 0.3.2 Wrth ymgynghori â'n gilydd, rydym wedi cofio a rhoi sylw, i'r graddau y gallwn, i amrywiaeth y traddodiadau a'r pwysleisiau diwinyddol a geir ymhlith y Methodistiaid. Rydym wedi galw i gof yr ystod o hunaniaethau sydd i'w canfod ymhlith bodau dynol, yn arbennig yng nghyswllt rhywedd a rhywioldeb. Rydym wedi siarad â rhai sydd â hunaniaeth a mewnwelediad oedd heb eu cynrychioli yn ein grŵp. Rydym wedi rhannu ein hanesion a'n profiadau ein hunain, ac wedi defnyddio hanesion a phrofiadau sydd ar gael i'r cyhoedd ar wefannau ac mewn cyhoeddiadau. Oddi mewn i'n cyfyngiadau, rydym wedi cofio am ein chwaer Eglwys (yn y Deyrnas Unedig a'r tu hwnt), ac wedi dilyn eu trafodaethau a'u dealltwriaeth hwythau.¹⁷ Rydym yn cydnabod y cyd-destunau lle mae ein partneriaid yn yr Eglwys ar draws y Byd yn cyflawni eu gweinidogaeth; bod y cyd-destunau hynny'n cyflwyno realiti wahanol i'r hyn a geir ym Mhrydain, ac y gall fod angen ymatebion gwahanol i'r hyn rydym ni'n ei awgrymu yn yr adroddiad hwn. Rydym hefyd wedi darllen adroddiadau Methodistiaid Prydain ar y materion hyn yn y gorffennol, er mwyn ymgylfarwyddo â'r hyn y mae ein Heglwys wedi'i ddweud a'i wneud yn flaenorol; ac rydym hefyd wedi cwrrdd â'r rhai sydd wedi arwain y gwaith hwn yn y blynyddoedd diwethaf.¹⁸
- 0.3.3 Fel grŵp, rydym ni wedi anghytuno ar y ffordd orau o ddod i gasgliadau. Er bod pawb ohonom yn parchu awdurdod yr Ysgrhythur, mae rhai ohonom yn rhoi'r pwys mwyaf ar yr Ysgrhythur ac ar ddehongliadau penodol o'r Ysgrhythur. Mae eraill yn pwysleisio pwysigrwydd dehongli'r Ysgrhythur gyda mantais dealltwriaeth profiad (nid lleiaf, ein profiad o Dduw), darganfyddiadau gwyddonol neu draddodiadau'r Eglwys Grifnogol. Yn y gorffennol, mae'r Gynhadledd wedi nodi saith agwedd wahanol at awdurdod y Beibl, ac amrywiaeth o ffyrdd sydd gan y Methodistiaid o ddefnyddio'r hyn a ysgrifennwyd yn y Beibl yn ffynhonnell ar gyfer yr hyn y maen nhw'n ei gredu ac yn ei wneud.¹⁹ Yn yr adroddiad hwn, felly, cechw gyfeiriadau at y Beibl mewn nifer o wahanol ffyrdd. Weithiau byddwn ni'n dyfynnu adnod neu ymadrodd oherwydd ein bod ni'n credu bod hynny'n cyfeirio at wirionedd neu'n taro nodyn emosïynol sy'n cyd-fynd â'r hyn rydym ni'n ei ddweud. Ar adegau eraill byddwn ni'n archwilio darn yn fanylach, gan gymharu a chyferbynnu'r cyd-destun â'n cyd-destun ninnau. Dro arall wedyn byddwn ni'n archwilio themâu a llwybrau beiblaidd ehangach. Bob tro, rydym wedi cyfeirio at y Beibl mewn modd yr oeddem ni'n tybio oedd yn briodol, ac a oedd yn 'ymddangos yn dda i'r

17 Mae adroddiad y Gweithgor ar Briodas a Phartneriaethau Sifil yn 2014 ac adroddiad y Grŵp Tasg ar Briodas a Pherthnasoedd yn 2016, fel ei gilydd, yn myfyrio ar y mater hwn yng nghyswllt perthnasoedd eâwmenaid a'r Eglwys ar draws y Byd.

18 Mae rhestr lawn o'r adroddiadau perthnasol ar gael ar dudalennau adran Priodas a Pherthnasoedd yr Eglwys Fethodistaidd ar y we.

19 Adroddiad y Pwyllgor Ffydd a Threfn i Gynhadledd 1998, *Llusern i'm Traed a Llwybrch i'm Llwybr / A Lamp to my Feet and a Light to my Path*.

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

Ysbryd Glân ac i ninnau'.²⁰ Fel y rhai a fu'n datblygu diwinyddiaeth Fethodistaidd o'n blaenau, rydym yn credu bod "ein myfyrdodau diwinyddol wedi'u gwreiddio'n gadarn yn natguddiad Duw yn yr ysgrythur, yn Iesu Grist a thrwy waith yr Ysbryd Glân yn ein traddodiad, ein profiad a'n dull o ymarfer rheswm dynol".²¹

- 0.3.4 Yn bwysig, rydym wedi dilyn y Datganiad Enghreifftiol ar Ymgynghori â'n gilydd, a gyhoeddwyd gan y Grŵp Tasg diwethaf, ac y byddem eto yn ei argymhell ar gyfer pob sgwrs mewn meysydd lle rydym ni, y Methodistaidd, yn wahanol ein barn a'n safbwyntiau.²² Trwy wrando a siarad a gweddio yn y modd hwn rydym wedi canfod egwyddorion ein cred, sy'n dod gyda ni i lywio'r dasg hon. Mae'r rhain yn cynnwys: cariad radical Duw; cynhwysedd gras Duw; galwad ddi-ildio Duw am gyfiawnder; sancteiddrwydd a chyfiawnder Duw, a'r alwad i ninnau fod yn sanctaidd a chyfiawn hefyd; awydd Duw i fyw mewn perthynas gyfamodol gyda phobl Duw; a natur Duw fel tri pherson (y Drindod), yn esiampl o natur a phwysigrwydd perthnasoedd i ni. Cychwynwyd hefyd gyda'n profiadau o bresenoldeb cariadus Duw ym mhob sefyllfa: gyda'r rhai ar y cyrion; gyda ni yng nghorff amrywiol Crist; yn ein perthnasoedd ac wrth garu'n dda; ac yn y pen draw mewn trugaredd a maddeuant i ni ac i eraill. Mae ein meddyliau wedi dod i'r amlwg o'r tirlun cyfoethog, amrywiol hwn, fel y crynhown yn yr adran sy'n dilyn.

0.4 Beth sydd yn yr adroddiad?

- 0.4.1 Mae'r adroddiad yn cychwyn yn adran 1 trwy archwilio lle perthnasoedd yn ein dealltwriaeth o ystyr bod yn ddynol, gan archwilio sut creodd Duw bawb ohonom i fod yn fodau mewn perthynas ag eraill, yn ei hanfod, a rhan ein rhywioldeb yn hynny. Trwy ganolbwyntio ar natur Duw, yr ydym wedi'n creu ar ei ddelw, rydym yn ehangu ein canfyddiad o ystyr bod yn ddynol, ochr yn ochr â chofio mai creaduriaid ydym, a'n bod yn wahanol i Dduw. Fel rhan o hyn, rydym yn archwilio ystyr rhywioldeb, yn ystyried y ddealltwriaeth sy'n datblygu o amrywiaeth rhywiol, ac yn edrych i weld sut mae modd dathlu rhywioldeb yn llawnach yn ein Heglws fel un agwedd ar ddaioni grasol Duw.
- 0.4.2 Nesaf, rydym yn ystyried yn adran 2 y dibenion da sydd gan Dduw mewn golwg ar gyfer perthnasoedd a'r posibiladau o ran canlyniadau gwych i'n hunain, i'r gymuned, i'r greadigaeth a'r deyrnas. Rydym yn edrych ar sut mae Duw yn ein galw ni, fel disgyblion i Grist, i amlygu arwyddion cariad Iesu ym mhob un o'n perthnasoedd (neu i roi enw byrrach arno, perthnasoedd da neu 'Grist-debyg'), ac yn dathlu pa mor werthfawr yw pob perthynas sy'n cael ei byw fel hyn.

20 Ceir cyfeiriad yma at Actau 15:28.

21 *Created in God's image: an ecumenical report on contemporary challenges and principles relating to early human life* (2008), para 59.

22 *Model Statement on Conferring fel y'i cyhoeddwyd yn adroddiad y Grŵp Tasg ar Briodas a Pherthnasoedd i Gynhadledd 2016* (Eitem 29 ar yr Agenda).

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

- 0.4.3 Rydym yn parhau â'r adran hon trwy gymhwyso'r egwyddorion cyffredinol hyn ynghylch perthnasoedd da i'n perthnasoedd rhywiol, gan nodi bod yr un canlyniadau'n berthnasol yma ag yng nghyswllt perthnasoedd Cristnogol yn gyffredinol. Cawn fod patrymau ac arferion gofal o'r ddeutu, ymneilltuo i'w gilydd ac ymrwymiad sy'n dyfnhau'n barhaus, sy'n arwain dau berson at uniad am oes, hefyd yn llwybrau tuag at gyfoethogi cyflawniad yr hunan, y cwpl a'r gymuned. Rydym yn ystyried sut gall y ddealltwriaeth hon gael ei chynnig i bawb ohonom (p'un a ydym yn wahanrywiol neu'n LHDCR^{h+23}), a sut gallent fod yn berthnasol i gyd-fyw neu pa fan arall bynnag yr ydym wedi'i gyrraedd ar ein taith at berthynas ddyfnach.
- 0.4.4 Yn adran 3, nodwn gymeriad unigryw priodas ac ystyried sut mae cysyniadau pwysig cyfamod a gras yn arbennig o berthnasol i briodas. Amlygwn sut gall perthynas briodasol gyfoethogi pobl, gan gydnabod y gall gwirioneddau bywyd fod yn wahanol weithiau i'r weledigaeth mae Duw yn ei chynnig i ni. Rydym yn olrhain y newidiadau yn nysgeidiaeth yr Eglwys Fethodistaidd ar briodas tuag at fod yn nes at gyfeillach rhwng partneriaid cyfartal.
- 0.4.5 Ar ôl datblygu ein diwinyddiaeth ynghylch priodas, rydym yn mynd ymlaen i archwilio'r berthynas rhwng hyn a phriodas fel sefydliad cyfreithiol. Yn union fel y mae dealltwriaeth ddiwinyddol o briodas wedi newid gyda threigl y canrifoedd, nodwn sut mae priodas fel sefydliad hefyd wedi amrywio o ran cymeriad gydag amser ac ar draws diwylliannau. Rydym yn cydnabod bod y berthynas rhwng dealltwriaeth ac arferion priodas yr Eglwys a sefydliad cyfreithiol priodas, yn hanesyddol, wedi bod yn nes at ei gilydd weithiau a thro arall yn bellach oddi wrth ei gilydd. Nodwn hefyd y newidiadau yn nealltwriaeth y Wladwriaeth o briodas, sydd bellach yn cynnwys priodas rhwng pobl o'r un rhyw, yn ogystal â symudiad i gynnig partneriaethau sifil i gyplau gwahanrywiol, yn ogystal â rhai o'r un rhyw. Rydym yn dod i'r casgliad bod sefydliad cyfreithiol priodas yn gallu bod yn gynhaliaeth hanfodol i berthnasoedd da, a bod y newid yn y gyfraith yn agor posibiliadau i'r Eglwys Fethodistaidd ystyried estyn arfer priodas i gynnwys cyplau o'r un rhyw, gyda hynny'n cael ei weld fel rhan o broses barhaus i ehangu ein dealltwriaeth o briodas.
- 0.4.6 Yn adran 4, rydym yn archwilio dealltwriaeth o briodas sydd wedi'i gwreiddio yn egwyddorion Cristnogol perthnasoedd da ac ymrwymidau llawn gras. Wedyn mae'r adroddiad yn edrych eto ar fater pwy sy'n gallu priodi o fewn yr Eglwys. Yn arbennig, mae'n archwilio a all cyplau o'r un rhyw briodi yn yr Eglwys, gan fod y Gynhadledd

23 Am y term hwn gweler Pecyn Offer yr Eglwys Fethodistaidd ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Modiwl 7.2 tudalen 27. LHDCR^{h+} – term trosfwaol (weithiau dim ond LHD, LHDT neu LHDT+). Mae LHD yn cyfeirio at bobl sy'n lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol; mae T yn cyfeirio at bobl drawsrywedd; C at bobl sy'n cwstyfnu neu nad ydynt yn cydymffurfio â hunaniaethau rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol, a Rh at bobl ryngryw, nad ydynt yn uniaethu'n benodol â rhywedd gwryw na benyw.

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

eisoes wedi penderfynu nad oes unrhyw reswm pam na chaiff unrhyw aelod ordeiniedig neu leyg ymrwymo i bartneriaeth sifil (â rhywun o'r un rhyw) neu briodas gyda rhywun o'r un rhyw. Gan gydnabod bod hwn yn fater y mae gan Fethodistiaid ddaliadau sy'n gwrthdaro yn ei gylch, rydym yn ystyried yr amrywiol bryderon sy'n codi ac yn edrych yn arbennig ar y ddydsgeidiaeth yn yr Ysgrythur ynghylch y materion hyn.

- 0.4.7 Yn adran 5 o'r adroddiad rydym ni'n symud ymlaen i ystyried sut gallwn ni barhau'n unedig yn ymarferol, fel cymuned Crist-ganolog o bersonau cyfartal sy'n meddu ar wahanol ddaliadau ynghylch perthnasoedd a phriodas. Yn ei hanfod, rydym yn cynnig peth arweiniad a rhai newidiadau i Reolau Sefydlog yr Eglwys Fethodistaidd ynghylch priodas. Rydym hefyd yn ystyried pa adnoddau pellach gallai'r Eglwys Fethodistaidd eu cynnig i gefnogi pobl yn amrywiol gyfnodau eu perthnasoedd.
- 0.4.8 At ei gilydd, mae ein diwinyddiaeth sy'n datblygu wedi'i gwreiddio yn Nuw'r cariad, sy'n ein galluogi'n barhaus i gael profiadau newydd o'r cariad hwnnw. Fel Grŵp Tasg, rydym ni'n credu bod modd i'r Methodistiaid gael hyd i ffordd i aros gyda'i gilydd o gwmpas y bwrdd a galluogi ei gilydd i ffynnu. Nid yw hynny'n golygu awgrymu bod unrhyw beth yn dderbyniol. Mae ochr ymarferol y ddiwinyddiaeth rydym ni'n ei chynnig hefyd yn galw am edifeirwch o ran sut rydym wedi trin ein gilydd o bryd i'w gilydd, ac ymrwymiad o'r newydd i fod yn fwy triw i'r hyn ydym fel pobl yr efengyl. Bydd hynny hefyd yn ein galluogi i gynnig yn fwy llawen a gostyngedig y trysorau rydym ni'n eu datgelu i fyd cyfan Duw.

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO:

Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

1. Mae Duw wedi ein creu i fod mewn perthnasoedd ac i fod yn rhywiol

Yn yr adran hon rydym ni’n adeiladu ar gyd-ddealltwriaeth o adnodau arwyddocaol yn y Beibl a diwynddiaeth Gristnogol er mwyn myfyrio ar ystyr bod yn ddynol. Rydym yn dechrau gyda natur Duw, y cawsom ein creu ar ei ddelw, ac yn ystyried beth mae hyn yn ei ddysgu i ni am ffurfio perthnasoedd fel pobl. Rydym yn myfyrio ymhellach ar sut mae Duw wedi ein creu yn fodau cymdeithasol a rhywiol, ac yn ystyried ffyrdd sy’n datblygu o ddeall cymhlethdod ac amrywiaeth rhywioldeb dynol.

1.1 Wedi’n creu ar Ddelw Duw

- 1.1.1. Fel bodau dynol, fe’n gwnaed ar ddelw Duw. Felly, er mwyn deall beth yw ystyr bod yn ddynol, mae angen i ni ddechrau trwy ddeall beth yw natur Duw.
- 1.1.2 Cariad yw Duw. Mae Duw yn dod â phopeth a phawb i fodolaeth allan o gariad. Mae’r cariad hwnnw, felly, yn greadigol. Mae’r cariad hwnnw’n golygu bod Duw yn gweld gwerth ym mhopeth y mae’n ei greu, yn ei alw’n ‘dda’ ac yn cynnig cyflawnder bywyd iddo. Pan fyddwn ni, fodau dynol, yn methu â dychwelyd cariad Duw a’i adlewyrchu i’n gilydd, mae Duw yn ceisio ein hadnewyddu a’n hadfer mewn cariad. Mae cariad Duw, felly, hefyd yn ailgreadigol. Mae’n costio’n ddrud yn yr ystyr bod Duw yn rhoi ohono’i hun i’n hachub ni. Oherwydd mai cariad yw Duw, mae Duw yn faddeugar, yn cynnig trugaredd a dechrau newydd i’r rhai sy’n troi at Dduw.
- 1.1.3 Mewn daliadau a phrofiad Cristnogol gwelwn gariad creadigol ac achubol Duw yn cael ei ddatgelu lawnaf yn Iesu Grist, ac rydym yn adnabod y cariad hwnnw trwy waith parhaus yr Ysbryd Glân. Trwy ddeall Duw yn y ffordd hon, cawn ein hunain yn sôn am Dduw fel ‘un’ a hefyd fel trindod o ‘bersonau’.²⁴ Yng nghysyniad y Drindod, gwelwn dri pherson Duw yn unedig mewn perthynas o gariad deinamig sy’n rhoi ei hun ac yn gorlifo o gyflawnder. Mae perthynas felly yn rhan sylfaenol o hanfod Duw, ym mherson Duw ei hun, a chawn batrwm yn hynny ar gyfer ein perthnasoedd cariadus ein hunain.
- 1.1.4 Yn Iesu, “daeth y Gair yn gnawd” gan ddatgelu ac ymgorffori bwriad Duw i bawb.²⁵ Iesu yw’r model ar gyfer pawb ohonom. Mae’n dangos sut gall pob un ohonom, oddi mewn i amgylchiadau penodol ein hymgorfforiad ein hun, fod yn berson gwirioneddol, yn gwbl fyw, ac yn byw mewn cytgord â Duw ac â chread Duw, ac mewn perthynas gariadus â phobl eraill.

24 Yn y Credoau traddodiadol, y tri pherson yw’r Tad, y Mab a’r Ysbryd Glân.

25 Ioan 1:14

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

1.1.5 Rydym wedi'n creu ar ddelw Duw, ond nid Duw ydym ni, ac nid yw Duw ar ein delw ni. Rydym ni'n derfynol, tra bod Duw yn dragwyddol. Mae Duw yn caru'n berffaith, tra'n bod ni'n caru'n amherffaith. Ond gallwn gael ein perffeithio gan Dduw a'n gwneud yn sanctaidd pan agorwn ein hunain fwyfwy i fod mewn perthynas gyda Duw, ac i gael ein ffurfio gan ddeinameg cariad Duw.²⁶

1.2 Wedi'n creu i gael perthynas â Duw

1.2.1 Fe'n gwnaed i fod mewn perthynas â Duw. Ar hyd y Beibl darllenwn am Dduw yn gyson yn estyn allan at fodau dynol gyda chariad a fydd yn eu trawsffurfio nhw a'u cymunedau. Disgrifir y berthynas honno fel **cyfamod**. Mae'n gyfamod yn hytrach na chontract yn unig oherwydd ei fod yn "weithred o ffafr, yn weithred o ras sy'n galw am ymrwymiad ymatebol. Mae'r rhai sy'n derbyn y cyfamod yn dewis gwneud hynny, ond menter o eiddo Duw yw hon".²⁷

1.2.2 Mae'r Beibl hefyd yn sôn am sut rydym ni, fodau dynol, wedi methu byw mewn cyfamod â Duw. Gallwn ddewis cael perthynas â Duw mewn cariad, ac yn yr un modd â'n hunain a'n cymdogion; neu gallwn droi i ffwrdd mewn hunanoldeb. Fel yr ydym newydd nodi, trwy lesu y cynigiodd Duw ein hachub a'n hadfer, gan gyflawni'r hyn a welwyd ar hyd hanes a phrofiad pobl Israel. Dathlwyd perthynas y cyfamod newydd hwn gan gymuned Eglwys Crist, yr oedd ei haelodau'n rhannu rhagflas o gymdeithas newydd Duw yn torri trwodd i'r byd.

1.2.3 Yr ymateb i gariad cyfamod Duw, fel y cafodd ei gadarnhau gan lesu, yw caru Duw a phobl eraill fel rydym ni'n caru ein hunain.²⁸

1.3 Wedi'n creu i gael perthynas ag eraill

1.3.1 Gan ein bod yn fodau dynol rydym wedi'n creu ar ddelw Duw, ac felly mae'r gallu i garu a chael ein caru yn un o nodweddion hanfodol bod yn ddynol. Fe'n crewyd i fod mewn perthynas ag eraill. Mae'r Grŵp Tasg wedi myfyrio ar y gwahanol ffyrdd sydd gan fodau dynol o greu perthynas â'i gilydd. O'r Beibl, dysgwn fod Duw wedi'n creu i fod yn fodau rhyngddibynol, cymdeithasol. Nid peth da i ni yw bod ar ein pen ein hunain; rydym wedi'n creu i gael cymdeithas â'n gilydd ac â Duw.²⁹

26 Dychwelodd John Wesley at y syniad o Berffeithrwydd Cristnogol droeon, ac ymrafael ag ef, gan geisio'i ddeall a'i esbonio'n eglur.

27 *Called to Love and Praise* 2.2.2. Mae hwn yn ddeinameg adnabyddus ymhlith Methodistiaid, gan ei fod yn rhan o'r gwasanaeth cyfamodi blynyddol.

28 Mathew 22:37-40, yn cyfeirio at Deuteronomium 6:4-5 a Lefiticus 19:18.

29 "Dydy e ddim yn beth da i'r dyn (*yn y stori dan sylw*) fod ar ei ben ei hun. Dw i'n mynd i wneud cymar iddo i'w gynnal." Genesis 2:18 (beibl.net)

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

Wrth i ni ymateb i Dduw mewn cariad, cawn ein galw a'n galluogi i greu perthynas â'n gilydd ac â gweddiill y byd y mae Duw wedi'i greu, ac i ofalu am y cyfan. I Fethodistiaid, mae agwedd 'gymdeithasol' i sancteiddrwydd bob amser.³⁰

- 1.3.2 Caiff cariad Duw fynegiant eithaf yng ngofal creadigol ac achubol Duw am y ddyfnoliaeth. Er nad Duw ydym ni, ac na all ein cariad ni gyfateb i eiddo Duw, mae'r ffaith ein bod wedi'n creu ar ddelw Duw yn golygu bod Duw wedi'n galluogi i garu eraill mewn ffordd sy'n adlewyrchu natur Duw ei hun. Mae sut rydym ni'n mynegi'r cariad hwnnw'n amrywio yn ôl natur y gwahanol fathau o berthnasoedd yr ydym ni'n rhan ohonynt.
- 1.3.3 Rydym ni'n fodau cymdeithasol. Rydym yn cael perthynas ag eraill, ac yn rhoi a derbyn fel bodau rhyngddibynnol. Gallwn wneud hynny, er enghraifft, mewn perthnasoedd teuluol, lle cefnogwn ein gilydd a dibynnu ar ein gilydd am ofal meithringar. Gallwn ddatblygu cyfeillgarwch neu berthynas â grŵp o gyfoedion. Gall fod gennym berthnasoedd gwaith, a pherthynas â grwpiau budd arbennig. Gall fod gennym berthnasoedd eglwys, lle rydym yn dathlu, yn archwilio ac yn datblygu ein perthynas â'n hunain, â Duw, ac ag eraill. Mae'r Grŵp Tasg wedi sylwi bod 'cyfeillgarwch' yn categori pwysig, er ei fod yn eang iawn, wrth i bobl siarad am eu perthnasoedd y dyddiau hyn.
- 1.3.4 Ym mhob cymdeithas, mae pobl yn nodweddiadol yn datblygu termau ac ymadroddion i nodi perthnasoedd allweddol. Yng nghymdeithas gyfoes Prydain, mae amrywiaeth cynyddol o berthnasoedd, llawer ohonynt yn rhai ymarferol, hirhoedlog i raddau helaeth. Yn y cyd-destun hwnnw, defnyddir yr ymadrodd 'mewn perthynas' weithiau i ddynodi lefel uwch o ymrwymiad rhwng dau berson. Nid yw'r ymadrodd hwn o reidrwydd yn cynnwys cynodiadau rhywiol, ond fe'i deallir yn aml fel un sy'n awgrymu y gallai'r ymrwymiad hwnnw gael ei fynegi'n rhywiol. Mae'n drawiadol bod pobl yn ein cymdeithas ni yn dal i bryderu am ymrwymiad. Er nad yw hynny'n wir am bawb, rydym yn sylwi bod pobl yn gyffredinol yn dal yn awyddus i gael hyd i 'rywun arall arwyddocaol' (i ddefnyddio term cyfoes arall) y gallant dreulio cryn dipyn o amser gyda nhw, ac yn aml byddant yn gobeithio heneiddio gyda'i gilydd.

30 Mewn geiriau eraill, nid dim ond mater o gyflwr preifat, mewnol unigolyn yw sancteiddrwydd. "Nid yw Efengyl Crist yn gwybod am unrhyw Grefydd, ond un Gymdeithasol; am unrhyw Sancteiddrwydd ond Sancteiddrwydd Cymdeithasol" – John Wesley, yn ysgrifennu yn y rhagair i *Hymns and Sacred Poems*, a gyhoeddwyd gyntaf yn 1739.

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

1.4 Wedi ein creu i gael perthynas fel bodau rhywiol

Fel Grŵp Tasg rydym wedi'n hysbysu ein hunain ynghylch y ffyrdd o ddeall rhyw, rhywioldeb a rhywedd, sy'n newid ac yn datblygu'n gyflym iawn. Mae'r rhain yn feysydd cymhleth y mae llawer o ddadlau yn eu cylch. Dechreuwn yr adran hon gyda diwinyddiaeth rhywioldeb, fel y'i datblygwyd hyd yma mewn adroddiadau i Gynhadledd y Methodistiaid, cyn troi at fewnwelediad diwinyddiaeth sy'n dod i'r amlwg fel rhan o feddyliau diwinyddol parhaus yr Eglwys Fethodistaidd. Nid yw'r un ohonom yn arbenigwr ar y materion eithriadol arbenigol hyn, ac oddi mewn i'n terfynau ein hunain rydym wedi troi at nifer o asiantaethau a sylwebyddion i'n helpu ar hyd y ffordd. Rydym yn darparu rhestr termau i gynorthwyo'n dealltwriaeth gyffredin ar yr adeg benodol hon, ond yn cydnabod ar yr un pryd nad yw'r eirfa hon yn cynnwys pob term a ddefnyddir wrth drafod y pwnc, na phob dull o ddeall y termau a gynigir gan wahanol unigolion, grwpiau a sylwebyddion.

- 1.4.1 Mae Duw wedi'n creu i fod, yn yr ystyr ehangaf, yn fodau rhywiol. Wrth ddadbaão beth mae bodau rhywiol yn ei olygu, mae angen i ni ystyried: "rhyw" (sy'n cael ei roi i ni adeg ein geni, ar sail canfyddiadau o'n bioleg)³¹, rhywedd (sut rydym ni'n mynegi ein hunain o ran gwrywdod a benyweidd-dra), a rhywioldeb (a all gynnwys rhai neu'r cyfan o deimladau, cyfeiriadedd a gweithgarwch rhywiol).³² Mae'r meysydd hyn yn cael eu cydnabod yn gynyddol fel agweddau cymhleth ar ystyr bod yn ddynol. Mae llawer o dermau wedi cael eu datblygu, ac mae hynny'n dal i ddigwydd, mewn trafodaethau cyfoes penodol ar y materion hyn. Isod, felly, rydym yn darparu rhestr sy'n dangos sut defnyddir nifer o'r termau hyn yn fynych. Mae'n bwysig nodi, yn ogystal â chreu termau newydd, fod ystyr rhai termau cynharach, a sut maen nhw'n cael eu defnyddio gan rai grwpiau, wedi newid hefyd. Mae'r term "rhywioldeb", er enghraifft, wedi cael ei ddefnyddio mewn Adroddiadau blaenorol gan y Methodistiaid yn derm trosfwaol ar gyfer trafod beth yw ystyr bod yn fodau rhywiol; ond nid yw bob amser yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd honno mewn trafodaethau cyfoes. Yng ngoleuni hyn, rydym yn tynnu ar y ddealltwriaeth rydym wedi'i hetfeddu, ond yna trown at drafodaethau manylach ar "rhywioldeb a rhywedd", sef y disgrifiad mwyfwy cyffredin o hyn.

31 Mae Modiwl 5 Pecyn Offer EDI, Rhywedd, yn nodi, "nid eu rhyw sy'n diffinio pobl".

32 Mae'r disgrifiadau hyn o dermau allweddol wedi'u seilio ar Fodiwl 5 y Pecyn Offer EDI, Rhywedd, a hefyd fersiwn Saesneg Oxford Living Dictionaries en.oxforddictionaries.com/definition/sexuality, yr ymgynghorwyd â hi ar 29 Mawrth 2019.

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

Rhestr Termau

Mae diffiniadau amrywiol sydd â naws wahanol yn y maes hwn, sy'n tyfu'n gyflym iawn. Mae'r Grŵp Tasg wedi dewis yr hyn oedd yn fwyaf defnyddiol i ni ar sail y nodweddion canlynol: yn cael parch rhyngwladol (Sefydliad Iechyd y Byd); yn adlewyrchu persbectifau pobl LHDCR^h+ ac y mae'r GIG yn cyfeirio atynt (Stonewall); yn hawdd eu deall ac yn cael parch cenedlaethol (Childline a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)); ac yn adlewyrchu gwaith ein Heglwys ein hun ar y materion hyn (Pwyllgor EDI). Nid oes bwriad i'r hyn sy'n dilyn fod yn derfynol nac yn hollgynhwysol mewn unrhyw fodd.

Perthynas rywiol yw perthynas rhwng dau berson sy'n cynnwys atyniad rhywiol a rhamantaidd i amrywiol raddau.

Atyniad rhywiol yw pa mor ddeniadol yw rhywun i chi yn gorfforol, ac mae'n cynnwys a fyddech chi'n hoffi cael rhyw gyda nhw.

Atyniad rhamantaidd yw pa mor ddeniadol yw rhywun i chi yn emosiynol.

(O childline.org.uk/info-advice/your-feelings/sexual-identity/sexual-orientation/#SexualityDefinitions cyrchwyd ar 11 Mawrth 2019)

Anrhamantaidd: Ddim yn teimlo atyniad rhamantaidd at neb. *(Childline)*

Anrhywiol: Ddim yn teimlo atyniad rhywiol at neb. *(Childline)*

Deurywiol neu 'bi': Teimlo atyniad emosiynol a chorfforol at y ddwy ryw. *(Childline)*

Hoyw: Teimlo atyniad emosiynol a chorfforol at bobl o'r un rhyw. *(Childline)*

Rhywedd: Mae'n aml yn cyfeirio at nodweddion benywod a dynion a ddiffinnir gan gymdeithas – megis normau, rolau a pherthnasoedd. Mae hefyd yn ymwneud â sut rydym ni'n mynegi ein hunain, fel arfer yn nhermau syniadau o wrywod a benyweidd-dra, sy'n amrywio mewn gwahanol gymdeithasau. *(seiliwyd ar ddiffiniad Sefydliad Iechyd y Byd who.int/gender-equity-rights/understanding/gender-definition/en a phecyn offer EDI methodist.org.uk/media/9016/edi-toolkit-5.pdf)*

Gwahanyrwiol: Teimlo atyniad emosiynol a chorfforol at bobl o'r rhyw arall. *(Childline)*

Rhyngryw: Person y gall fod ganddynt nodweddion biolegol y ddwy ryw neu nad yw eu nodweddion biolegol yn cyd-fynd â rhagdybiaethau cymdeithasol ynghylch gwryw neu fenyw. *(Stonewall stonewall.org.uk/help-advice/glossary-terms#i)*

LHDCR^h+ : Acronym sy'n cynrychioli Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Traws, Queer/ Cwestiynu, Rhyngryw, ac eraill.

Lesbiad: Mae'n cyfeirio at fenyw sydd â chyfeiriadedd emosiynol, rhamantaidd a/neu rywiol tuag at fenywod. *(Stonewall)*

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

Anneuaidd: Term trosfwaol ar gyfer pobl nad yw eu hunaniaeth rhywedd yn cydweddu'n gyfforddus â 'dyn' neu 'fenyw'. Mae hunaniaeth anneuaidd yn amrywio, a gall gynnwys pobl sy'n uniaethu â rhai agweddau ar hunaniaeth ddeuaidd, tra bod eraill yn eu gwrthod yn llwyr. (*Stonewall*)

Panrywiol (Pan): Teimlo atyniad emosïynol a chorfforol at bobl o unrhyw rywedd neu gyfeiriadedd rhywiol. (*Childline*)

Queer: Mae rhai pobl yn defnyddio'r gair yma'n sarhaus, ond bydd pobl LHDFCRh+ eraill yn ei ddefnyddio i ddisgrifio peidio â ffitio i gategoriâu neu rywioldebau eraill. (*Childline*)

Cwestiynu: Y broses o archwilio eich cyfeiriadedd rhywiol eich hun a/neu eich hunaniaeth rhywedd. (*Stonewall*).

Rhyw: Mae hyn, "yn cyfeirio at y nodweddion biolegol a ffisiolegol sy'n diffinio dynion a benywod". Nodwn mai'r nodweddion hyn a ddefnyddir i bennu rhyw baban. (*EDI toolkit/WHO/Stonewall*).

Weithiau defnyddir y termau 'rhyw' a 'rhywedd' fel petaen nhw'n gyfystyr, heb fod yn fanwl gywir, ac yn aml maent yn awgrymu cyfeiriadau symlach 'gwryw' neu 'benyw'. (*Seiliwyd ar Stonewall*)

Rhywioldeb: Mewn trafodaethau cyfoes mae hyn yn awr yn tueddu i gael ei ddefnyddio i ddisgrifio atyniad rhywiol a rhamantaidd (*Childline*). Mewn trafodaethau blaenorol defnyddiwyd rhywioldeb fel term trosfwaol. Yn 2006 awgrymodd WHO fod rhywioldeb "fel agwedd ganolog ar fod yn ddynol, yn cwmpasu rhyw, hunaniaethau a rolau rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, erotigiaeth, pleser, perthnasoedd agos ac atgenghedlu gydol oes. Mae rhywioldeb yn cael ei brofi a'i fynegi mewn meddyliau, ffantasiau, dyheadau, credoau, agweddau, gwerthoedd, ymddygiad, arferion, rolau a pherthnasoedd. Er y gall rhywioldeb gynnwys pob un o'r dimensiynau hyn, nid yw'r cyfan ohonynt yn cael eu profi neu eu mynegi bob amser." (*WHO*) who.int/reproductivehealth/topics/sexual_health/sh_definitions/en

Cyfeiriadedd rhywiol: Cysyniad trosfwaol, sy'n crisialu hunaniaeth rywiol, ymddygiad ac atyniad. (ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/sexuality/bulletins/sexualidentityuk/2017). Atyniad emosïynol, rhamantaidd a/neu rywiol at berson arall. (*Stonewall/EDI*).

Traws: Term trosfwaol i ddisgrifio pobl nad yw eu rhywedd yr un fath, neu nad yw'n cydweddu'n gyfforddus, â'r rhyw a bennwyd ar eu cyfer adeg eu geni. Gall pobl traws ddisgrifio'u hunain gan ddefnyddio un neu fwy o amrywiaeth eang o dermau, gan gynnwys y canlynol (ond heb eu cyfyngu iddynt): trawsrywedd, trawsrywiol, queer o ran rhywedd (GQ), rhywedd-newidiol, anneuaidd, amrywiad rhywedd, trawswisgwr, dirywedd, anrhywedd, trydydd rhywedd, dwy ysbryd, deurywedd, dyn traws, benyw traws, traws gwrywaidd, traws benywaidd a neutrois. (*Stonewall*)

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

- 1.4.2 Roedd yr adroddiad ar rywioldeb dynol i Gynhadledd 1990 yn awgrymu bod rhywioldeb yn dda yn ei hanfod oherwydd ei fod “yn galluogi mynegi cariad mewn ymwneud personol dwfn. Mae’n gysylltiedig â dimensiynau corfforol, seicolegol ac ysbrydol y natur ddynol. Fe’n crewyd gan Dduw gyda photensial i brofi cyflawniad mewn perthnasoedd cariadus dwfn”. Mae’n “ddimensiwn o bob perthynas ddynol, a pherthynas ddynol yw cyd-destun rhywioldeb bob amser; o ganlyniad mae’n rhan o ddaioni’r cread”. Mae rhywioldeb “yn mynegi bwriad Duw ein bod yn cael hyd i’n hunaniaeth fel bodau dynol mewn perthynas; drwy hynny mae’n mynegi wrth eraill ein bod yn anghyflawn ar ein pen ein hunain, a bod perthynas rhyngom a phobl eraill”.³³
- 1.4.3 Er bod y disgrifiad hwn o rywioldeb (yn yr ystyr ehangaf) wedi bod o ddefnydd, mae’r Grŵp Tasg wedi bod yn ymwybodol yn ogystal y gallai mynd yn rhy bell i lawr y llwybr hwn awgrymu, mewn modd na fyddai o gymorth, nad yw’r rhai sydd heb fod mewn perthynas rywiol neu nad ydynt yn profi atyniad rhywiol, drwy ddiffiniad yn profi cyflawniad fel bodau dynol.³⁴ Ar ben hynny, mae perthynas agos rhwng y syniad bod angen person arall i’n gwneud yn gyflawn a’r cysyniad o gydweddiad rhywedd, lle deellir bod gan fenywod a dynion wahanol rolau sy’n cyd-fynd â’i gilydd. Ond mae cydweddiad rhywedd yn aml yn awgrymau rolau pendant ar gyfer dynion a benywod, mewn modd sy’n gallu arwain at osod mwy o werth ar un rhywedd (yn aml y gwryw) na’r llall a chyfiawnhau camwahaniaethu a gormes ar sail rhywedd.³⁵ Mae hefyd yn aml yn rhagdybio nad oes ond dwy rywedd (gwryw a benyw), sy’n dod at ei gilydd mewn perthynas wahanrywiol. Fodd bynnag, gwnaeth adroddiad 1990 sylwadau ar amrywiaeth o rywioldeb, a bu dealltwriaeth gynyddol o amrywiaeth rhywioldeb a rhywedd yn ystod y blynyddoedd ers hynny. Mae’n bwysig cadw hyn mewn golwg wrth i ni geisio gwerthfawrogi’n llawnach rodd gymhleth rhywioldeb dynol.³⁶
- 1.4.4 Mae’r Beibl – yn fwyaf eglur ym marddoniaeth Caniad Solomon – yn disgrifio rhyw yn fyw fel rhywbeth i lawenhau ynddo, rhywbeth ‘angerddol, cydradd, ffyddlon wedi’i ymgorffori... rhywbeth parhaol a thrawsffurfiannol’.³⁷ Nodir mathau eraill o rywioldeb yn y Beibl hefyd, nid bob amser mewn ffordd negyddol.³⁸ Mae cangen o ddiwinyddiaeth o’r enw “diwinyddiaeth queer” yn ceisio symud y tu hwnt i ffocws ar bennu hunaniaeth rhyw a rhywedd i bobl. Mae’r diwinydd Patrick Cheng, er enghraifft, yn dadlau yn y

33 Mae’r dyfyniadau yn y paragraff hwn yn dod o *The Report of the Commission on Human Sexuality*, 1990, paragraffau 16, 17 a 23 yn eu tro.

34 Person anrhywiol yw person nad yw’n teimlo atyniad rhywiol at neb (Childline).

35 James V. Brownson, *Bible, Gender, Sexuality*, (Cambridge/UK: Wm. B. Eerdmans Publishing Co, 2013) t. 19

36 Yng nghyswilt amrywiaeth rhywioldeb gweler ymhellach adran 1.5 isod.

37 Rachel Starr, *Reimagining the Theologies of Marriage in the Contexts of Domestic Violence* (Llundain: Routledge, 2017) t. 54

38 Gweler, er enghraifft, Eseia 56:3-5 ac Actau 8:26-39.

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

cyswllt hwn y gall rhywioldeb fod yn fynegiant o gariad radical, gan ddod â bodau dynol i berthynas ddyfnach â'i gilydd ac â Duw perthnasoedd Trindodaidd.³⁹ Mae Marcella A Reid hefyd yn gwneud y pwynt bod modd gweld dyheadau rhywiol fel rhan o'n dyheadau ehangach am berthnasoedd cyfiawn, cariadus.⁴⁰

- 1.4.5 Mae ein dealltwriaeth o sut gallem ni fynegi rhodd rhywioldeb dynol yn briodol hefyd wedi bod yn datblygu. Mae Datganiad 1992 yn nodi bod "cyfathrach yn rhan hanfodol o ddatblygiad personol" a'i fod yn cynnwys rhannu llawer o elfennau o natur personol, gan gynnwys "mynegiant corfforol priodol o hoffter o'r ddeutu",⁴¹ Mae'r Grŵp Tasg wedi defnyddio datblygiadau cyfredol yn ein dealltwriaeth o rywioldeb i nodi bod modd mynegi rhywioldeb mewn amrywiaeth eang o ffyrdd, o gyffyrddiad tyner i gyfathrach rywiol. Ym mhob perthynas agos, gall sut mynegir agosrwydd rhywiol amrywio'n fawr. Mae oed a iechyd (meddyliol a chorfforol) yn gallu cael effaith, fel y mae profiad, ymhlith ffactorau eraill.⁴² Nid yw pob mynegiant o rywioldeb o'r fath yn dderbyniol, fodd bynnag, ac rydym yn cadarnhau'n bendant benderfyniadau 1993 trwy ddatgan bod: "Pob arfer rhywioldeb sy'n anfoesol, yn gamfanteisiol, neu'n diraddio mewn unrhyw fodd yn ffurfiau annerbyniol ar ymddygiad, ac yn tynnu'n groes i ddibenion Duw ar ein cyfer ni i gyd".⁴³
- 1.4.6 Mae'r Grŵp Tasg wedi nodi bod diwinyddiaeth Gristnogol yn aml wedi pwysleisio pryderon ynghylch rhywioldeb dynol. Fel y dywedwyd yn adroddiad 1982, mae rhai rhannau o'r traddodiad Cristnogol wedi gweld gweithgarwch rhywiol fel rhywbeth sydd â chysylltiad annatod ag atgenhedlu. Mae hanes Adda ac Efa (Genesis: 2 – 3) wedi cael ei ddehongli fel un sy'n dysgu bod rhyw mewn rhyw fodd yn gysylltiedig â phechod. Yn ystod cwrs hanes Cristnogol, mae hyn wedi arwain at ddealltwriaeth o ryw fel rhywbeth hanfodol bechadurus, ac eithrio at ddibenion atgenhedlu.⁴⁴ Daethpwyd i weld rhyw fel rhywbeth peryglus, yr oedd angen ei roleoiddio a'i reoli.⁴⁵ Mae gweithgarwch rhywiol ac atgenhedlu benywod, yn arbennig, wedi achosi pryder

39 Patrick S. Cheng, *From Sin to Amazing Grace – Discovering the Queer Christ* (Efrog Newydd: Seabury Books, 2012) t. xiv

40 Marcella Althaus-Reid, 'Let Them Talk ...! Doing Liberation Theology from Latin American Closets' yn *Liberation Theology and Sexuality*, gol. Marcella Althaus-Reid (Aldershot: Ashgate, 2006), tt. 5-17

41 Datganiad gan y Methodistiaid ar Ddealltwriaeth Gristnogol o Fywyd Teuluol (1992) 41

42 Yn hyn manteisiwyd ar wybodaeth therapydd rhyw *Relate*.

43 Penderfyniadau 1993 ar Rywioldeb Dynol, (2)

44 Dealltwriaeth Gristnogol o Rywioldeb, adroddiad i Gynhadledd 1982. Mae Datganiad 1992, paragraff 62, yn dweud am y traddodiad Cristnogol "gyda rhai hyd yn oed yn ystyried cyfathrach rywiol fel arwydd o lygreddigaeth gynhenid".

45 Gweler, er enghraifft, drafodaeth Rachel Starr ar waith Awstin on *the Good of Marriage* yn ei llyfr, *Reimagining the Theologies of Marriage in the Contexts of Domestic Violence* (Llundain: Routledge, 2017) tt. 44-49.

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

ymhlith diwinyddion ac arweinwyr eglwysig, yn aml gyda chanlyniadau trychinebus i lesiant benywod. Mae angen i ni holi ein hunain a ydym ni, fel Eglwys, wedi cynnal system yn rhy hir a fu’n ceisio “cadw benywod yn weddus ac o dan reolaeth.”⁴⁶

- 1.4.7 Mae’r Grŵp Tasg hefyd wedi myfyrio ar a yw cyd-destun ffrwydriad poblogaeth ar draws y byd yn effeithio ar ddatblygiad ein dealltwriaeth o’r amrywiaeth o ddulliau o fynegi rhywioldeb. Mae Susannah Cornwall, diwinydd cyfoes ar rywioldeb, yn galw am allystyried y ddiwinyddiaeth sy’n breintio ‘rhyw ffrwythlon, a allai arwain at atgenghedlu, oedd yn gwneud synnwyr pan oedd cymunedau’n fach a’r rhywogaeth ddynol mewn perygl o ddiflannu’. Mae hi’n dadlau bod ‘cymeradwyaeth ddiwinyddol i un math o weithgarwch rhywiol yn unig – hynny yw, rhyw ffrwythlon treiddiol rhwng gwryw a benyw – yn ddisynnwyr bellach.’⁴⁷
- 1.4.8 Gwnaed sylwadau am bŵer rhywioldeb mewn adroddiadau blaenorol.⁴⁸ Mae gan rywioldeb bŵer i greu llawer o ddaioni a llawer o niwed. Gan dynnu ar waith yr hanesydd Stephanie Coontz, mae’r Grŵp Tasg wedi nodi bod llawer o egni, ar hyd hanes, wedi cael ei fuddsoddi mewn rheoleiddio a rheoli cyfathrach rywiol yn gyffredinol, ac atgenghedlu yn arbennig.⁴⁹ Ac eto mae’r ‘normau’ wedi newid o oes i oes, ac o gyd-destun i gyd-destun. Er enghraifft, mewn llawer rhan o gymdeithas gyfoes Prydain Fawr (fel mewn rhannau eraill o’r hyn rydym ni’n ei adnabod fel y “Gorllewin”), mae’r ffaith bod atal cenhedlu ar gael yn ehangach wedi lleihau rhai o’r rhesymau a roddwyd yn aml am reoleiddio cyfathrach rywiol. Mae’r ofnau sydd weithiau wedi peri i bobl ddymuno rheoli gweithgarwch rhywiol wedi lleihau. Ar yr un pryd sylweddolwyd fwyfwy bod rheolaeth ar y materion hyn yn aml wedi bod yn nwylo dynion, a’u bod wedi trin benywod mewn ffyrdd amhriodol a gormesol. Mae agweddau negyddol ar bŵer rhywioldeb wedi cael eu hystyried mewn amrywiol adroddiadau i’r Gynhadledd yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf.⁵⁰
- 1.4.9 Mae cymhlethdodau rhywioldeb a rhywedd yn aml wedi golygu bod hwn yn bwnc yr ydym ni fel Methodistiaid yn cael trafferth ei drafod. Ac eto, fel Grŵp Tasg, rydym wedi dod i ddeall ei fod yn hanfodol i ni gymryd o ddirif beth yw ystyr cael ein creu’n fodau rhywiol er mwyn gallu profi mwy o ddyfnder cariad a gofal Duw amdanom yn

46 Rachel Starr, *ibid.* t. 54

47 Susannah Cornwall, *Un/familiar Theology – Reconciling Sex, Reproduction and Generativity* (Llundain: Bloomsbury T&T Clark, 2017) t. 93

48 Adroddiad y Comisiwn ar Rywioldeb Dynol 1990, t. 127

49 Stephanie Coontz, *Marriage, a History: How Love Conquered Marriage*, Penguin (USA): Efrog Newydd, 2005.

50 *Domestic Violence and the Methodist Church, the way forward 2002*; adroddiadau *Safeguarding 2016 a 2017*; *Responding to the Realities and Challenges of Pornography 2017*

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

gyfan.⁵¹ Er mwyn llywio'r ddiwinyddiaeth rywioldeb hon ymhellach, trown yn awr at ddatblygiadau yn y gwyddorau naturiol a chymdeithasol.

1.5 Amrywiaeth rhywioldeb

1.5.1 Mae rhywioldeb yn yr ystyr ehangaf, fel y nodwyd uchod, yn agwedd greiddiol ar ystyr cael ein creu'n fodau dynol mewn cariad gan Dduw. Fel Grŵp Tasg, rydym wedi canfod ei fod yn bwysig cofio bod rhywioldeb o ran teimladau o atyniad yn agwedd werthfawr iawn ar hunaniaeth ddynol, na ellir ei lleihau i lefel bioleg neu seicoleg neu ryw ffactor arall. Ar yr un pryd, rydym wedi nodi bod y gwyddorau'n datblygu ein dealltwriaeth o natur ac amrywiaeth rhyw, rhywioldeb a rhywedd. Pan fu'r Grŵp Tasg yn chwilio am ffynhonnell sylwebaeth awdurdodol yn y maes hwn, a oedd nid yn unig wedi'i gwreiddio mewn gwyddoniaeth ond hefyd yn hygyrch ac yn cael ei pharchu (gweler y cyflwyniad i'r Rhestr Termau uchod), troesom, fel y Pwyllgor EDI, at Sefydliad Iechyd y Byd (WHO). Mae hwn yn sefydliad gwybodus, uchel ei barch sy'n darparu adnodd annibynnol, seiliedig ar wybodaeth wyddonol yn y materion hyn. Mae'r WHO yn ymagweddu'n eang at ddeall iechyd dynol. Ni ddylid gweld y ffaith ein bod yn defnyddio diffiniadau WHO fel rhywbeth sy'n golygu ein bod mewn unrhyw fodd yn lleihau rhywioldeb i fater meddygol neu gorfforol yn unig. Mae WHO eu hunain yn gosod rhywioldeb oddi mewn i ystod eang o ystyriaethau. Gan WHO fe ddysgwn fod rhywioldeb yn ffenomen gymhleth, y "dylanwadir arni gan ryngweithio biolegol, seicolegol, cymdeithasol ac economaidd", a ffactorau eraill diwyllianol ac ysbrydol.⁵² Gall ein dealltwriaeth ddiwinyddol, felly, gael ei llywio gan well dealltwriaeth o'r amrywiol ffactorau eraill dan sylw.

1.5.2 Ers 1979, mae adroddiadau ar rywioldeb i'r Gynhadledd wedi nodi amrywiaeth o hunaniaethau rhywiol dynol.⁵³ Nododd adroddiad 1990 fod ymchwil gwyddorau cymdeithasol yn aml yn defnyddio'r ddelwedd o sbectrwm i ddisgrifio rhywioldeb dynol, tra bod eraill yn sôn am bosibiliadau oedd yn gorgyffwrdd.⁵⁴ Mewn degawdau blaenorol, y ffordd amlycaf o drafod rhyw a rhywedd oedd trwy ddefnyddio termau deuaidd syml, hynny yw gwryw a benyw, dynion a benywod. Yn cyd-fynd â hyn roedd rhagdybiaeth y dylai pawb syrthio i'r categorïau hyn a mynegi eu rhywioldeb mewn modd gwahanrywiol. Mae hyn yn cysylltu â'r ffordd mae'r term "rhyw" yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin i olygu cyfathrach gymysgryw. Mae arsylwadau'r gwyddorau bellach yn datgelu bod y sefyllfa'n llawer mwy cymhleth ac amrywiol yng nghyswllt datblygiad ein hunaniaethau rhywiol a rhywedd, sy'n gallu bod yn llawer mwy newidiol nag y tybiwyd yn flaenorol.

51 Yn hyn rydym yn troi at waith Tina Beattie, 'The Theological Study of Gender' yn Adrian Thatcher (gol.) *The Oxford Handbook of Theology, Sexuality, and Gender* (Rhydychen: Oxford University Press, 2015).

52 who.int/reproductivehealth/topics/sexual_health/sh_definitions/en/ yr ymgynghorwyd â hi ar 28 Tachwedd 2018.

53 Adroddiad 1979 A5

54 Adroddiad Comisiwn y Gynhadledd ar Rywioldeb Dynol, 1990 131

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

- 1.5.3 Adeg ein geni rhoddir hunaniaeth i ni gan y rhai sy’n gofalu amdanom, ac elfen allweddol o hyn yw ein rhyw, sydd fel arfer wedi’i seilio ar natur ein nodweddion rhyw sylfaenol (ein horganau rhyw) a’n swyddogaethau atgenhedlu.⁵⁵ Mae mwyafrif llethol o bobl yn cael eu geni’n wryw neu’n fenyw, ac yn cael eu galw’n fachgen neu’n ferch ar y sail honno. Mae cyfran fechan o bobl yn cael eu geni â nodweddion rhywiol o’r ddau fath, neu nodweddion nad ydynt yn debyg i’r arfer, a gellir eu disgrifio fel rhyngryw. Mae Cymdeithas Ryngryw Gogledd America yn datgan bod “Rhyngryw” yn derm cyffredinol a ddefnyddir ar gyfer amrywiaeth o gyflyrau lle genir person ag anatomeg rywiol neu atgenhedlol nad yw fel petai’n cydweddu â’r diffiniadau nodweddiadol o fenyw neu wryw.⁵⁶ Mae rhwng 1 o bob 1,500 ac 1 o bob 2,000 o fabanod yn cael eu geni ag elfen ryngryw y gellir sylwi arni.⁵⁷ Weithiau pennir rhyw adeg geni, ac yna gwelir nad yw’n cyfateb i’r nodweddion biolegol mae’r unigolyn yn eu datblygu. Mae ymwybyddiaeth gyhoeddus o’r categori rhyngryw wedi cael ei chynnyddu gan y ffaith bod athletwyr proffil uchel diweddar yn cael eu gwahardd rhag cystadlu o dan un hunaniaeth rhyw neu rywedd neu un arall.⁵⁸
- 1.5.4 Mae’r Grŵp Tasg wedi nodi bod rhywedd, fel rhyw, yn aml wedi cael ei drin fel petai’n rhywbeth digon syml y gellir ei dderbyn, er ei fod mewn gwirionedd hefyd yn cael ei adeiladu gan gymdeithas ac yn gymhleth.⁵⁹ Un diffiniad o rywedd yw dweud, “Er bod y rhan fwyaf o bobl yn cael eu geni’n wryw neu’n fenyw, dysgir ymddygiad a normau priodol iddynt – gan gynnwys sut dylen nhw ryngweithio ag eraill o’r un rhyw neu’r rhyw arall” mewn gwahanol gyd-destunau.⁶⁰ Mae’r ymddygiad a’r normau rhywedd hyn yn amrywio yn ôl diwylliant, a gallant newid oddi mewn i ddiwylliannau. Fe’u dysgir trwy broses barhaus o gymdeithasoli, ac fel arfer maent wedi cynnwys gwahaniaeth yn lefel y pŵer sydd gan bobl un rhywedd o gymharu â phobl rhywedd arall.⁶¹
- 1.5.5 Mae cysyniad rhywedd wedi cael ei ddadansoddi ymhellach yn fynegiant rhywedd a hunaniaeth rhywedd. *Mynegiant rhywedd* yw sut bydd person unigol yn byw neu’n

55 Modiwl 5 Pecyn Offer EDI, Rhywedd. Nodwn hefyd adroddiadau yn y wasg fod rhai rhieni bellach yn dewis peidio â datgelu “rhyw” eu plant ac yn mynegi awydd i’w magu fel plant “niwtral o ran rhywedd”.

56 isna.org/faq/what_is_intersex yr ymgynghorwyd â hi ar 21 Chwefror 2019

57 isna.org/faq/frequency yr ymgynghorwyd â hi ar 21 Chwefror 2019

58 Gweler theguardian.com/sport/2016/jul/29/what-is-an-intersex-athlete-explaining-the-case-of-caster-semena yr ymgynghorwyd â hi ar 4 Mawrth, 2019.

59 Dechreuodd y term ‘rhywedd’ a ‘chysylltiadau rhywedd’ gael ei ddefnyddio gyntaf yn y 1970au mewn ffyrdd newydd oedd yn troi sylw oddi wrth y gwahaniaethau rhwng y rhywiâu at berthnasoedd cysyniadol a chymdeithasol rhyngddynt (apps.who.int/mediãnedocs/en/d/Jh2997e/4.html) cyrchwyd ar 11 Mawrth 2019).

60 Diffiniad WHO who.int/gender-equity-rights/understanding/gender-definition/en/ ymgynghorwyd â hi ar 22 Mawrth 2019

61 who.int/mediãnedocs/en/d/Jh2997e/4.html cyrchwyd ar 11 Mawrth 2019

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

mynegi rhywedd (e.e. wrth ddewis dillad, symudiad y corff a gweithredoedd).⁶²

Hunaniaeth rhywedd yw “sut mae unigolyn yn deall ei rywedd ei hun, a all gyfateb i’r rhywedd neu’r rhyw corfforol a bennwyd adeg geni neu gan normau cymdeithas, neu beidio”.⁶³ Gall ymdeimlad person o hunaniaeth rhywedd newid dros amser. Bellach mae ystod eang o hunaniaethau rhywedd, y mae rhai ohonynt wedi’u rhestru yn yr eirfa uchod, gan gynnwys termau newydd sy’n mynegi sut mae termau rhywedd deuaidd wedi cael eu cwestiynu neu eu gwrthod fel rhai rhy gul.

- 1.5.6 Mae rhywioldeb yn dod i gael ei ddeall fel cyfeiriad at gapasiti o ran teimladau rhywiol, cyfeiriadedd neu ffafriaeth rhywiol a gweithgarwch rhywiol.⁶⁴ Mae cyfeiriadedd rhywiol yn ymwneud ag atyniad at eraill a gall gynnwys elfennau o atyniad corfforol, emosïynol ac ysbrydol.⁶⁵ Bellach mae ystod eang o fathau o rywioldeb yn cael eu nodi a’u trafod, ac rydym hefyd yn cynnwys diffiniadau o rai o’r rhain yn ein rhestr termau. Er bod mwyafrif o bobl yn cael eu bod yn wahanrywiol o ran cyfeiriadedd, nid yw hynny’n wir am bawb. Fel grŵp, rydym wedi nodi’r anawsterau wrth gyflwyno ffigurau cywir ynglhyll nifer y bobl sy’n nodi eu bod yn lesbiaidd, yn hoyw neu’n ddeurywiol o ran cyfeiriadedd. Mae hynny’n bennaf oherwydd eu bod wedi profi camwahaniaethu, sy’n arwain at lefelau is o adrodd am rywioldeb o’r math yma mewn ymarferiadau casglu ystadegau. Felly, er ein bod yn nodi bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn y Deyrnas Unedig wedi awgrymu, yn 2016, bod 2% yn nodi eu hunain fel lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol, mae’n debygol bod llawer mwy mewn gwirionedd.⁶⁶
- 1.5.7 Mae’r Grŵp Tasg wedi myfyrio ar ystyr y ddealltwriaeth gynyddol hon o amrywiaeth rhywioldeb dynol i’n diwinyddiaeth ninnau. Mae’r Eglwys Fethodistaidd yn parhau i ddatblygu ei dealltwriaeth o bob bod dynol fel person cydradd gerbron Duw.⁶⁷ Fel y dywedodd Datganiad 1992, “mae gwerth diderfyn i bob person gerbron Duw”.⁶⁸ Rydym wedi cofio “na wnaeth Duw ddim yn ofer” a’i fod yn caru popeth a greodd.⁶⁹ Mae’r Eglwys Fethodistaidd wedi bod yn gwneud cynnydd sylweddol gyda threigl y blynyddoedd wrth gymhwyso’r ddiwinyddiaeth hon o gydraddoldeb, nid lleiaf yn

62 Childline childline.org.uk/info-advice/your-feelings/sexual-identity/transgender-identity/ cyrchwyd ar 22 Mawrth 2019

63 *Sexuality: The Inclusive Church Resource*, tt/115-116

64 English Oxford Living Dictionaries <https://en.oxforddictionaries.com/definition/sexuality> ymgynghorwyd â hi ar 29 Mawrth 2019.

65 O’r Genderbreadperson <https://www.genderbread.org/wp-content/uploads/2017/02/Breaking-through-the-Binary-by-Sam-Killermann.pdf> cyrchwyd ar 25 Mawrth 2019

66 Ystadegau o Fwletin Ystadegol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) “Sexual Identity, UK: 2016” a ryddhawyd ar 3 Hydref 2017.

67 *Created in God’s image*, 2008, t. 32

68 Datganiad gan y Methodistaidd ar Ddealltwriaeth Gristnogol o Fywyd Teuluol 1992, t. 29

69 *Llyfr Addoliad y Methodistaidd*, 1999, t. 493

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

ddiweddar trwy waith ei Phwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI). Ac eto mewn rhai ffyrdd rydym ni’n dal heb roi lle cyfartal yn ymarferol i bobl sy’n wahanol eu rhywioldeb. Mae pawb ohonom wedi cael ein creu i fod mewn perthynas, ac mae pawb ohonom wedi cael ein creu yn fodau rhywiol mewn amrywiaeth o ffyrdd. Pan fyddwn wedi’n seilio yng nghariad Duw ac yn adlewyrchu’r cariad hwnnw, mae pawb ohonom yn bod yn fodau dynol dilys. Mae’r gobaith y gallwn dyfu a ffynnu trwy berthnasoedd cariadus ymroddedig, gan gynnwys perthnasoedd penodol rywiol yn achos y rhan fwyaf o bobl, yn obaith a rennir yn gyffredinol gan fodau dynol. Y cwestiwn felly yw sut gallwn ni, fel Methodistaidd, hwyluso’r ffordd i rodd hael Duw o gael perthynas ag eraill a bod yn fodau rhywiol gael ei dathlu’n well gan bawb?

2 Mae Duw yn ein harwain ym mhob perthynas

Yn adran 1 nodwyd bod bodau dynol wedi’u creu i gael perthynas gariadus â Duw ac â’i gilydd. Yn Adran 2 rydym ni’n ymdrin â sut mae perthynas dda yn digwydd, yn arbennig perthynas rywiol dda. Rydym ni’n ceisio dirnad beth yw dibenion perthnasoedd da, a beth sy’n eu nodweddu. Rydym yn archwilio pa batrymau ymddygiad ac arferion sy’n galluogi’r perthnasoedd da hyn i ffynnu. Yna rydym ni’n ystyried patrymau ac arferion cyfoes o ran perthnasoedd yng ngoleuni’r meddyliau hyn. Yn hyn oll, rydym yn cynnig meddyliau ynghylch rhannau o’r Beibl a dysgeidiaeth Fethodistaidd flaenorol.

2.1 Dibenion perthnasoedd da

- 2.1.1 Duw sydd wedi creu popeth ac mae’n caru popeth a grewyd, gan ddangos y cariad hwnnw trwy alw’r greadigaeth yn ‘dda’.⁷⁰ Mae’r Beibl yn sôn am sut mae Duw yn gwahodd bodau dynol i dderbyn y cariad hwnnw a’i ddychwelyd. Rydym i ddychwelyd y cariad hwnnw trwy ganmol Duw a gofalu am bopeth mae Duw wedi’i greu: “y byd a’r rhai sy’n byw ynddo”.⁷¹ Dyma ein diben creiddiol fel bodau dynol. Mae’r rhai sydd wedi ymateb i’r cyfamod a gynigir gan Dduw wedi dod yn gymunedau y mae eu hymateb cariadus i’r hyn a wnaeth Duw yn cynnwys addoli Duw a’i wasanaethu. Mae’r Eglwys wedi cydnabod bod y gwasanaeth hwn yn golygu cyfranogi yng nghenhadaeth gariadus Duw i’r byd. Yn yr hyn sy’n dilyn rydym yn nodi sawl prif ddiben arall ar gyfer perthnasoedd, fel y mae’r Beibl yn eu datgelu i ni, ac yn myfyrio ar sut mae cyfranogiad yn y dibenion hynny’n ein tywys tuag at berthnasoedd da.
- 2.1.2 Un ffordd arwyddocaol o addoli Duw a’i garu’n ymarferol yw trwy ofalu am greadigaeth Duw. Fe’n crewyd i gael perthynas â’n gilydd fel **cyd-stiwardiaid** yn y dasg hon. Mae Genesis 1:26-28 a Genesis 5:1-2 yn gwneud y pwynt bod pob bod

70 Genesis 1

71 Salm 24:1

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

dynol wedi'u creu'n gyfartal ar ddelw Duw⁷² a bod y ddelw honno'n golygu "feistri sy'n gofalu" am bopeth arall a grewyd (Genesis 1:26, 28-31). Os yw'r gwaith hwnnw'n fod ar ddelw Duw mewn gwirionedd, mae'n golygu rhannu yng nghariad creadigol Duw.⁷³

2.1.3 Gwaith cymunedau yw molu Duw a gofalu am gread Duw. Yn iaith ddarluniadol Genesis, dywedir wrthym fod Duw, wrth edrych i lawr ar y cread cyfan fel rhywbeth da, wedi gweld nad oedd yn dda i'r bod dynol cyntaf fod ar ei ben ei hun. Roedd angen cynorthwy-ydd o rywogaeth y bod dynol ei hun ar gyfer y dasg o rannu yng nghariad creadigol Duw.⁷⁴ Mae hyn yn arwain at Genesis 2:21-25.⁷⁵ Nid yw bodau dynol wedi'u bwriadu i fod yn gwbl annibynnol, ag ymreolaeth lwyr, ac yn hunangynhaliol. Yn hytrach, fel y darllennwn yn Genesis 2, gan eu bod yn dod o'r un cnawd, mae bodau dynol yn teimlo awydd i ddod yn "un cnawd" â'i gilydd. Fe'u crewyd yn fodau rhyngddibynnol, cymdeithasol sydd â pherthynas â'i gilydd. Mae'r ysgogiad hwnnw'n rhan o'n natur ddynol, wrth i ni gydweithio er mwyn helpu i ofalu am gread Duw. Mae'r gyfeillach hon yn golygu bod yr hyn nad oedd yn dda yn dod yn dda, ac yn cyfrannu at ffyniant pob unigolyn. Fe'n crewyd i gael perthynas â'n gilydd fel **cydweithwyr** neu **gymdeithion**.

2.1.4 Mae penodau agoriadol Genesis wedi'u lleoli mewn dealltwriaeth gyffredinol o greu **cymuned o bobl** a fydd yn caru, yn addoli ac yn gwasanaethu Duw. Mae hynny'n golygu nad yw'r adnodau yn Genesis 2:21-25 yn ymwneud yn unig â'r hyn rydym ni wedi dod i'w alw'n 'briodas' neu'n berthynas rywiol rhwng dau berson. Nid dim ond atgenhedlu oedd diben y berthynas rhyngddynt, ond hefyd gallu rhannu fel cydweithwyr a chymdeithion yn y gwaith o ofalu am eraill ac am weddill cread Duw.

72 Mae iaith ddarluniadol y naratif yn defnyddio termau deuaidd gwryw a benyw i fynegi hyn, lle byddem ninnau bellach yn defnyddio iaith fwy cynhwysol.

73 Felly, yn Genesis 2:15 mae'r bod dynol cyntaf i'w greu yn cael ei roi yn y greadigaeth (Gardd Eden) i'w thrin a gofalu amdani. Mae hynny'n dangos sut mae'r gosodiad ym mhennod 1 am 'fod yn feistr sy'n gofalu' i gael ei ddeall.

74 Mae Genesis 2:19-20 yn esbonio sut nad yw'r mathau eraill o greadur yn gwbl addas i fod yn gynorthwy-ydd i'r bod dynol.

75 ⁷²Felly dyma'r Arglwydd Dduw yn gwneud i'r dyn gysgu'n drwm. Cymerodd ddarn o ochr y dyn, a rhoi cnawd yn ei le. ⁷³Wedyn dyma'r Arglwydd Dduw yn ffurfio dynes allan o'r darn oedd wedi'i gymryd o'r dyn, a dod â hi at y dyn. ⁷⁴A dyma'r dyn yn dweud, 'O'r diwedd! Un sydd yr un fath â fi! Asgwrn o'm hesgyrn, a chnawd o'm cnawd. 'Dynes' fydd yr enw arni, am ei bod wedi'i chymryd allan o ddyn.'

⁷⁵Dyna pam mae dyn yn gadael ei dad a'i fam ac yn cael ei uno â'i wraig. Byddan nhw'n dod yn uned deuluol newydd. ⁷⁶Roedd y dyn a'i wraig yn hollol noeth, a doedd ganddyn nhw ddim cywilydd." Y gair yn adnod 24 sy'n cael ei gyfieithu 'gwraig' yw'r gair ar gyfer 'benyw/dynes' hefyd, fel yn 2:23. Yng nghyd-destun cymdeithas batriarchaidd mae 'ei ddynes' yn dod i olygu partner neu gymar dyn, ac wrth gwrs yn Gymraeg mae 'gwraig' yn cyfeirio at y ddwy ystyr. Mae perygl wrth gwrs, yn arbennig wrth i ni ddarllen cyfieithiadau Saesneg sy'n defnyddio 'woman/wife' ein bod yn darllen i mewn i'r testun ein cynodiadau ein hunain ar gyfer priodas a beth yw ystyr bod yn 'wraig'.

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

Mae'r diben ehangach hwn yn berthnasol i bawb. Gall pob bod dynol, p'un a ydynt yn sengl neu mewn partneriaeth, profi'r gyfeillach hon, mynegi'r cydweithio hwn, a chael hyd i fywyd a chyflawniad yn y pen draw trwy ffurfiau amrywiol ar berthnasoedd.

- 2.1.5 Fel y gwelsom uchod, mae bod yn feistri sy'n gofalu am bopeth yn golygu rhannu yng nghariad creadigol Duw fel cyd-stiwardiaid. Mewn geiriau eraill, mae'r pwyslais ar fod yn **creu ar y cyd** â Duw. Rydym ni'n cyflawni'r diben hwn wrth atgenneddu,⁷⁶ a hefyd pan fyddwn ni'n defnyddio ein cyrff a'n meddyliau, ein doniau a'n dychmyg mewn ffyrdd sy'n datblygu ein hunain, ein cymunedau a gweddiill y greadigaeth. Mae creu ar y cyd yn gofyn ein bod yn datblygu ffyrdd newydd o amddiffyn y ddaear. Fel y nodwyd yn Adran 1, yng ngoleuni'r gorboblogi presennol gellir gweld hyn fel rhywbeth sydd lawn cymaint yn rhan o ddibenion Duw ag atgenneddu.
- 2.1.6 Gyda dyfodiad Crist rhoddwyd hwb newydd i'r sôn am ddibenion Duw yn nhermau teyrnas Duw yn torri trwodd ac yn cael ei gwireddu ar y ddaear. Yn efengylau Mathew, Marc a Luc, mae Iesu'n cyfeirio lawer gwaith at deyrnas Duw neu deyrnas nefoedd.⁷⁷ Gorchymynnwyd i'r disgyblion a dilynwyd cynnar Iesu ledaenu'r neges am addewid y deyrnas hon a helpu i'w chyflawni. Daeth dilynwyd Iesu yn **gydweithwyr** ag ef yn y dasg hon. Cafwyd rhagflas o hyn ei weinidogaeth gyda nhw ar y ddaear, ond daeth yn wirioneddol bwysig pan dorrodd bywyd newydd yr atgyfodiad trwodd. Bryd hynny, fel yn awr, un o ddibenion perthnasoedd dilynwyd Iesu yw helpu i gyflawni teyrnas Duw.
- 2.1.7 Daeth y rhai a drawsnewidiwyd gan eu hymwneud â Christ yn aelodau o gymuned newydd. Roedd hynny'n golygu eu bod i rannu'r neges am berthynas y cyfamod newydd a ddarparwyd trwy Grist, a bod yn weithwyr yn nheyrnas Duw. Byddai'r gymuned newydd yn gyfrwng iddyn nhw feithrin ei gilydd fel brodyr a chwiorydd yn hyn o beth. Fel y dywedwyd yn Natganiad 1992, "Disgrifiodd Iesu gymdeithas pobl Duw fel un oedd yn darparu cyd-destun teuluol newydd i'r unigolyn: Mathew 19:27-30, Marc 3:35, Ioan 19:25-27. Dysgodd Paul fod y rhai oedd yn credu yng Nghrist wedi'u mabwysiadu'n blant i Dduw (Effesiaid 1:5), ac yn cael profi Duw fel tad a chredinwyr eraill fel chwiorydd a brodyr."⁷⁸ Y pwyslais a dynnwn o hyn fel Grŵp Tasg yw bod perthynas â Christ yn creu cyd-destun teuluol newydd, un lle roedd ac y mae credinwyr yn **gyd-etifeddion** â'i gilydd.⁷⁹ Ar sail dysgeidiaeth Iesu yn yr Efengylau

76 Gan ddilyn y gorchymyn neu'r fendith i "gael plant, fel bod mwy a mwy ohonoch chi" (Genesis 1:28).

77 Mae trafodaeth hir, ysgolheigaidd wedi bod ar iaith y 'deyrnas'. Mae'r trosiad yn cyfeirio at rywbeth deinamig, ac fe soniodd un ysgolhaig amdano fel "proses, cyfres o ddigwyddiadau, lle mae Duw yn dechrau llywodraethu neu weithredu fel brenin neu Arglwydd, gweithred, felly, y mae Duw yn ei defnyddio'n gyfrwng i ddatgelu ei fod yn Dduw yn y byd", Schillebeeckx, Edward, *Jesus: An Experiment in Christology* (Llundain, Fount Paperbacks, 1983), tt. 140-141.

78 Datganiad Cynhadledd 1992 ar *Dealltwriaeth Gristnogol o Fywyd Teuluol, y Person Sengl a Phriodas*

79 Rhufeiniad 8:17

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

gallwn ddod i ddeall bod perthnasoedd 'perthnasau'r teulu' a 'disgyblion' i gael eu cyfuno a'u hailffurfio yng ngoleuni gwerthoedd teyrnas Duw.⁸⁰

2.1.8 O'r Beibl fe welwn felly fod **dibenion da Duw ar gyfer perthnasoedd yn cynnwys cyflawni'r canlynol:**

- **gofal am y cread;**
- **ffyniant y person, y gymuned a'r Deyrnas;**
- **atgenhedlu (er nad yn hanfodol felly); a**
- **meithrin.**

Ble bynnag y gwelwn y dibenion hyn ar waith mewn perthnasoedd, gallwn weld cyfle i ddathlu presenoldeb Duw.

2.1.9 Mae hyn yr un mor berthnasol i berthnasoedd rhywiol ag i berthnasoedd eraill. Rydym eisoes wedi trafod yn Adran 1 rai agweddau ar natur perthnasoedd rhywiol sy'n cyfrannu at gyflawni'r dibenion y sonnir amdanynt yma. Mae'r rhain yn cynnwys awydd i greu perthynas y tu hwnt i'n hunain a phleser llawn rhyw pan reolir hynny'n briodol. Mae agosrwydd rhywiol yn creu cwlwm seicolegol, ysbrydol a chymdeithasol rhwng pobl, yn ogystal ag un corfforol.⁸¹ Gall hynny gryfhau perthnasoedd rhwng cyplau sy'n sylfaen ar gyfer perthnasoedd teuluol a chymunedol. Bydd perthynas rywiol dda yn meithrin yr hunan a'r cwpl dan sylw, yn cryfhau eu perthynas, ac yn eu galluogi hefyd i gefnogi aelodau o'u teulu a'u ffrindiau, gan gryfhau cysylltiadau yn y gymuned o'u cwmpas, a rhoi cyfleoedd felly i'w helpu i ofalu am y cread a charu Duw.

2.2 Nodweddion perthynas dda â'n gilydd

2.2.1 Datgelir Duw ym mherson a gwaith Iesu Grist. Mae gweithredoedd, ymddygiad ac agweddau Iesu i gyd wedi'u gwreiddio yn ei berthynas â Duw ac yn llifo o'r berthynas honno. Maent yn datgelu rhywbeth am Dduw a natur drawsffurfiannol cariad Duw, ac maent yn peri i'r deyrnas fod yn bresennol. Yn y ffordd hon, mae'r Testament newydd yn dangos Iesu fel ymgnawdoliad o ffordd Duw o greu perthynas. Yn yr Efengylau, gwelwn Iesu yn cael perthynas â phobl go iawn yng nghanol eu bywydau a'u hymrafael beunyddiol. Creodd berthynas wirioneddol â benywod a dynion, â phlant a'r henoed. Yn ei plith, roedd ganddo berthynas agos iawn â Martha, Mair a Lasarus; ac roedd ganddo berthynas arbennig gyda'r 'disgybl yr oedd yn ei garu'.⁸² Fel y nodwyd uchod, roedd yn caru ac eto ar brydiau yn 'ymbellhau' oddi wrth ei deulu

80 Cofiw'n fod Iesu, i bob pwrpas, wedi rhybuddio rhag gwneud unrhyw beth yn eilun a'i ddyrchafu'n uwch na chariad at Dduw, gan gynnwys: gwaith (ee Marc 1:16-20 a 2:13-14); arian (ee Mathew 6:24); y wladwriaeth (ee Ioan 19:8-11); sefydliadau a swyddogion crefyddol (ee Marc 12:38 – 13:37); neu, fel sy'n fwyaf berthnasol i ni yma, priodas a'r teulu (ee Marc 3:31-35 a 10:28-31, Luc 9:59-60).

81 Yma rydym yn adleisio paragraffau 15 ac 16 o adroddiad 1990 y Comisiwn ar Rywioldeb Dynol.

82 Gweler Ioan 19:26; 20:2 a 21:7.

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

gwaed, gan gyfeirio at deulu a drawsffurfiwyd – meibion a merched Duw. Bu'n herio'n agored arferion anghyfiawn y cyfnod yr oedd yn byw ynddo: er enghraifft, yr ymgais i labyddio'r fenyw, ond nid y dyn, a ddaliwyd yn y weithred o odinebu; cau benyw oedd yn aflan oherwydd gwaedlif allan o'r gymdeithas. Byddai'n troi disgwyliadau wyneb i waered, ac weithiau'n dangos ei berthynas â phobl trwy gyffwrdd â nhw.⁸³

2.2.2 Yn ei hanfod mae lesu'n dangos i ni mai ffordd Duw o greu perthynas yw cariad hunanroddol, trugaredd, gras a maddeuant. Mae'n arwain at ymrwymiad i geisio ffyniant eraill; i newynu a sychedu am gyfiawnder yn y byd; ac i chwilio am ddyfodiad teyrnas Duw. Mae'n ymgorffori'r gwerthoedd a gawn nid yn unig yn yr Efyngylau, ond hefyd:

- sy'n sylfaen ar gyfer gorchmynion Cyfraith y Beibl;⁸⁴
- y mae proffwydi'r Hen Destament yn cyfeirio atynt;
- sy'n cael eu hymgorffori i ddeinameg cariad yn 1 Corinthiaid 13; ac
- sy'n cael eu crisialu yn ffrwythau'r Ysbryd Glân a ddisgrifir yn Galatiaid 5:22-23.

Ein henw ar yr arwyddion hyn o gariad lesu yw 'Crist-debyg', 'sanctaidd', neu'n syml perthnasoedd 'da' i fod yn gryno.

2.2.3 Fel dilynwy'r i lesu, ein nod yw dwyn arwyddion y cariad a welwn yn lesu ei hun. Mae Paul yn delio â hyn mewn modd sy'n ein cyffwrdd yn Philipiaid 2. I aralleirio adnod 5, 'Yn eich perthynas â'ch gilydd, mynnwch yr un meddylfryd â Christ lesu'.⁸⁵ Mae'r ffordd sylfaenol hon o fod ac ymddwyn, o efelychu Crist a bod yn ddisgybl, yn gweithio ym mhob agwedd ar fywyd dynol a phob math ar berthynas ddynol. Mae'n arwain at bwyslais y Methodistaidd ar fyw a thyfu mewn sancteiddrwydd.⁸⁶ Mae'n llifo o'n hymateb i gariad Duw yn lesu Grist, a sut mae'r cariad hwnnw'n ein trawsffurfio.

2.2.4 Fel Grŵp Tasg cawsom ei fod yn ddefnyddiol nodi, er ein bod yn fodau dynol a grewyd ar ddelw Duw, bod galwad arnom i dyfu'n Grist-debyg. Mae Eglwys Crist yn gymuned o bobl sydd wedi ymroi i wneud hynny, ac sydd, ymhlith pethau eraill, yn cael eu ffurfio gan Ysbryd Duw i barchu pobl eraill. Mynegir y gwirionedd hwn yn Natganiad ffurfiol 1999 ar natur yr Eglwys Gristnogol ym mhrofiad ac ymarfer y Methodistaidd, *Called to Love and Praise*. Rydym yn gweddïo hynny yn ein gweddïau, ac yn ei ganu yn ein hemynau, er

83 *Called to Love and Praise* 1999, para 2.1.2

84 Mae'r 'Gyfraith' yma yn cyfeirio at yr hyn a elwir fel arall yn 'Torah', hanes trefn greadigol Duw yn y bydysawd a geir yn yr Hen Destament.

85 Philipiaid 2:5

86 Un o'r testunau ysbrydol clasurol y bu Wesley yn ei olygu a'i gyhoeddi ar gyfer y Methodistaidd oedd *The Imitation of Christ* gan Thomas à Kempis. I gael disgrifiadau pellach o'r traddodiadau sancteiddrwydd yn ysbrydolrwydd ac ymarfer y Methodistaidd, gweler *The Call to Holiness: From Glory to Glory - Report of the Joint International Commission for Dialogue between the World Methodist Council and the Roman Catholic Church* (2016)

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

enghraifft "Let me be as Christ to you".⁸⁷ Dyna pwy rydym ni'n dweud yr ydym.

- 2.2.5 Wrth i ras Duw drawsffurfio ein calonnau a thrwy arweiniad yr Ysbryd rydym yn parhau i ddyfnhau'n dealltwriaeth o ystyr y perthnasoedd Crist-debyg sanctaidd hyn. Rydym yn cydnabod nad oes modd i gysyniadau modern fel 'cydraddoldeb' a 'pherthynas sy'n llesol o'r ddeutu' a'r ffyrdd o'u mynegi bellach yn yr Eglwys Fethodistaidd gael eu darllen yn syml i mewn i hanesion Iesu, a gafodd ei ymgnawdoli yn Iddew ym Mhalestina'r ganrif gyntaf. Serch hynny, rydym ni'n credu bod y rhain a'r nodweddion eraill a enwir isod yn ffrwyth proses hir o fyfyrto ar yr Ysgrythurau (gan gynnwys yr hanesion hynny) a phrofiad Cristnogion. Bellach fe welwn fod benywod a dynion yn bersonau cyfartal; bod pobl sy'n abl ar lefelau gwahanol yn bersonau cyfartal; bod pobl â lliw croen a chefnidir ethnig gwahanol yn bersonau cyfartal.⁸⁸ Wrth i ni ddysgu sut mae parchu pawb fel personau cyfartal ac ymddwyn mewn modd Cristnogol ddilys, mae'r Grŵp Tasg yn **argymhell bod y Gynhadledd yn cadarnhau'r ddealltwriaeth grynodol hon o egwyddorion neu nodweddion perthnasoedd da:**

- Dylai pob perthynas arwyddocaol gael ei seilio ar gariad hunanroddol, ymrwymiad, ffyddlondeb, teyrngarwch, gonestrwydd, parch o'r ddeutu, cydraddoldeb ac awydd i'r bobl dan sylw ffynnu fel ei gilydd.
- Trwy fod yn hunanroddol, yn hytrach na hunangeisiol, y mae'r hunan yn ffynnu ac yn dechrau profi bywyd yn ei holl gyflawnder (er bod angen cydnabod bod pwyslais hanesyddol yr Eglwys yn gyffredinol ar hunanberth yn aml wedi cael ei gamddeall a'i gamddefnyddio [ee gan bartneriaid sy'n cam-drin] mewn modd sy'n dinistrio llesiant y rhai sy'n cael eu cam-drin [benywod yn aml]).

- 2.2.6 O ystyried grym y teimladau sy'n cael eu hennyn mewn perthnasoedd rhywiol a'r potensial i wneud daioni neu achosi niwed, mae'n arbennig o bwysig bod y nodweddion hyn yn cael eu meithrin a'u hannog. Maent yr un mor berthnasol i berthnasoedd rhywiol ag i fathau eraill o berthynas. Gwaetha'r modd, nid ydym fel Methodistaidd bob amser wedi bod yn dda am drafod hyn a chefnogi'n gilydd ynddo. Rydym wedi preifateiddio materion rhyw (gan ddatgan eu bod yn 'bersonol') a'u hystyried fel rhywbeth sy'n digwydd yn y 'byd' y tu allan i drosolwg yr Eglwys. Mae hyn wedi bodoli ochr yn ochr, ac wedi creu tyndra, â'r awydd i reoli a rheoleiddio ymddygiad rhywiol pobl a nodwyd yn gynharach. Mae'n drawiadol, pan fydd materion agosrwydd rhywiol yn cael eu trafod yn ein Heglwys, bod hynny'n digwydd yn llawer amlach yng nghyd-destun perthnasoedd rhwng pobl o'r un rhyw na rhai gwahanrhywiol (yn arbennig wrth gymhwyso testunau a dealltwriaeth o'r Beibl). Hoffai'r Grŵp

87 *Singing the Faith*, rhif 611

88 Ac eto, er bod Methodistaeth wedi dod beth o'r ffordd at drin pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, traws, queer, sy'n cwestiynu, neu sydd â rhywioldeb arall (LHDTCRh+) fel personau cyfartal, nid yw eto wedi cytuno y gall cyplau o'r un rhyw briodi yn yr Eglwys.

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

Tasg awgrymu y byddai newid i ganolbwyntio ar nodweddion perthnasoedd da, a pherthnasoedd rhywiol da yn arbennig, yn helpu i alluogi pawb ohonom yn yr Eglwys Fethodistaidd i ffynnu. Byddai hefyd yn rhywbeth y gallwn ei gynnig yn ostyngedig i eraill y tu allan i’r Eglwys.

2.3 Patrymau ac arferion perthnasoedd da

- 2.3.1 Mae rhai arferion a phatrymau ymddygiad sy’n cefnogi ac yn galluogi dibenion a phriodweddau perthnasoedd da. O ran ein perthynas â Duw, fe welwn hynny, er enghraifft, yn nhrefn y cread, lle mae Duw yn neilltuo’r seithfed diwrnod fel dydd sanctaidd o orffwys.⁸⁹ Mae’r pedwerydd gorchymyn yn dangos yn eglur sut mae cymhwyso’r arfer hwn i fywyd dynol.⁹⁰ Yn yr Efengylau gwelwn Iesu yn dilyn patrwm bywyd crefyddol, yn mynd i’r synagog, a hefyd yn ymneilltuo i gael gweddio’n breifaf.
- 2.3.2 Fel Grŵp Tasg, rydym wedi nodi mai’r brif alwad a roddir i ni yw bod yn un o ddisgyblion Crist. O hynny mae ein galwadau eilaidd yn llifo, i gyflawni mathau penodol o wasanaeth a chynnal perthnasoedd penodol. Mae pob un o’r rhain yn galw am batrymau ac arferion cefnogi da, os ydym i ffynnu ynddynt. Fel rhan o’r traddodiad Methodistaidd, mae ein perthynas â Duw a’n rôl fel disgyblion yn cael eu cefnogi wrth i ni ddilyn ffordd ‘bwmpasol’ o fyw yng nghwmni eraill.⁹¹ Mae hyn yn cael ei fynegi trwy amrywiad ‘gyfryngau gras’, gan gynnwys: bedydd; derbyn y Cymun Sanctaidd, a mynd i’r addoliad yn rheolaidd; adnewyddu ein Cyfamod â Duw yn flynyddol; rhannu mewn cyfeillgarwch; a rhoi ein rôl fel disgyblion ar waith. Gwelwn bwyslais ar y patrymau a’r arferion sy’n cefnogi ein disgyblaeth yn cael eu datblygu yn Ffordd o Fyw y Methodistaidd, sy’n cael ei harchwilio o’r newydd ar hyn o bryd.
- 2.3.3 Pa batrymau ymddygiad ac arferion allai annog perthnasoedd da yn ein hymwneud â phobl eraill, yn arbennig ein perthnasoedd mwy ‘personol’ neu ‘deuluol’? Ceir ambell awgrym yn y Beibl. Er enghraifft, mae symudiad tuag at fonogami erbyn cyfnod y Testament Newydd, ac ymddengys mai dyna safbwynt Iesu.⁹² Ceir cyfeiriadau hefyd

89 Genesis 2:1-3

90 Ecsodus 20:8-11

91 Clywodd Cynhadledd 2018 am sut roedd awgrymiadau ar gyfer Ffordd Fethodistaidd Gyfoes o Fyw yn cael eu harchwilio yng nghyd-destun ail-lansio’r rhaglen *Our Calling*.

92 Yn maes perthnasoedd a phriodas, mae testunau beiblaidd sy’n deillio o gyfnodau cynharach yn caniatáu i ddyd gael mwy nag un wraig (heb weld hynny fel rhywbeth sy’n gwrthdaro â dyn a benyw yn dod yn ‘un cnawd’). Fodd bynnag, dim ond monogami a ganiateir mewn testunau o gyfnodau diweddarach. Tra bod testun Hebraeg Genesis 2:24 yn sôn yn syml am “ddyn” a “gwraig”, a “bydd y ddau yn un cnawd”, yng nghyfieithiad y Septuagint Groeg o’r Ysgrythurau Hebraeg, a luniwyd rhwng y drydedd a’r ail ganrif CC, ceir yr ymadrodd “a bydd y ddau yn un cnawd”, gyda’r pwyslais ar “dau” (a, gallwn ragdybio, dau yn unig). Y fersiwn hon sy’n cael ei dyfynnu gan Iesu ym Marc 10:7-8 a Mathew 19:4-6, lle caiff y pwyslais ar ‘dau’ ei ailadrodd mewn ymadrodd sy’n dod wedi’r dyfyniad. Y pwyslais hwn ar fonogami sy’n arwain at y gosodiadau yn 1 Timotheus 3:2 a 12, a Titus 1:6 mai un wraig yn unig ddylai fod gan esgobion, blaenoriaid a diaconiaid (a gallwn ragdybio, felly, dynion yn gyffredinol).

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

at arferion dyweddïo a seremonïau priodas, ac roedd dull ysgaru ar waith.⁹³ Y tu hwnt i hynny, ni ddywedir llawer yn uniongyrchol yn y Testament Newydd am sut roedd perthnasoedd rhywiol i gael eu cynnal. Yng nghyfnod y Testament Newydd, arweiniodd y gred bod Ail ddyfodiad Crist a diwedd y byd ar y gorwel at gynnal modelau llddwig traddodiadol y teulu gan y Cristnogion cynnar.⁹⁴

- 2.3.4 Rhoddwyd cyngor ar batrymau ac arferion perthnasoedd personol ar hyd hanes Cristnogaeth. Roedd amrywiaeth o resymau dros gynnig cyngor o'r fath. Yn aml, roedd bwriadau da iddo, yng ngoleuni'r amgylchiadau a'r ddealltwriaeth ar y pryd. Wrth edrych yn ôl, fodd bynnag, mae'n deg dadlau ei fod, p'un a oedd hynny'n friadol neu beidio, wedi arwain at reoli neu gymedroli gweithgarwch rhywiol. Un canllaw pwysig i'r bywyd Cristnogol o 1650 oedd *Holy Living* gan Glerigwr Anglicanaidd, Jeremy Taylor. Bu'n ddylanwadol am ryw ddwy ganrif, ac roedd gan John Wesley feddwl uchel ohono (fe'i crynhôdd a'i gyhoeddi yng Nghyfrwl 9 o *A Christian Library*) ac aeth trwy 30 argraffiad. Ynddo, mae Taylor yn cymeradwyo hoffter priodasol, ond yn dweud y dylai'r pâr priod fod yn "ymataliol ac yn gymedrol wrth ddefnyddio'u pleserau cyfreithlon".⁹⁵ Gallai rhai dybio bod yr ystyriaeth ddiweddar gan yr Eglwys Fethodistaidd o rywioldeb fel rhodd a man ar gyfer llawenydd a phleser yn bell iawn o'r testun dylanwadol hwn.
- 2.3.5 Serch hynny, y tu hwnt i'r 'Gwasanaeth Priodas' a'r 'Gwasanaeth ar gyfer bendithio priodas a weinyddwyd yn flaenorol' yn ein Llyfrau Addoliad, ychydig iawn o adnoddau sydd gennym a luniwyd yn benodol i hybu patrymau perthnasoedd da i gyplau, rhieni neu deuluoedd. Soniodd Datganiad 1992 am bwysigrwydd sefydlogrwydd ac ymrwymiad er mwyn meithrin plant, ond ychydig a gynigiwyd gennym fel Eglwys i hybu sefydlogrwydd ac ymrwymiad o'r fath. Fel Grŵp Tasg rydym ni'n argymhell bod yr Eglwys Fethodistaidd yn edrych eto ar gynhyrchu adnoddau i ddatblygu perthnasoedd da mewn amrywiol ffurfiau, ac rydym yn gwneud awgrymiadau penodol ynghylch hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn (Adran 5.4.3).⁹⁶

2.4 Perthnasoedd rhywiol da

- 2.4.1 Fel Grŵp Tasg trown yn awr i gynnig myfyrdodau ychwanegol ar berthnasoedd rhywiol da yn benodol, gan dynnu ar beth dealltwriaeth o'r Ysgrythur a rhai datblygiadau diwinyddol cyfoes. Dwy nodwedd y mae'r Testament yn eu haddo i ddisgybl Crist yw rhodd **doethineb** (ee Effesiaid 1:16-19) ac un o ffrwythau'r Ysbryd, **hunanreolaeth**

93 Mathew 19:3-12

94 Ar gyfer codau aelwyd y Testament Newydd, gweler, er enghraifft: [Effesiaid 5:22-6:9](#), [Colosiaid 3:18-4:1](#), [Titus 2:1-10](#), [1 Pedr 2:13-3:7](#) a [1 Corinthiaid 7:24](#) ac ymlaen.

95 Jeremy Taylor, *The Rule and Exercises of Holy Living* 1838, tt. 79-80

96 Awgrymodd adroddiad 2002 y dylid trefnu deunyddiau i baratoi ar gyfer priodas. Rydym ni'n awgrymu bod yr Eglwys Fethodistaidd yn gweithio'n eāwmenaidd i gynhyrchu adnoddau ar gyfer cyplau a theuluoedd.

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

(ee Galatiaid 5:22-23). Cafodd y Grŵp Tasg fod y rhain o ddefnydd yng nghyswllt perthnasoedd rhywiol. Mae'r gyntaf yn ymwneud â gwybod beth yw beth, a nid dim ond mater o ddweud 'na' sydd dan sylw yn yr ail. Gall y ddwy ein helpu i ganfod patrymau ac arferion a fydd yn galluogi ein rhywioldeb i ffynnu er gogoniant i Dduw.

- 2.4.2 Yn y cyswllt hwn, mae'r Grŵp Tasg wedi myfyrio ar ddau derm allweddol, 'diweirdeb' a 'ffyddlondeb'. Mae cysyniad **diweirdeb** wedi'i wreiddio mewn purdeb, y byddem ni'n ei ddeall yn nhermau deinameg sancteiddrwydd. Yn union fel mae cariad Duw yn golygu mai bod yn gariadus yw natur Duw, a bod cyfiawnder Duw yn golygu mai gweithio i sicrhau bod pethau'n 'gyfiawn' yw natur Duw, felly hefyd mae sancteiddrwydd Duw yn golygu mai ceisio gwneud pobl yn sanctaidd yw natur Duw. Mae'r sancteiddrwydd hwnnw'n ddeinamig.⁹⁷ Wrth i Dduw wneud pobl yn sanctaidd, caiff eu bywydau eu hagar i'w trawsffurfio, fel eu bod yn byw mewn ffyrdd sanctaidd. Gall beth mae hynny'n ei olygu'n ymarferol amrywio yn ôl amgylchiadau. Ar adegau, gall fod yn briodol iddo gynnwys ymatal yn rhywiol, yn achos y rhai sy'n briod a'r rhai nad ydynt. Ar bob adeg, mae'n golygu bod un person yn agored i berson arall, ac yn rhoi eu buddiannau nhw o flaen ei r(h)ai ei hun. I Gristion, mae hefyd yn golygu bod yn agored i Dduw, a rhoi buddiannau Duw cyn eich rhai eich hun.
- 2.4.3 Diweirdeb yn yr ystyr hon yw'r gwrthwyneb i ryw achlysurol sy'n boddhau'r hunan mewn modd hunanol, a allai ddiraddio neu leihau'r rhai sy'n rhan ohono. Yn hytrach, mae'n fodd i bennu ffiniau priodol ar gyfer nwyd. Mae ffyrdd sanctaidd o garu yn cynnwys darganfod ystyr caru hunanroddol. Ffordd ddiwair o garu yw un lle mae un person bob amser yn bwriadu rhoi pleser i'r llall uwchlaw popeth arall; ac yn derbyn bwriad tebyg yn ddiolchgar yn gyfnewid.⁹⁸
- 2.4.4 Mae'r cysyniad o **ffyddlondeb** yn llifo o ddealltwriaeth y Testament Newydd o ffydd. Y meddylfryd gwaelodol yw ein bod ni, yn union fel yr ydym yn caru oherwydd bod Duw wedi'n caru ni yn gyntaf (1 Ioan 4:19), hefyd yn meddu ar ffydd oherwydd bod gan Dduw ffydd ynom ni yn gyntaf. Nid yw ffyddlondeb, felly, yn golygu credu neu ymddiried bod rhyw ffaith benodol yn wir. Mae'n llawer nes at fater o gredu yn rhywun ac ymddiried eich hun iddynt, fel eu bod hwythau'n gallu credu ynoch chi ac ymddiried eu hunain i chi. Mae bod yn ffyddlon yn yr ystyr hon, felly, yn ffordd i bobl

97 "Sylwer: Mae 'Sanctaidd', o'i gymhwyso i bobl a phethau, yn golygu'n gyntaf oll 'wedi'i neilltuo at ddefnydd Duw yn unig', Yng nghyswllt Duw, mae'n cyfeirio at yr hyn sy'n gwneud (sc. God) Duw yn gwbl wahanol i fodau dynol, yn ennyn parchedig ofn, yn ogoneddus, ac eto heb fod ar wahân yn gymaint o ran pellter ag o ran natur." Daw'r dyfyniad hwn o *What we believe: a Catechism for the use of the people called Methodists*, 1986/2000.

98 Mae'r Grŵp Tasg wedi cael ei gynorthwyo yn y meddyliau hyn gan Fyfyrdodau Richard Rohr <https://cac.org/purity-and-passion-2017-11-13/>. lle mae Rohr yn ei dro yn tynnu ar waith Cynthia Bourgeault, *The Meaning of Mary Magdalene: Discovering the Woman at the Heart of Christianity* (Shambhala: 2010), 121.

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

gadarnhau ei gilydd a galluogi ei gilydd i gymryd y risg o feithrin perthynas agosach â'i gilydd. Wrth wneud hynny, maen nhw'n dechrau sylweddoli y gallai fod angen iddyn nhw neilltuo eu perthynas, os yw ymdeimlad mor ddwfn o ymddiriedaeth o'r ddeutu i ffynnu mewn modd agos a rhywiol.

- 2.4.5 Gall mynegiant rhywiol agos ddyfnhau'r cwlwm rhwng cyplau, ac ar yr un pryd olygu eu bod yn fwy agored i niwed, ac i achosi niwed, yn enwedig os bydd diffyg ymrwymiad. Fel y trafodwyd yn adran 1, mae mynegiant rhywiol yn agwedd werthfawr a grymus ar ein dynoliaeth, a dylem ei drin â gofal mawr. Po fwyaf o agosrwydd sydd mewn perthynas (rywiol neu fel arall), mwyaf agored i niwed y bydd y bobl dan sylw; a mwyaf fydd eu hangen am ddeinameg cyson o ffyddlondeb cariadus wedi'i neilltuo.
- 2.4.6 Mae'r ddealltwriaeth hon yn ein helpu i nodi patrymau ymddygiad sy'n galluogi perthnasoedd da wrth i bobl feithrin agosrwydd gyda'i gilydd. Maen nhw'n cynnwys arferion megis monogami, ymrwymo amser ac adnoddau i'r berthynas, a'r sylw mae'r naill berson yn ei roi i'r llall. Os oes gan gwpl berthynas rywiol neilltuedig, mae eu cariad yn mynegi ei hun tuag at eraill trwy eu cynnwys a'u meithrin ar ffurf lletygarwch. Mae doethineb a hunanreolaeth yn helpu i reoli'r mynegiant o rywioldeb yn y berthynas rhwng cyplau, a hefyd wrth reoli perthnasoedd priodol oddi mewn i gymunedau.⁹⁹
- 2.4.7 I gyfuno a chrynhoi rhai o'r pwyntiau rydym ni wedi bod yn eu gwneud, mae rhywioldeb ac agosrwydd rhywiol yn rhan o drefn rasol Duw, ac yn bethau eraill y gall ein natur bechadurus effeithio arnynt. Yr hyn sy'n bwysig yw a ydym ni'n eu defnyddio er mwyn Duw, ac at ddibenion Duw, neu i'n dibenion hunanol ein hunain. Mae hynny'n symud y pwyslais, o safbwynt Cristnogol, o ymwneud dim ond â gweithredoedd rhywiol penodol neu ffocws ar ganlyniad rhyw wrth atgenghedlu, i gydnabyddiaeth ehangach fod agosrwydd rhywiol yn elfen bwysig o berthynas cyplau â'i gilydd; bod y ffyrdd o fynegi'r agosrwydd hwnnw'n gallu amrywio'n fawr (ac y gallant gynnwys cyfathrach rywiol neu beidio); ac mai'r defnydd gorau o fynegiant rhywiol yw ei gyfeirio at wella'r berthynas rhwng cwpl ymroddedig, ac felly sicrhau perthynas dda rhyngddynt a'i gilydd. Yna gall y cwpl, yn eu tro, wneud cyfraniad cryfach i'r gymuned a gofal am y greadigaeth, gan gyflawni dibenion da Duw ar gyfer perthnasoedd.
- 2.4.8 Yn wyneb hyn, mae'r Grŵp Tasg o'r farn na ddylid gweld gweithgarwch rhywiol dim ond fel rhyngweithio â rhywun i gyflawni diben penodol, i brofi pleser penodol, neu i ddiwallu angen penodol. Yn hytrach, mae'n rhywbeth sy'n cynnwys llawer o ymwneud â'i gilydd mewn ffyrdd eraill rhwng y personau dan sylw, ac mae'n cael ei gyfoethogi gan y weledigaeth mae Duw wedi'i rhannu ar gyfer perthnasoedd da.

99 Un enghraifft o'r olaf yw datblygu gweithdrefnau diogelu a pholisïau cadarn ynghylch aflonyddu yn yr Eglwys Fethodistaidd, er mwyn osgoi camdriniaeth.

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

2.5 Perthnasoedd rhywiol cyfoes

- 2.5.1 Mae agweddau at agosrwydd rhywiol wedi newid yn gyson gyda threigl y blynyddoedd, a bydd hynny’n parhau. Er enghraifft, mae sôn cynyddol am ‘gyfeillgarwch’ neu ‘berthynas’ arall gyda neu heb ‘fanteision’, lle mae’r ‘manteision’ hynny’n cyfeirio at yr hyn fuasai ar un adeg yn cael ei alw’n ‘ffafrau rhywiol’. Bu derbyniad cynyddol hefyd mai mater personol, preifat yw dewisiadau pobl a’r pethau maen nhw’n eu gwneud, oni bai eu bod yn cynnwys aflonyddu, gormes, niwed neu gamdriniaeth. O ganlyniad mae cymdeithas yn gyffredinol wedi dod yn fwy agored i bobl yn cymryd rhan mewn agosrwydd rhywiol o bob math.
- 2.5.2 Fel Grŵp Tasg rydym wedi bod yn agored ac yn onest wrth gydnabod realiti profiadau llawer o bobl. Carem annog yr Eglwys Fethodistaidd hithau i gydnabod gwirioneddau bywyd o ran perthnasoedd ymarferol heddiw. Gallai methiant i wneud hynny, yn y pen draw, gael ei ystyried yn rhagrith, os bydd yn syml yn anwybyddu sut mae ei haelodau a’r rhai sy’n gysylltiedig â hi yn byw eu bywydau mewn gwirionedd. Yn ein cenhadaeth a’n gweinidogaeth fel Eglwys, mae angen i ni fedru cynnal sgyrsiau am y materion hyn mewn modd deallus a bugeiliol sensitif, gan droi at adnoddau eraill pan fydd y sgwrs yn mynd y tu hwnt i’n sgiliau neu ein gallu. Mae’r meddyliau hyn ynghylch dibenion, nodweddion efengyl a phatrymau perthnasoedd da yn ein galluogi i gynnig mewnwelediad ar berthynas pobl â’i gilydd, beth bynnag yw rhywioldeb cwpl neu eu safle ar daith eu perthynas, ac at hynny y trown nesaf.

2.6 Cyd-fyw

- 2.6.1 Disgrifir teuluoedd lle mae cwpl yn cyd-fyw fel “y math o deulu sy’n tyfu gyflymaf yn y Deyrnas Unedig”.¹⁰⁰ Mae cyd-fyw weithiau wedi cael ei weld fel ‘mater i bobl ifanc’; ac yn wir, mae cynrychiolwyr ieuenctid o’r cynullïadau 3Generate wedi gofyn droeon i’r Gynhadledd roi arweiniad ar y mater hwn.¹⁰¹ Ac eto rydym ni hefyd yn gwybod bod llawer o bobl hŷn yn ein heglwysi yn cyd-fyw fel cwpl mewn perthynas, ac yn amharod i briodi am amrywiol resymau, gan gynnwys cymhlethdodau o ran hawliau pensiwn, materion etifeddiaeth a materion eraill.¹⁰² Ar yr un pryd, yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae nifer y priodasau a gynhaliwyd mewn eglwysi Methodistaidd wedi gostwng gryn dipyn, fel y mae nifer yr achosion o fendithio priodasau a weinyddwyd

100 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/families/bulletins/familiesandhouseholds/2017#number-of-families-in-the-uk-continues-to-grow-with-cohabiting-couple-families-growing-the-fastest (ymgyngorwyd â hi ar 25 Mawrth 2019)

101 Ceir crynodeb manwl o’r ceisiadau yn fersiwn gwefan yr Eglwys Fethodistaidd o adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd i Gynhadledd 2016, Adran 3.3.5 ac Atodiad 6. methodist.org.uk/downloads/conf-2016-29-Marriage-and-Relationships-Task-Group.pdf

102 Trafodir y rhesymau am gyd-fyw yn adroddiad 2016 3.1.1 (b) iv.

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

eisoes. Yn 2013, y ffigurau oedd 2751 a 350 yn eu tro, a 1879 a 269 yn 2017.¹⁰³

- 2.6.2 Mae pobl yn cyd-fyw am amrywiaeth o resymau. Oherwydd ein bod wedi cydnabod a phwysleisio'n gynyddol bod pawb wedi'u creu ar ddelw Duw, mae angen i ni fynegi'n ymarferol egwyddor ddiwinyddol parchu gwahanrwydd (unigrywiaeth) pob bywyd dynol. Nid yw stigmatiddio plant y mae eu rhieni heb briodi yn dderbyniol bellach yn ein Heglwys, os bu erioed. Ar yr un pryd, mae'n dilyn ymlaen o'n diwinyddiaeth ynghylch perthnasoedd, fel y'i disgrifiwyd uchod, sef bod y sefyllfa'n well pan fydd ymrwymiad dwfn, hirhoedlog rhwng y rhai sy'n gweithredu fel rhieni mewn 'uned deuluol' benodol, p'un ai nhw yw'r rhieni biolegol neu beidio.
- 2.6.3 Mae'r Grŵp Tasg wedi nodi bod cyd-fyw ac amrywiol fathau eraill o berthynas bersonol agos, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi ennill eu plwyf a chael eu derbyn yn gyffredinol. Dros amser, gall lefelau ymrwymiad y perthnasoedd hynny gynyddu neu leihau. Gall y rhai sy'n cyd-fyw symud trwy amrywiol raddau o rannu eu hunain â'i gilydd. Mae'r Grŵp Tasg yn barnu bod angen gwneud rhagor o waith ar ystyried sut gall yr Eglwys Fethodistaidd annog perthnasoedd da ym mhob cwpl a theulu, fel bod yr ymrwymiad yn dyfnhau; a datblygu arferion litwrgaidd i gefnogi a dathlu amrywiol gyfnodau neu ffurfiau perthynas ymroddedig.
- 2.6.4 I'r perwyl hwn, **rydym yn argymhell bod y Gynhadledd yn cadarnhau'r ddealltwriaeth gynodol ganlynol o gyd-fyw:**
- Mae'r Eglwys yn cydnabod bod cariad Duw yn bresennol yng nghariad bodau dynol sy'n cael eu denu at ei gilydd, ac sy'n ymroi o'u gwirfodd i ryw fath ar berthynas ymroddedig â'i gilydd sy'n gwella'u bywydau, boed hynny trwy gyd-fyw anffurfiol neu ymrwymiad mwy ffurfiol a wneir yn gyhoeddus.
 - Fel Eglwys rydym am ddathlu bod cariad Duw yn bresennol o dan yr amgylchiadau hynny, hyd yn oed os nad yw'r bobl dan sylw yn ymateb i'r gras hwnnw na hyd yn oed yn ymwybodol ohono.
 - Mae galwad bwysig gan yr Eglwys, felly, i dynnu sylw at bresenoldeb cariad Duw mewn perthnasoedd o'r fath, ac i annog pobl i ymateb i hynny trwy adnewyddu a dyfnhau eu hymrwymiad (ym mha fodd bynnag).

2.7 Partneriaethau Sifil

- 2.7.1 Mae'r Wladwriaeth eisoes wedi symud i gynnig ffurfiau heblaw priodas o gadarnhau a chyfreithloni perthnasoedd ymroddedig. Yn 2004, rhoddodd Deddf Partneriaeth Sifil ganiatâd i gyplau o'r un rhyw yn y Deyrnas Unedig ymrwymo i bartneriaeth sifil. Yn 2006, rhoddodd y Gynhadledd ganiatâd i bob pwrpas i'w haelodau a'i gweinidogion ymrwymo i bartneriaethau sifil un rhyw (ac yna, yn 2014, i ymrwymo i briodasau sifil

103 Yn 2017, roedd y Cyfundeb yn cynnwys 4355 o Eglwysi Lleol (nad yw pob un ohonynt wedi'u hawdurdodi i gynnal gwasanaethau priodas); ac roedd hefyd 1517 o weinidogion wrth eu gwaith.

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

un rhyw). Mewn geiriau eraill, nid oedd ymrwymo i bartneriaeth o’r fath i gael ei weld fel rhywbeth oedd yn golygu bod pobl yn torri Penderfyniadau Cynhadledd 1993 ar Rywioldeb Dynol.

2.7.2 Datblygiad hanfodol bwysig yn ddiweddar oedd y cyhoeddiad yn 2018 bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn bwriadu cyflwyno partneriaethau sifil ar gyfer cyplau gwahanrywiol. Mae hynny’n golygu y bydd opsiynau yn y dyfodol, o dan gyfraith y Deyrnas Unedig, i gyplau o’r un rhyw a rhai gwahanrywiol ymrwymo i bartneriaeth sifil neu briodas. Wrth fyfyrio ar y mater hwn, mae’r Grŵp Tasg yn annog y Gynhadledd i gadarnhau yn y man y rhai sy’n ymrwymo i bartneriaethau sifil gwahanrywiol, yn union fel y mae wedi cadarnhau’r rhai sy’n ymrwymo i bartneriaethau sifil un rhyw. Lle bo hynny’n briodol, byddem wedyn yn croesawu hynny petai’r berthynas sydd wedi arwain cwpl i ymrwymo i bartneriaeth yn cryfhau ymhellach ac yn peri iddynt geisio priodas fel y mae’r Eglwys yn ei deall.¹⁰⁴

2.7.3 Wedi dweud hynny, os yw cyplau’n agored ac yn barod i dderbyn y posibilrwydd o ganfod cariad Duw yn yr hyn sydd wedi peri iddynt ffurfio’u partneriaeth, a lle mae angen bugelliol gwirioneddol yn bodoli i beidio â chymryd y cam syml o gynig cyfle i’r cwpl briodi yn yr eglwys, rydym ni’n credu y byddai’n briodol i’r Eglwys roi diolch am bartneriaethau o’r fath a’u bendithio ar y safle. Byddai hynny’n galw am ddatblygu a chynnig ffurfiau priodol ar weddi a threfn gwasanaeth.

2.8 LHDTCR⁺

2.8.1 Fel Grŵp Tasg, mewn cyfres o drafodaethau yn ystod y Gynhadledd, rydym wedi rhannu llawer o hanesion a phrofiadau pobl sydd â rhywioldeb a rhywedd lesbiaidd, hoyw, deurywiol, traws, queer neu ryngryw, ynghylch peidio â chael eu trin yn gyfartal yn ein heglwysi. Roedd y profiadau hyn yn cynnwys y canlynol;

- pobl LHDTCR⁺ ddim yn cael eu trin fel pobl Duw;
- ofn “dod allan” a chadw rhywioldeb yn guddiedig;
- camwahaniaethu a arweiniodd at hunanladdiad;
- ymdrechion i newid rhywioldeb person a arweiniodd at salwch;
- cwrdd â Duw yn rymus ar adegau pan oedden nhw’n cael eu herlid am eu rhywioldeb;
- canfod Duw trwy berthynas ymroddedig, ffyddlon a chariadus gyda pherson o’r un rhyw;
- dyfalbarhau’n ffyddlon gyda’r Eglwys Fethodistaidd mewn gobaiith.

Mae’r Grŵp Tasg o’r farn bod angen parchu ac anrhydeddu ffyddlondeb y rhai yn ein plith sy’n LHDTCR⁺. Ers 1979, mae’r Eglwys Fethodistaidd wedi bod yn ceisio

104 Gweler 2.9 isod.

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

mynd ati fwyfwy i ddeall amrywiaeth hunaniaeth rhywiol dynol, a chefnogi pawb i gael eu trin â chariad a pharch. Mae'r mewnwleidiad ynghylch dibenion, nodweddion yr efengyl ac arferion perthnasoedd da a nodwyd gennym uchod yr un mor berthnasol i bobl LHDCR+ ag i bawb arall.

- 2.8.2 Mae'r Grŵp Tasg yn argymhell bod eglwysi'r Methodistiaid yn defnyddio'r pecyn offer EDI, yn arbennig modiwlau 7.1 *Cyfeiriadedd rhywiol* a 7.2 *Croesawu Cyplau o'r Un Rhyw a'u teuluoedd*.

2.9 Symud tuag at briodas

Mae'r Grŵp Tasg yn credu bod ein diwinyddiaeth yn ein harwain i fod ag awydd gwerthfawrogi a chefnogi pob perthynas ymroddedig sy'n gariadus a ffyddlon (oddi mewn i gyfraith gwlad), a chwilio ym mhob un ohonynt am yr arwyddion a welwn yng nghariad Iesu. Credwn fod y Beibl a'r traddodiad Cristnogol, fel yr archwiliwyd uchod, yn darparu adnoddau cyfoethog ar gyfer dealltwriaeth, a ffyniant, perthnasoedd rhywiol agos yn ein cyd-destun cyfoes. Yn arbennig, mae myfyrio yn y modd hwn yn cynnig posibilrwydd a allai arwain at y ffurf arbennig o ddwfn a dwys ar berthynas yr ydym ni'n ei alw'n briodas.

3. Arweiniad Duw ar gyfer priodas: datblygu ein gweledigaeth

Yn yr adran hon, nodwn gymeriad unigryw'r ymrwymiad sy'n gyfystyr â dealltwriaeth yr Eglwys Fethodistaidd o briodas. Rydym yn ystyried sut mae cysyniadau pwysig cyfamod a gras yn arbennig o berthnasol iddi. Amlygw'n sut gall perthnasoedd priodasol gyfoethogi pobl, gan gydnabod ar yr un pryd y gall realiti bywyd fod yn wahanol weithiau i'r weledigaeth mae Duw yn ei chynnig i ni. Rydym yn olrhain y newidiadau yn nysgeidiaeth yr Eglwys Fethodistaidd ar briodas, gan roi mwy o bwyslais ar gyfeillach rhwng partneriaid cyfartal a llai ar greu plant. Fel Grŵp Tasg, rydym yn cynnig meddyliau am ddiwinyddiaeth priodas sy'n seiliedig ar y modd y darllenwn y Beibl, diwinyddiaeth Fethodistaidd (fel y'i crisialir yn litwrgi gwasanaethau priodas), a phrofiadau bywyd pobl.

3.1 Datblygiad ein diwinyddiaeth ynghylch priodas

- 3.1.1 Yng nghyd-destun dealltwriaeth ac ymarfer Cristnogol, mae priodas yn ffurf unigryw, penodol ar berthynas, a all fod yn gyfrwng i ddau berson profi, archwilio a mynegi cariad grasol Duw. Ymrwymiad cwpl i'w gilydd, oddi mewn i drefn creadigaeth Duw fel y'i disgrifir yn naratif Genesis, yw'r hyn yr ydym yn ddiweddarach wedi dod i'w alw'n 'briodas'. Mae hyn yn chwarae rhan bwysig wrth alluogi'r partneriaid, y gymdeithas y maent yn rhan ohoni, a'r hyl ddynol i ffynnu'n unol â dibenion Duw. Dyma beth sy'n cael ei olygu weithiau gan y rhai sy'n sôn am briodas fel un o 'ordinhadau'r creadigaeth', a gellir gweld mai dyma'r hyn y mae Iesu yn ei gymeradwyo yn Marc

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

10:6-8 a Mathew 19:4-6.¹⁰⁵ Mewn rhannau eraill o'r Hen Destament, defnyddir priodas hefyd yn drosiad am y berthynas gyfamodol rhwng Duw a'i bobl.¹⁰⁶ Mae natur y cyfamad hwnnw wedyn yn dylanwadu ar ddealltwriaeth yr Eglwys o briodas. Yn y Testament Newydd, defnyddir priodas yn drosiant am y berthynas rhwng Crist a'r Eglwys, sydd ynddi'i hun yn cael ei gweld fel profiad o ras achubol.¹⁰⁷

- 3.1.2 Oddi mewn i'r Eglwys Fethodistaidd, mae priodas wedi cael ei thrin fel perthynas bwysig iawn, weithiau'n cael ei galw'n 'alwedigaeth', neu hyd yn oed yn "rhodd gan Dduw" (fel roedd adroddiad 1998 yn ei disgrifio).¹⁰⁸ Mae'r Grŵp Tasg wedi nodi bod yr ymadrodd "mae priodas yn rhodd gan Dduw" yn un pwysfawr i rai pobl, ond cododd adroddiad Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2016 bryderon bugeiliol ynghylch defnyddio'r ymadrodd hwn. Nodwyd, er enghraifft, fod rhai pobl wedi cwestiynu beth mae'r ieithwedd hon yn ei ddweud wrth bobl sengl o ran y gwerth a roddir arnynt.¹⁰⁹
- 3.1.3 Er bod yr Ysgrythur yn defnyddio iaith priodas mewn ffyrdd penodol sy'n cyfeirio at ei phwysigrwydd, nid oes cynsail ysgrythurol uniongyrchol dros siarad am briodas fel rhodd gan Dduw. Yn gymharol ddiweddar y cyflwynwyd yr ieithwedd hon. Nid yw Datganiad 1992, er ei bod yn amlwg yn sôn am freintiau priodas fel rhywbeth 'da' sy'n dwyn bendith arbennig oddi wrth Dduw, yn defnyddio'r ymadrodd hwn.¹¹⁰ Mae Llyfr Gwasanaeth y Methodistiaid 1975 yn sôn am briodas yn cael 'ei rhoi gan Dduw'. Yna cyflwynir ieithwedd 'rhodd' yn adroddiad 1996 ar Baratoi ar gyfer Priodas Gristnogol, ac fe'i hymgorfforwyd i Reol Sefydlog O11A yn 1998. Mae Llyfr Addoliad y Methodistiaid 1999 hefyd yn sôn am ddiolch i Dduw am "rodd priodas".
- 3.1.4 Wedi ystyried y materion hyn, mae'r Grŵp Tasg presennol wedi dod i'r casgliadau canlynol.
- Mae'r ymadrodd "rhodd gan Dduw yw priodas" yn drosiad sy'n mynegi rhywbeth o'r parch y gellir ei roi i briodas, a bwriadau Duw trwy briodas i roi rhywbeth da i'r ddynoliaeth. Mae'r ieithwedd ddarluniadol hon yn atgofus, ac yn cydweddu'n dda â gwasanaeth priodas.
 - Mae diolch i Dduw am rodd priodas yn cyd-fynd â'r ddiwinyddiaeth sy'n cael ei datblygu yn yr adroddiad hwn. Mae diolch i Dduw am rodd perthnasoedd eraill hefyd yn bwysig, ac rydym wedi datblygu'r themâu hynny isod.

105 Gweler ymhellach baragraff 2.3.3 a throednodiadau 92, 112, 122 a 160.

106 Mae Hosea, Jeremeia, Ail Eseia ac Eseeïel i gyd yn troi at y trosiad hwn i ddisgrifio perthynas cyfamad Duw a'i bobl.

107 Effesiaid 5:25, 32; 2 Corintiaid 11:2; ac (yn ddealledig) Rhufeiniaid 7:4

108 Adroddiad Paratoad Cristnogol ar gyfer Priodas 1.14 ac SO 011A

109 Adroddiad 2016 3.1.1 (b) ii

110 Datganiad 1992 paragraff 64

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

- Mae priodas yn rhodd gan Dduw, ochr yn ochr â rhoddion eraill gan Dduw mewn perthnasoedd sy'n cael eu byw yn unol â dibenion Duw ac sy'n dwyn rhinweddau cariad Duw.
- 3.1.5 Rhoddir priodas gan Dduw yn gyfrwng gras arbennig. Roedd o gymorth i'r Grŵp Tasg weld priodas fel ffurf arwyddocaol ar berthynas agos sy'n cyfoethogi, sy'n galw am ymrwymiad penodol a disgyblaeth, ac y gellir profi gras yn llawen drwyddi. Yn 1 Corinthiaid 7:7, mae Paul yn disgrifio bod yn 'briod' ac yn 'sengl' fel 'dawn' oddi wrth Dduw. Mae'r gair dan sylw yn aml yn cael ei gyfieithu fel 'rhodd', ond nid yw hynny bob amser o gymorth. Y ffordd orau o ddeall y term yw ffyrdd o fodoli ac ymddwyn sy'n profi a hefyd yn mynegi gras Duw.
- 3.1.6 Mae hynny'n wir am bob perthynas agos, ond mae'n arbennig o wir am briodas. Mae'r holl ddibenion, y priodweddau a'r arferion y nodwyd gennym uchod eu bod yn berthnasol i bob perthynas, hefyd yn berthnasol i briodas.¹¹¹ Ond mae priodas hefyd yn fwriadol yn parhau gydol oes, yn neilltuedig, ac yn seiliedig ar fonogami.¹¹² Uwchlaw popeth, mae priodas yn berthynas lle gellir cael profiad helaeth o ras, a lle dylai hynny ddigwydd. Mae hynny'n golygu mai natur sacramentaidd sydd i briodas, er nad yw'r seremoni briodas yn sacrament yn ôl dealltwriaeth y Methodistiaid. Fel mae'r diwydd Rachel Starr yn dweud, "rhaid lleoli ei natur sacramentaidd ym mherthynas bywyd parhaus y cwpl, trwy ddathlu rhoddion y cread, rhannu tristwch ac ymdrech, a chynyddu llawenydd a chyfiawnder".¹¹³
- 3.1.7 Ar hyd ei hanes, mae'r Eglwys Fethodistaidd wedi adeiladu ar y ddealltwriaeth feiblaidd o briodas ac wedi datblygu ei dealltwriaeth ar y sail honno.¹¹⁴ Sicrhaodd John Wesley, a oedd yn offeiriad yn Eglwys Loegr, fod Methodistiaeth yn etifeddu fformleiddiadau'r Eglwys am briodas. Roedd y rheiny yn eu tro yn deillio o draddodiad o feddwl y gellir ei olrhain yn ôl at Awstin Sant, yn ysgrifennu yn 401 OC. Roedd y fformleiddiadau hynny, fel y'u nodir yn Llyfr Gweddi Gyffredin Eglwys Loegr 1662, yn disgrifio dibenion penodol ar gyfer priodas. Gellir crynhoi'r dibenion hynny fel a ganlyn:

111 Gweler Adran 2

112 Soniai ffurfiau hyn ar y gwasanaeth priodas am 'wrthod pawb arall'. Yn y Beibl, ni chafodd yr arfer o gael mwy nag un wraig, fel sydd i'w weld yn yr Hen Destament, ei ddi-ddymu, ond erbyn cyfnod y Testament Newydd, roedd un wraig yn unig wedi dod yn norm. Adlewyrchir hyn yng ngeiriau Iesu yn Mathew 19:3-12, a Marc 10:2-12.

113 Rachel Starr *Reimagining Theologies of Marriage in contexts of Domestic Violence: When Salvation is Survival* Abingdon: Routledge 2018 t. 120

114 Gweler ymhellach adroddiad 2016 3.1.2(c).

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

- (1) cenedlu plant (a phlant Cristnogol yn arbennig, a fydd yn byw i foli Duw);
- (2) ffordd o osgoi pechod (pechod rhywiol yn arbennig); ac
- (3) i fod yn gysur ac yn gymorth i’w gilydd.

3.1.8 Dros amser yn y mudiad Methodistaidd, mae pwysigrwydd cymharol y dibenion hyn wedi newid. Yn wir, mae ‘ffordd o osgoi pechod’ wedi diflannu’n llwyr. Mae hyn i’w weld yn glir yn y tabl isod, sy’n cyflwyno rhai datblygiadau hanesyddol pwysig yn litwrgiau priodas gwahanol rannau o’r Eglwys Fethodistaidd.

Tabl: Newidiadau yn y diben a fynegwyd ar gyfer priodas yn litwrgi’r Methodistaidd¹¹⁵

Dyddiad	Ffynhonnell	Manylion
1846	Y Wesleaid	dilewyd yr ail ddiben (ffordd o osgoi pechod) a chael gwared ar y cyfeiriad penodol at genhedlu yn y cyntaf (efallai oherwydd amharoddrwydd i siarad yn benodol am ryw)
1890	Y Methodistaidd Cyntefig	nodwyd mai dau ddiben priodas oedd: cymdeithas, cymorth a chysur i’w gilydd; ac “er mwyn i blant fwynhau bendithion a breintiau bywyd teuluol”
1903	Cristnogion y Beibl	nodwyd yn y ddau mai’r dibenion yw: cysur a chymorth, a galluogi teuluoedd i gael eu hyffoddi mewn ufudd-dod, cariad, doethineb a duwioldeb
1913	Yr Eglwys Fethodistaidd Unedig	
1936	Llyfr Gwasanaethau	yn dilyn Uno’r Methodistaidd ym Mhrydain Fawr yn 1932, ailadroddodd y llyfr gwasanaeth newydd y dibenion uchod yn yr un drefn, ond gan ddarparu geiriad amgen oedd yn dileu’r cyfeiriad at blant
1975	Llyfr Gwasanaeth y Methodistaidd	cyflwynwyd bod yn gwmni i’w gilydd a gofalu am ei gilydd; sylfaen ar gyfer gwir fywyd teuluol trwy gariad sy’n tyfu ac yn dyfnhau; a pharhad yr hil ddynol pan gaiff y briodas ei ‘bendithio â phlant yn rhodd’
1999	Llyfr Addoliad y Methodistaidd	nodwyd mai’r dibenion yw: “profi undod gydol oes o ran calon, corff a meddwl, cysur a chwmni, cyfoethogi ac anogaeth, tynerwch ac ymddiriedaeth”; a “galluogi pobl i dyfu at aeddfedrwydd, fel bod modd meithrin plant, cryfhau bywyd y teulu a chyfoethogi cymdeithas ddynol”

¹¹⁵ Deunydd a gymerwyd yn bennaf o: David M Chapman, *Born in Song: Methodist Worship in Britain* (Llundain, Church in the Market Place Publications, 2006), ‘The Solemnisation of Christian Marriage’, tt. 197-217.

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

- 3.1.9 Mae’n hollbwysig cydnabod, felly, hyd yn oed yn ystod hanes byr Methodistiaeth – o gymharu â hanes 2,000 mlynedd yr Eglwys Gristnogol – fod ein dealltwriaeth o ddiben priodas wedi newid yn sylweddol. Mae’n amlwg bod ein gwasanaethau priodas wedi newid dros y blynyddoedd o sefyllfa lle gwelir priodas yn bennaf fel cyfrwng ar gyfer cenhedlu plant, i fod yn ymwneud yn fwy â chyfeillach ddfod. Mae’n aneglur pam yn union mae’r newid hwn wedi digwydd. Mae’n bosibl mai amharodrwydd cynyddol Methodistiaid i drafod gweithgarwch rhywiol sy’n gyfrifol. Gallai fod yn ymateb i’r nifer cynyddol o bobl sy’n troi at y Methodistiaid i briodi er eu bod yn rhy hen i gael plant. (Fodd bynnag, mae angen nodi bod hyd yn oed cyplau hŷn sy’n priodi yn dal i fedru darparu amgylchedd meithringar a gofalgar ar gyfer plant, gan gynnwys plant o briodasau blaenorol, ac wyrion.) Gallai adlewyrchu hefyd argaeledd cynyddol dulliau effeithiol o atal cenhedlu, a sylweddoli bod swyddogaethau pwysig eraill i fynegiant rhywiol, yn ogystal â chenhedlu plant.
- 3.1.10 Gallai cefnogwyr y ddau bwyslais (‘cwmni’ a ‘chenhedlu’) honni bod cefnogaeth i’w safbwynt yn Genesis 2:22-24, ond trwy ddarllen yr adnodau hynny mewn ffyrdd gwahanol.¹¹⁶ Byddai’r rhai sy’n dehongli’r rheswm pam y dylai dyn ‘adael ei dad a’i fam a chael ei uno â’i wraig’ fel ymateb i osodiad Duw yn Genesis 2:18 nad yw’n dda i fod dynol fod ar ei ben ei hun, yn tueddu i weld priodas fel ‘cyfeillach’. Byddai’r rhai sy’n dehongli’r adnodau hynny fel ymateb i’r cyfeiriad yn Genesis 1:28 at “gael plant, fel bod mwy a mwy ohonoch chi” yn tueddu i weld cenhedlu fel diben priodas. Ond mae’n anodd gweld a yw’r cyfeiriad hwnnw’n orchymyn neu’n fendith, neu’n gyfuniad o’r ddau. Mae’n sicr yn wir nad oes ‘dyletswydd i genhedlu’ yn y Beibl, yn yr ystyr bod cenhedlu plant yn orchymyn absoliwt i bob person ar bob adeg. Cydnabyddir bod ffyrdd eraill o ymateb i Dduw ac ymgysgu i ffyrdd Duw heblaw cyflawni dyletswydd i genhedlu plant.¹¹⁷
- 3.1.11 Gan gadw hyn i gyd mewn cof, mae’r Grŵp Tasg wedi bod yn ddigon parod i gadarnhau’r ddealltwriaeth o briodas Gristnogol a fynegwyd yn Llyfr Addoliad y Methodistiaid (1999), hynny yw, nad dyletswydd yw priodas, ond perthynas lle gellir profi a mynegi gras a chariad. Mae’n berthynas lle gall dau berson fwynhau “uniad gydol oes o ran y galon, y corff a’r meddwl; cysur a chwmni; cyfoethogi ac anogaeth; tynerwch ac ymddiriedaeth”. Bydd hyn yn ei dro yn caniatáu i’r ddau ohonynt “dyfu at aeddfedrwydd, fel bod modd meithrin plant, cryfhau bywyd y teulu, a chyfoethogi cymdeithas ddynol”.¹¹⁸ Mae hyn i gyd yn darparu’r cyd-destun ar gyfer yr ymrwymadau mae’r cwpl yn eu gwneud i’w gilydd o’u gwirfodd. Fel mae’r litwrgi yn mynd ymlaen i egluro, mae’r weithred hon o ymrwymiad yn digwydd ym mhresenoldeb tystion a chynulleidfa, fel bod y gwasanaeth a’r berthynas yn cael

116 Gweler troednodyn 75 am y testun beiblaidd.

117 Gweler, er enghraifft, 1 Corinthiaid 7 a Mathew 19:12

118 Llyfr Addoliad y Methodistiaid 1999 t. 369.

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

eu gwreiddio yn addoliad a bywyd gofalgar cymuned yr eglwys. Yna mae testun y gwasanaeth priodas yn mynd ymlaen i ddisgrifio gweithred y cwpl yn ymrwymo i'w gilydd fel un lle maent "yn clymu ei gilydd y naill wrth y llall yng nghyfamod priodas". Mae'r ymadrodd hwnnw ar yr un pryd yn cydweddu â'r cyfeiriad yn y cyflwyniad at "gontract cyfreithiol dwys" a hefyd yn ei ddyfnhau. Yn yr un modd mae'r datganiad cyfreithiol bod y cwpl yn ŵr a gwraig yn cael ei ategu a'i ddyfnhau gan fendith ysbrydol neu grefyddol iddynt: "Boed i Dduw eich uno fel na all neb byth eich gwahanu".

- 3.1.12 Mae'r Grŵp Tasg yn awgrymu, felly, bod priodas yn ymateb diolchgar i gariad grasol, yn ymrwymiad i garu'n rasol yn eu tro, ac yn brofiad sy'n dyfnhau o gariad a gras Duw yn a thryw'r cariad at y partner.

3.2 Gras dwyfol ac eiddilwch dynol

- 3.2.1 Bu'n bwysig i'r Grŵp Tasg gydnabod nad yw priodas bob amser wedi cael ei deall yn yr un ffordd, ac nad yw bob amser wedi galw am yr hyn rydym ni bellach yn ei ystyried yn berthynas dda neu sanctaidd. Mae hyn yn wir yn yr amrywiol draddodiadau Cristnogol, ac yn y gymdeithas ehangach. Mae rhai yn gweld priodas fel sefydliad sy'n anghyfiawn yn ei hanfod, sy'n aml yn batriarchaidd; a bod yr Eglwys Gristnogol yn draddodiadol wedi cefnogi, wedi argymhell a hyd yn oed wedi ceisio gorfodi'r farn honno.¹¹⁹ Yn wir, mae hanes o gadarnhau arferion ymddangosiadol anghyfiawn a phatriarchaidd mewn litwrgïau Cristnogol, ac o gyfeirio at amrywiol destunau beiblaidd i gyfiawnhau hynny. Enghreifftiau penodol fyddai'r arfer o drosglwyddo gwragedd o awdurdod tad i awdurdod gŵr; trosglwyddo eiddo ac adnoddau i'w gwŷr gyda nhw; a gwragedd yn addo bod yn ufudd i'w gwŷr.

- 3.2.2 Ceir dealltwriaeth wahanol, fodd bynnag, yn Natganiad 1992 ar *Dealltwriaeth Gristnogol o Fwyd Teuluol, y Person Sengl a Phriodas* a'r Gwasanaethau Priodas yn Llyfr Addoliad y Methodistiaid 1999.¹²⁰ Gellir seilïo'r ddealltwriaeth honno yn ei thro ar ddarlleniadau o Ysgrhythurau eraill y bernir eu bod yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n ymddangos yn batriarchaidd.¹²¹

119 Gweler *Liberating Sex, Adrian Thatcher*, 1993 am drafodaeth ar y themâu hyn

120 *A Methodist Statement 1992*, paragraffau 57 a 58

121 Felly mae Effesiaid 5:22 yn datgan bod gwragedd i ufuddhau i'w gwŷr. Ond mae arwyddion eisoes bod hwn yn rhan o ddarn lle mae'r ddealltwriaeth o strwythurau teulu patriarchaidd y cyfnod yn cael eu haddasu gan werthoedd a mewnwleidiad yr efengyl. Mae gwragedd i ufuddhau i'w gwŷr fel rhan o'u hymateb ufudd i Grist; ac mae gwŷr i garu eu gwragedd fel rhan o gariad Crist at yr Eglwys (Effesiaid 5:23-33). Mae posibilrwydd anghydbwysedd rhwng gŵr a gwraig yn dal i fodoli, ond mae deinameg cariad Crist yn sylfaen i'r ddau ohonynt. Mae hynny'n codi'r cwestiwn ynghylch sut gallai'r anghydbwysedd gael ei addasu trwy fewnwleidiad Galatiaid 3:28 "sdim ots... ydych chi'n ddyn neu'n wraig; dych chi i gyd fel un teulu sy'n perthyn i'r Meseia Iesu". Mae Philipiad 2:1-18 yn datgan bod pawb yng Nghrist i gael perthynas o gariad Crist-debyg â'i gilydd. Felly gall fod amrywiaeth o rolau mewn unrhyw berthynas, ond cydraddoldeb rhwng y personau. Mae 1 Corinthiaid 7:3 ac ymlaen yn datgan bod gan y ddau bartner mewn priodas hawliau a chyfrifoldebau cyfartal yn rhywiol.

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

- 3.2.3 O gymryd yr Ysgrythurau hyn gyda’i gilydd, nid yw ein Grŵp Tasg yn cael hyd i unrhyw sylfaen feiblaidd sy’n cyfiawnhau anghydbwysedd pŵer, camfanteisio na cham-drin mewn priodas, na gostwng un person i statws gwrthrych yn y berthynas. Gan ddilyn yr un trywydd, ni ddylai neb gael eu gorfodi i briodi nac i aros mewn priodas. Ni ellir defnyddio priodas, felly, gan neb i niweidio, gormesu na rheoli pobl yn eu gwendid, oherwydd nid dyna natur y Duw a ddatguddiwyd i ni yn Iesu. Os oes pŵer i gael ei ddefnyddio, pŵer cariad sy’n gwacáu’r hunan yw hwnnw, nid cariad hunanol.
- 3.2.4 Mae’n debygol y bydd pobl sy’n dod at briodas yn deall mai bwriad Duw yw bod priodas yn ymrwymiad gydol oes mewn cariad. Mae’n bosibl y byddant hefyd yn deall deinameg y cariad hwnnw, ac yn rhagweld yn eu tro bod natur eu hymrwymiad i’w gilydd yn un gydol oes. Ond mae bodau dynol yn eiddil a bregus, oherwydd bod pechod yn effeithio ar bawb ohonom. Mae’r Eglwys Fethodistaidd wedi cydnabod nad yw pawb sydd wedi gwneud yr ymrwymiad hwnnw mewn uniondeb yn gallu ei gyflawni.¹²² Mewn rhai achosion, mae’r niwed sy’n cael ei achosi mewn priodas, nid i’r partneriaid dan sylw yn unig ond hefyd i eraill (plant yn arbennig) yn fwy nag wrth ddod â’r briodas i ben.
- 3.2.5 Newyddion da’r efengyl yw bod Duw bob amser yn ymateb â gras, trugaredd a maddeuant i’r rhai sy’n barod i geisio hynny. Newidiodd yr Eglwys Fethodistaidd ei ffordd o ymateb i ysgariad yn ystod yr 20fed ganrif. Mae’r materion hyn wedi derbyn sylw trylwyr yn Adroddiad 1998 ar Baratoad Cristnogol ar gyfer Priodas ac adroddiad 1996 a arweiniodd at hynny.¹²³ Yn dilyn ymlaen o nodweddion perthynas dda, a amlinellwyd uchod, mae’r Grŵp Tasg yn awgrymu bod angen mentro i briodas mewn cariad, ac os na ellir ei hatal rhag chwalu, dod â hi i ben mewn cariad i’r graddau mae hynny’n bosibl.¹²⁴ Mae angen i’n Heglwys ein galluogi i gefnogi ein gilydd yn ein holl berthnasoedd pwysig, yn arbennig trwy gyfnodau pan fyddwn o dan bwysau. Lle bo hynny’n briodol, gall y gefnogaeth honno fod yng nghyd-destun addoliad a gweddïau sy’n cydnabod ein gwendid fel bodau dynol, a hefyd rym iachusol gras Duw.
- 3.2.6 Rydym yn argymhell felly bod testunau litwrgaidd yn cael eu cynhyrchu a’u cymeradwyo i’w defnyddio pan ddaw priodas i ben, nid i fawrygu ysgariad, ond i gydnabod ei fod yn bodoli ac i alluogi’r partneriaid ac eraill y mae hyn yn effeithio arnynt (a hefyd

122 Yn Marc 10:1-12 mae Iesu’n dangos sut mae ysgariad ac ailbriodi yn niweidio bwriad Duw ar gyfer priodas, yn hytrach na’i danseilio. Yna ymddengys fel petai’n dweud bod y ddarpariaeth ar gyfer ysgariad yn llyfr Deuteronomium yn yr Hen Destament yn dal i fodoli er mwyn delio gydag achosion lle nad oes modd cynnal y briodas, a hynny oherwydd caledwch calon neu amgylchiadau.

123 Christian Preparation for Marriage (1998) a Preparing for Christian Marriage.

124 Gan gydnabod y gall fod yn anodd i’r dioddefydd, mewn achosion o drais neu gam-drin domestig, fynegi neu hyd yn oed deimlo cariad wrth ddod â’r berthynas i ben.

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

yr Eglwys) i gynnig ac agor eu hunain i gariad grasol Duw wrth iddynt fynd trwy’r profiad.¹²⁵ Byddai argaeledd gwasanaeth o’r fath yn fynegiant o’r ffaith ein bod yn credu yng ngras Duw a’i allu i iacháu, ac yn dangos nad oes dim y tu hwnt i ofal Duw a’r Eglwys. Mae gwasanaeth diweddar yr Eglwys Bresbyteriaidd (UDA) yn fodel defnyddiol.¹²⁶

- 3.2.7 Fe nodwn felly fod yr Eglwys Fethodistaidd wedi datblygu diwinyddiaeth priodas sy’n ymwneud â chydaddoldeb, perthynas sy’n llesol o’r ddeutu, a chyfeillach. Gyda threigl y blynyddoedd, mae’r Eglwys wedi newid geiriad y gwasanaeth priodas a’r dull o’i gynnal mewn ymateb i hynny.¹²⁷ Mae’r datblygiad hwn yn yr ymdeimlad o Dduw fel Duw gras a thrugaredd wedi arwain at newidiadau yn sut mae Methodistiaid yn ymateb i’r rhai sy’n profi priodas yn chwalu. Er bod priodas yn fath arbennig o berthynas, y mae’r Ysgrythurau’n datgelu rhywfaint o weledigaeth Duw yn ei chylch, a chan mai pobl Duw ydym, rydym yn adolygu ac yn diweddarau’n barhaus ein mynegiant o’r weledigaeth honno a’n dull o’i hymarfer. Mae diwinyddiaeth priodas a’r dull o’i hymarfer fel seremoni a pherthynas wedi newid, a gall barhau i newid wrth i ni ddod i ddeall mwy am y Duw graslon sy’n ein caru ac yn ein harwain i wirionedd a chariad llawnach.

3.3 Priodas fel sefydliad cymdeithasol a chyfreithiol

- 3.3.1 Mae priodas yn **sefydliad cymdeithasol y mae modd ei adnabod y tu hwnt i ddealltwriaeth a phrofiad yr Eglwys Fethodistaidd ohono**. Fel sefydliad cymdeithasol, mae priodas hefyd wedi ymddangos ar lawer ffurf, ac mae’n newid yn barhaus. Yng nghymdeithas Prydain, a llawer o gymdeithasau ar draws y byd gydol ein hanes, mae categori arbennig o berthnasoedd agos arwyddocaol sy’n dwyn yr enw ‘priodas’ wedi cael ei gydnabod a’i gymeradwyo’n gymdeithasol ers meitin. Mae hanes hir o briodas cyn y cyfnod Cristnogol; a hyd yn oed yn ein diwylliant ni, y dylanwadwyd yn drwm arno dros ganrifoedd lawer gan Gristnogaeth a’r Eglwys, mae arfer priodas wedi newid.¹²⁸ Mae’n hanfodol felly nad ydym yn syrthio i fagl dychmygu bod y perthnasoedd a bortreadir yn y Beibl yn cael eu cynnal yn yr un ffordd ac yn ôl yr un gwerthoedd â’r rhai a bortreadir mewn llawer o hysbysebion, ffilmiau a sioeau teledu.
- 3.3.2 Yn ein cyd-destun ein hunain, rhaid i ni nodi’r datblygiadau yn y berthynas rhwng priodas sifil a phriodas grefyddol. Ar un adeg yn hanes Prydain, o’r braidd y gellid

125 Mae’r llyfryn *Vows and Partings* a gyhoeddwyd gan Wasg y Methodistiaid yn 2002 yn cynnwys deunydd defnyddiol ar gyfer gweddiâu, ond nid oes gwasanaeth ynddo.

126 *The Book of Common Worship 4^{ydd}* argraffiad Eglwys Bresbyteriaidd (UDA) 2018

127 Gweler y dudalen ar Briodas a Pherthnasoedd ar y we am drafodaeth bellach ar newidiadau yng ngeiriad gwasanaeth priodas yr Eglwys Fethodistaidd a’i dull o’i arfer.

128 Coontz, Stephanie, *Marriage, a History: How Love conquered Marriage*. Llundain: Penguin. 2005. 1.

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

gweld gwahaniaeth rhyngddynt.¹²⁹ Yn fwy diweddar, fodd bynnag, mae wedi dod yn fwyfwy anodd dweud bod dealltwriaeth cyfraith gwlad o briodas a dealltwriaeth yr Eglwys yn cyfateb i’w gilydd.¹³⁰ Dros amser, mae dealltwriaeth ‘seāwlar’ wedi dod yn brif ffynhonnell ar gyfer diffinio priodas sifil, yn hytrach nag un ‘Gristnogol’. Mae cyfraith Cymru a Lloegr o leiaf (ceir darpariaethau amrywiol mewn awdurdodaethau eraill) bellach yn nodi y gall seremonïau partneriaethau sifil a phriodasau sifil gynnwys darlleniadau, caneuon neu gerddoriaeth, ond na chânt gynnwys unrhyw beth crefyddol, gan gynnwys emynau neu ddarlleniadau o’r Beibl. Yn achos gwasanaeth priodas mewn adeilad eglwys awdurdodedig, p’un a yw’n perthyn i’r Methodistiaid neu beidio, mae’n ofynnol bod y cwpl yn gwneud datganiad penodol ac yn cyfnewid addewidion er mwyn gyflawni gofynion cyfreithiol, ac wedi hynny bydd y cwpl a’r tystion yn llofnodi’r gofrestr.¹³¹ Pan fydd yr holl bethau hyn wedi cael eu gwneud, bydd y gwasanaeth priodas yn yr eglwys yn golygu bod priodas y cwpl yn cael ei chyfrif fel un ddilys o dan gyfraith gwlad.¹³²

- 3.3.3 Mae’r Cyflwyniad i wasanaethau *Llyfr Addoliad* cyfredol y Methodistiaid ar gyfer “Priodas a Bendithio Priodas” yn datgan felly bod: “Seremoni briodas yn achlysur ffurfiol lle creir contract cyfreithiol dwys rhwng dyn a gwraig. Mewn cyd-destun Cristnogol, mae hefyd yn weithred o addoliad lle mae priodas yn cael ei dathlu fel rhodd gan Dduw ac mae llawenydd y cwpl yn cael ei rannu, a’u teulu a’u ffrindiau yn tystio i’w hymrwymiad i’w gilydd.”¹³³
- 3.3.4 Gellid rhagdybio o’r defnydd o’r term ‘contract cyfreithiol dwys’ a’r cyfeiriad sy’n dilyn at ‘Briodas a weinyddwyd eisoes’ mai’r gyfraith neu’r wladwriaeth yn bennaf sydd nid yn unig yn diffinio ystyr priodas, ond hefyd ar ryw ystyr yn ‘creu’ priodas benodol trwy ddatgan ei bod yn bodoli’n ddilys o foment benodol. Mae’n sicr yn wir bod yr Eglwys yn barnu nad yw ei dealltwriaeth hithau o briodas o safbwynt Cristnogol yn tynnu’n groes i’r hyn a geir gan y wladwriaeth, nac yn ceisio gwneud hynny; yn hytrach, mae’n ychwanegu rhywbeth arbennig ati.

129 Yn Neddf Priodas 1753 (a elwir yn aml yn Ddeddf yr Arglwydd Hardwicke), rheoleiddwyd priodas yng Nghymru a Lloegr fel mai dim ond yn un o’r Eglwysi Plwyf lleol oedd yn perthyn i’r Eglwys sefydledig, sef Eglwys Loegr, y gellid ei chynnal. Mewn dyfarniad yn 1866, dywedodd Arglwydd Penzance “... mae’n amlwg bod cyfraith briodasol y wlad hon wedi’i haddasu ar gyfer priodas Gristnogol, a’i bod yn gwbl amherthnasol i bolygami” a hefyd “Rwy’n barnu bod modd diffinio priodas, fel y’i deellir yng Ngwledydd Cred, at y diben hwn fel uniad gwirfoddol am oes rhwng un dyn ac un wraig, gan gau pawb arall allan”

130 Mae cyfraith gwlad wedi ymestyn dros amser i gwmpasu nid yn unig seremonïau priodas Eglwys sefydledig Lloegr (yn Lloegr), ond hefyd rai enwadau Cristnogol eraill (gan gynnwys Methodistiaeth); rhai ffydd wahanol; a rhai sy’n gwbl ‘seāwlar’ heb gynnwys unrhyw agweddau ar ffydd grefyddol.

131 Dim ond pedwar ar ddeg o eiriau sy’n ofynnol i gyflawni’r gofynion cyfreithiol hynny.

132 Gweler y tudalennau ychwanegol ar y wefan am linell amser o ddatblygiadau perthnasol yn hanes priodas a pherthnasoedd.

133 *Llyfr Addoliad y Methodistiaid* 1999, t. 367

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

3.3.5 Mae'r Grŵp Tasg wedi ailystyried a fyddai 'datgysylltu'r' seremoni ddinesig a'r gwasanaeth yn yr eglwys yn cryfhau neu'n gwanhau dealltwriaeth ac arfer priodas o fewn yr Eglwys, a'i statws a'i dylanwad ar gymdeithas.¹³⁴ Gallai gwneud hynny alluogi'r Eglwys i roi'r pwyslais yn fwy ar ansawdd y perthnasoedd sy'n cael eu datblygu, ac ysbrydolrwydd yr uniad sy'n digwydd. Fodd bynnag, byddai 'datgysylltu' yn debygol o leihau'r cyfleoedd i ymgysylltu ag aelodau o'r gymdeithas ehangach ar adegau hollbwysig yn nhaith eu bywyd, gan ymgorffori gras Duw a chyflwyno cariad Duw iddynt. Roedd hon yn neges glir iawn o'r gweithdai yng Nghynhadledd 2018. Ymhellach, mae'n anodd i ffydd seiliedig ar ymgnawdoliad wahanu agweddau ysbrydol neu grefyddol bywyd oddi wrth rai dinesig, cyfreithiol neu ymarferol. Wedi ystyried, felly, nid ydym yn argymhell 'datgysylltu'. Rydym ni'n barnu bod y ddealltwriaeth gyfreithiol neu sifil o briodas yng nghyswllt priodasau gwahanrywiol yn cael ei chwmpasu gan ddealltwriaeth yr Eglwys Fethodistaidd, sydd wedyn yn mynd y tu hwnt iddi. Wedi dweud hynny, mae'r Grŵp Tasg yn awyddus i barhau i gadarnhau priodas sifil cyplau sy'n dewis y drefn honno. Mae gwneud addunedau, yn aml gerbron cymuned y cwpl, yn arwydd o'r ymrwymadau a wneir ac yn eu cadarnhau. Gall priodas sifil gynnal perthnasoedd da, ac mae pob perthynas o'r fath yn werthfawr ac i'w dathlu.

3.4 Adnoddau i gefnogi priodas

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae priodas wedi dod yn llai poblogaidd, ac mae'r ystadegau'n dangos bod cyfran uchel o briodasau'n methu.¹³⁵ Mae'r Grŵp Tasg yn argymhell, felly, bod yr Eglwys Fethodistaidd yn cynnig mwy o gefnogaeth ar gyfer priodas, ochr yn ochr â pherthnasoedd ymroddedig eraill.¹³⁶ Gallai'r adnoddau i helpu i ddarparu'r gefnogaeth hon gynnwys y ddealltwriaeth ddiwinyddol o ddibenion, priodweddau a phatrymau perthnasoedd da a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

134 Bu hyn yn destun ystyriaeth flaenorol yn adroddiad 2016 ar Briodas a Pherthnasoedd 3.1.3

135 Mae ffigurau Ysgariad y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yng Nghymru a Lloegr 2015 yn awgrymu mai ysgariad yw pen draw 42% o briodasau. ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/divorce/bulletins/divorcesinenglandandwales/2015#what-percentage-of-marriages-end-in-divorce (ymgyngorwyd â'r ffynhonnell ar 25 Mawrth 2019)

136 Cododd adroddiad 2002 i'r Gynhadledd ar Briodas yn yr Eglwys Fethodistaidd gwestiynau ynghylch sut dylem ni barhau i ddatblygu ein hymarfer paratoi ar gyfer priodas. Enwodd Penderfyniad 5 amrywiol swyddogion yn Nhîm y Cyfundeb fel rhai a fyddai'n gyfrifol am gynhyrchu cynllun gweithredu ar gyfer 2003-2005.

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

4. Ehangu arferion o ran priodas

Rydym wedi nodi, er bod dealltwriaeth y Methodistaidd o briodas yn mynd yn ddyfnach ac yn fwy penodol na'r hyn a bennwyd yn nghyfraith gwlad, bod dilysu gan y Wladwriaeth yn ymarferol angenrheidiol i gadarnhau pob priodas yn yr Eglwys Fethodistaidd. Yn yr adran hon, rydym yn edrych ar sut mae'r Wladwriaeth wedi datblygu perthnasoedd tebyg i briodas gan greu partneriaethau sifil, ac wedi ehangu'r diffiniad o briodas fel y cyfryw i gynnwys cyplau o'r un rhyw. Ochr yn ochr â hyn, byddwn ni'n ystyried a yw'r ddiwinyddiaeth Fethodistaidd sy'n datblygu o ran priodas a pherthnasoedd, a phenderfyniadau blaenorol yr Eglwys Fethodistaidd i beidio â gwahardd ei haelodau rhag ymrwymo i'r cyfryw berthnasoedd fel y'u diffiniwyd a'u dilyswyd o dan y gyfraith, yn golygu y gall yr Eglwys Fethodistaidd yn awr ehangu ei harferion ei hun o ran priodas. Wrth ddod i'n casgliadau rydym yn myfyrio ar ddadleuon blaenorol dros beidio ag ehangu'r priodasau a ddethlir i gynnwys cyplau o'r un rhyw. Rydym yn ystyried agweddau blaenorol at yr Ysgrifur a dehongliadau sy'n dod i'r amlwg. Yma rydym yn rhannu'r meddyliau sydd wedi galluogi'r Grŵp Tasg i gynnig ei gasgliadau.

4.1 Y cwestiwn sy'n deillio o Ddeddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013

Gwnaeth Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 briodas rhwng dau berson o'r un rhyw yn gyfreithlon yng Nghymru a Lloegr o fis Mawrth 2014.¹³⁷ Er bod nifer y cyplau gwahanrywiol sy'n priodi yn gostwng, bu niferoedd sylweddol o gyplau o'r un rhyw yn awyddus i fanteisio ar y cyfle i briodi.¹³⁸ Fel Eglwys, rydym wedi datgan bod gwerth cyfartal i bob person yng ngolwg Duw.¹³⁹ Nawr mae'n rhaid i ni ymdrin â'r cwestiwn a ddylai fod yn bosibl i gyplau o'r un rhyw briodi yn yr Eglwys Fethodistaidd.

4.2 Pwy sy'n gallu cofrestru partneriaeth sifil neu gael eu priodi o dan y gyfraith?

Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, dim ond cyplau o'r un rhyw sy'n bodloni gofynion y gyfraith sy'n gallu cofrestru ar gyfer partneriaeth sifil.¹⁴⁰ Mae darpariaethau cyfatebol yn berthnasol i briodas cyplau gwahanrywiol o dan yr amrywiol ddarnau o ddeddfwriaeth ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig, ac i briodas cyplau o'r un rhyw yn y

137 Gwnaeth Deddf Priodas a Phartneriaeth Sifil (yr Alban) 2014 briodas rhwng dau berson o'r un rhyw yn gyfreithlon yn yr Alban o fis Rhagfyr 2014. Ni wnaed priodas un rhyw yn gyfreithlon yng Ngogledd Iwerddon, fodd bynnag. Mae amrywiaeth o ddarpariaethau yn Ynsoedd y Sianel, Ynys Manaw, Gibraltair a Malta, nad ydynt o dan awdurdodaeth y Deyrnas Unedig.

138 Yn y flwyddyn gyntaf pan oedd priodasau o'r fath yn bosibl (Mawrth 2014 – Mehefin 2015), ffurfiwyd cyfanswm o 7,366 o briodasau yng Nghymru a Lloegr, 55% ohonynt rhwng cyplau benyw a 45% rhwng cyplau gwryw. (ONS: Priodasau yng Nghymru a Lloegr (ystadegau dros dro) ar gyfer Cyplau o'r Un Rhyw, 2014, rhyddhawyd ar 20 Hydref)

139 Gweler Pecyn Offer EDI

140 Y gofynion yw nad ydynt yn berthnasol gwaed; eu bod dros 18 oed (neu 16 os oes ganddynt ganiatâd ysgrifenedig eu rhieni neu eu gwarcheidwaid cyfreithiol); a'u bod yn rhydd i ymrwymo i'r bartneriaeth (hy nid ydynt eisoes mewn partneriaeth sifil neu'n briod). I gael rhagor o fanylion, gweler: www.gov.uk/get-married-in-england-or-wales.

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

rhannau hynny o'r Deyrnas Unedig lle mae hynny bellach yn gyfreithlon.

4.3 Pwy sy'n gallu cofrestru partneriaeth sifil neu gael eu priodi o dan ddisgyblaeth yr Eglwys Fethodistaidd?

- 4.3.1 O ran partneriaethau sifil rhwng dau berson o'r un rhyw, penderfynodd Cynhadledd y Methodistiaid yn 2006 "nad oes rheswm *per se* o fewn ein disgyblaeth i atal unrhyw un o fewn yr Eglwys, boed ordeiniedig neu leyg, rhag ymrwmo i bartneriaeth sifil neu aros mewn un. Fodd bynnag, mae Penderfyniadau 1993 [*sc. ar Rywioldeb Dynol*] yn dal yn berthnasol". Cymerir y dylai'r un peth fod yn berthnasol yn y man i bartneriaethau sifil gwahanrywiol. O ran priodasau rhwng pobl o'r un rhyw, penderfynodd y Gynhadledd yn 2014 y dylai'r un darpariaethau a gymhwyswyd i'r rhai sy'n cofrestru partneriaethau sifil "gael eu hestyn hefyd i'r rhai sy'n ymrwmo i briodasau un rhyw a gontractiwyd yn gyfreithiol".¹⁴¹
- 4.3.2 Yng nghyswllt priodasau gwahanrywiol, mae'r Gynhadledd bob amser wedi derbyn a chadarnhau'r rhai sy'n eu gweinyddu mewn seremoni ddinesig yn hytrach nag mewn Eglwys. Yn wir, mae wedi darparu ffurf ar wasanaeth ar gyfer 'Bendithio Priodas a Weinyddwyd eisoes' ar gyfer y rhai sy'n dymuno dathlu a gweddïo dros eu perthynas mewn gweithred o addoliad wedi hynny.¹⁴²
- 4.3.3 Mae'r sefyllfa bresennol rywfaint yn wahanol pan edrychwn ar wasanaethau awdurdodedig ar gyfer partneriaethau sifil a phriodasau. O ran partneriaethau sifil, arweiniodd Adroddiad Cynhadledd 2006 *Pererindod Ffydd/The Pilgrimage of Faith* at benderfyniad gan y Gynhadledd fod "Penderfyniadau 1993 yn cau allan y posibilrwydd y gallai'r Eglwys Fethodistaidd roi bendith 'swyddogol' i berthynas rhwng dau berson o'r un rhyw."¹⁴³ Penderfynodd fod hynny'n eithrio'r "posibilrwydd o fabwysiadu liturgiâu awdurdodedig er mwyn bendithio perthnasoedd un rhyw, ac na chaniateir defnyddio safleoedd y Methodistiaid at ddiben o'r fath".¹⁴⁴
- 4.3.4 Ar yr un pryd, fodd bynnag, cyflwynodd Cynhadledd 2006 ganllawiau ar arfer bugeiliol da wrth ymateb i geisiadau am weddiâu neu wasanaethau bendithio ar gyfer cyplau o'r un rhyw. Gallai'r rhai fyddai'n cael cais o'r fath gynnig "gweddi anffurfiol o'r

141 Penderfyniad 40/6 Cynhadledd 2014 yn llawn oedd "Penderfynodd y Gynhadledd, er ei bod yn cydnabod y byddai Penderfyniadau 1993 ar Rywioldeb Dynol yn dal yn berthnasol i bob perthynas, y dylai'r dyfarniad ynghylch y rhai sy'n ymrwmo i bartneriaethau sifil, hynny yw nad oes rheswm *per se* dros atal unrhyw un o fewn yr Eglwys, boed ordeiniedig neu leyg, rhag ymrwmo i'r cyfryw berthynas neu aros ynddi, gael ei estyn hefyd i'r rhai sy'n ymrwmo i briodasau un rhyw a gontractiwyd yn gyfreithlon."

142 *Llyfr Addoliad y Methodistiaid* 1999 t385 ac ymlaen

143 Eitem 40 ar Agenda Cynhadledd 2006.

144 Penderfyniad 40/8 yng Nghynhadledd 2006. Ceir hyd i Benderfyniadau 1993, y cyfeirir atynt, yn Llyfr VII Canllawiau Rhan 11 o *Constitutional Practice and Discipline of the Methodist Church*

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

frest mewn ymateb i angen bugeiliol”, ond nid oeddent i ddefnyddio safleoedd y Methodistiaid “ar gyfer bendithio perthnasoedd un rhyw.”¹⁴⁵ Yna yn 2014, diwygiodd y Gynhadledd y canllawiau hynny mewn modd oedd yn cynnwys cydnabyddiaeth ddealedig y gellid defnyddio safleoedd y Methodistiaid ar gyfer unrhyw ymateb oedd yn cyd-fynd â dealltwriaeth a disgyblaeth y Methodistiaid.¹⁴⁶ Yn 2018, mabwysiadodd y Gynhadledd Rybudd o Gynnig oedd i bob pwrpas yn gwneud hyn yn rhan benodol o’r canllawiau ffurfiol, gan ddatgan: “Mae’r Gynhadledd... yn ailadrodd y Canllawiau ar Geisiadau am Wasanaethau yn Llyfr VII Rhan 10 o CPD ac yn cadarnhau bod hyn yn caniatáu i Eglwysy Lleoel ganiatáu i’w safleoedd gael eu defnyddio i gynnal diolchgarwch cyhoeddus am gyplau o’r un rhyw sydd wedi gweinyddu priodas neu bartneriaeth sifil, dan lywyddiaeth gweinidog, darpar-weinidog neu aelod priodol.”¹⁴⁷

- 4.3.5 Pan gyflwynwyd deddfwriaethartneriaethau sifil gyntaf, nid oedd yn caniatáu eu contractio ar safleoedd crefyddol. Yn 2010, fodd bynnag, dilewyd y rhwystr hwnnw gan y Ddeddf Cydraddoldeb, ond nodwyd na ellid gwneud unrhyw gais i awdurdodau cofrestru awdurdodi safleoedd eglwysy lleol ar gyfer defnydd o’r math hwn ond gyda chydysniad corff penodedig.¹⁴⁸ Yn achos yr Eglwys Fethodistaidd, Cynhadledd y Methodistiaid fyddai’r corff hwnnw. Ac eto nid oes penderfyniad yn ceisio cydsyniad y Gynhadledd wedi cael ei gyflwyno ger ei bron eto. Ymhellach, gan mai hanfodartneriaeth sifil, uwchlaw popeth arall, yw cofrestru’rartneriaeth, heb fod angen addunedau neu ymrwymadau, nid yw’r Grŵp Tasg yn argymhell cyflwyno penderfyniad o’r fath.
- 4.3.6 Yn achos priodas, mae’r Gynhadledd wedi awdurdodi ffurfiau gwasanaeth sy’n gweinyddu priodasau cyplau gwahanrywiol. Mae’r gwasanaethau hynny’n cynnwys y datganiadau a’r ymrwymadau sy’n angenrheidiol er mwyn i’r briodas gael ei chofrestru’n gyfreithiol fel un ‘ddilys’, ond mae’n eu gosod yng nghyd-destun ffurfio perthynas gyfamodol rhwng dau berson mewn gweithred o addoliad. Yng Nghymru a Lloegr, fe’u cynhelir ar y safleoedd hynny o eiddo’r Methodistiaid a awdurdodwyd o dan y gyfraith ar gyfer cofrestru priodasau. Mae’n rhaid i’r ymddiriedolwyr rheolaethol lleol gyflwyno cais am awdurdod o’r fath. Mae’r Gynhadledd wedi rhoi caniatâd iddynt gyflwyno cais, os dewisant wneud hynny.
- 4.3.7 Yn gyfreithiol yng Nghymru a Lloegr, mae priodasau un rhyw yn cael eu cofrestru o dan Ddeddf Seneddol wahanol i briodasau gwahanrywiol, ac mae’r adeiladau a ddefnyddir

145 Penderfyniad 40/10 yng Nghynhadledd 2006.

146 Penderfyniad 40/5 yng Nghynhadledd 2014. Mae testun llawn y canllawiau diwygiedig i’w weld yn *Constitutional Practice and Discipline of the Methodist Church* Llyfr VII Rhan 10.

147 Rhybudd o Gynnig 203 yng Nghynhadledd 2018 [Cofnod Dyddiol 7/17/8 fel yr eglurwyd gan 8/53/1-2].

148 Ddeddf Cydraddoldeb 2010, adran 202, oedd yn newid adran 6 o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004.

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

i’w cofrestru wedi’u hawdurdodi ar wahân o dan y Ddeddf honno.¹⁴⁹ Nid yw’r Gynhadledd wedi rhoi caniatâd i ymddiriedolwyr rheolaethol lleol wneud cais am yr awdurdod hwnnw, ac nid yw chwaith wedi awdurdodi ffurfiau gwasanaeth ar gyfer gweinyddu priodasau un rhyw na bendithio priodasau o’r fath a weinyddwyd yn flaenorol.¹⁵⁰

- 4.3.8 Goblygiadau’r uchod yw bod yr Eglwys Fethodistaidd yn fodlon i Fethodistiaid (lleyg neu ordeiniedig) ymrwymo i sefydliadau cyfreithiol partneriaeth sifil un rhyw a phriodas un rhyw, ond nad yw’n gweld hynny fel rhywbeth oddi mewn i gwmpas dealltwriaeth yr Eglwys Fethodistaidd o briodas. Mae’r Grŵp Tasg yn ymwybodol y byddai rhai aelodau o’r Eglwys Fethodistaidd yn croesawu gweld y Gynhadledd yn awdurdodi ffurfiau gwasanaeth sy’n galluogi cyplau o’r un rhyw i gyfnewid addunedau ac ymrwymo i’w gilydd gerbron Duw a’r Eglwys sy’n creu perthynas gyfamodol rhyngddynt am oes; ond na fyddent am i’r berthynas honno gael ei galw’n ‘briodas’.¹⁵¹ Mae eraill yn gwrthwynebu ffurfioli unrhyw fath o berthynas rhwng cyplau o’r un rhyw, ac mae rhai yn cael trafferth gyda datganiadau’r Gynhadledd yn 1993 ynghylch rhywioldeb yn gyffredinol.
- 4.3.9 Rheswm sylfaenol a roddir yn aml am y gwrthwynebiad hwn yw y dywedir bod unrhyw beth heblaw perthynas rywiol rhwng dyn a benyw yn *annaturiol*. Y rheswm am hynny weithiau yw ein bod yn ofni, neu nad ydym yn hoffi arferion sy’n wahanol i’n rhai ni, neu’r tu hwnt i’n profiad personol. Ar adegau eraill, mae rhagdybiaeth bod yr hyn sy’n dda i fodau dynol yn unol â’r egwyddorion a wreiddiwyd ym myd natur, a bod modd canfod yr egwyddorion hynny trwy reswm.¹⁵² Ac eto mae’r hyn sy’n cael ei ddatgan yn ‘naturiol’ a’r hyn nad yw yn aml yn cyd-fynd â dyfarniad a hunan-les y grymus. Mae’r hyn a ganfyddir fel egwyddorion natur yn aml yn debycach i gonfensiynau cymdeithasol. Felly, yn 1 Corinthiaid 11:14, pan yw Paul yn dweud nad yw’n naturiol i ddyn fod â gwallt hir, nid yw’n dweud na fydd yn tyfu’n hir, ond yn hytrach nad yw caniatáu iddo dyfu’n hir yn normal.¹⁵³ Ar ben hynny, mae’r ffaith bod gweithgarwch rhwng dau o’r un rhyw bellach wedi’i ganfod mewn llawer dosbarth o anifeiliaid yn golygu ei fod yn anodd dadlau nad yw’n ‘naturiol’ i fodau dynol oherwydd nad yw’n

149 Deddf Priodas (Cyplau o’r Un Rhyw) 2013, Atodlen 1.

150 Ery caniateir gweddiâu cyhoeddus o ddiolchgarwch am briodasau rhwng cyplau o’r un rhyw (gweler para 4.3.4 uchod).

151 Mae Atodiad 5 o Adroddiad 2016 yn rhoi enghreifftiau o safbwyntiau o’r fath a gafwyd mewn ymgynghoriadau Dosbarth.

152 Mae’n werth nodi, er nad yw’r Wesleaid a Methodistiaeth ddiweddarach wedi rhoi llawer o sylw ffurfiol i ‘gyfraith naturiol’ fel y cyfryw, mae eu pwyslais ar gyfuno rheswm, profiad a thraddodiad â’r Ysgrifurth yn golygu eu bod yn agored i bosibiliadau “integreiddio dull cyfraith naturiol dealedig â safbwyntiau diwinyddol a all gydweddu â hynny a’i feirniadu’n adeiladol”. Gweler ymhellach waith John Harrod *Natural Law in the Methodist Tradition* = Pennod 6 yn gol. Norman Doe *Christianity and Natural Law: An Introduction* Cambridge University Press 2017

153 Gwelid gwallt hir yn aml fel arwydd o fod yn ferchetaidd.

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

digwydd ymhlith anifeiliaid eraill. Ymhlith bodau dynol, mae amrywiaeth o rywioldeb dynol, a gellir dweud bod amrywiaeth o ffactorau wedi dylanwadu ar bob mynegiant o hyn (testun y buom ni'n edrych arno yn Adran 1 o'r adroddiad hwn).

- 4.3.10 Dywedir hefyd weithiau fod priodas heblaw rhwng un dyn ac un fenyw yn *anfoesol*. Gellir gweld moesoldeb fel cyfres o safonau ar gyfer ymddygiad a chymeriad da neu ddrwg sy'n cael eu mabwysiadu gan berson neu gymdeithas, gyda golwg ar hybu llesiant. I Gristnogion, mae'r safonau hynny'n fynegiant ymarferol o natur sanctaidd Duw. Yn yr Hen Destament, maent yn arwain at orchmynion sy'n condemnio rhai mathau penodol o ymddygiad rhywiol, ymhlith pethau eraill. Fodd bynnag, gwelir lesu yn cyflawni'r gyfraith (Mathew 5:17) mewn modd sy'n cwmpasu popeth oddi mewn i ddwy egwyddor sylfaenol, sef 'caru Duw a charu eraill' (Mathew 22:36-40). Wrth gyflawni'r egwyddorion hynny, mae pobl i ddwyn beichiau ei gilydd ac adfer y rhai sy'n tramgwyddo yn dyner.¹⁵⁴ Yng nghyswllt y gorchmynion am ymddygiad rhywiol, mae'n drawiadol bod pwyslais lesu a Paul "yn llwyr ar ansawdd y berthynas, ac yn benodol ar y ffaith y dylai fod yn gyfamod o ffyddlondeb rhywiol llwyr ac yn uniad na ellir ei ddatod".¹⁵⁵ Gellir dadlau nad yw'n llai moesol gweld hynny'n cael ei gyflawni mewn perthnasoedd rhwng cyplau o'r un rhyw nag rhwng cyplau gwahanrywiol.¹⁵⁶
- 4.3.11 Mae'r ddau baragraff diwethaf eisoes wedi cyfeirio at yr Ysgrifurau. I Fethodistiaid y ddadl gryfaf a gafwyd, o bell ffordd, oedd bod priodas heblaw am rhwng un dyn ac un fenyw yn *anysgrythurol*. Mae saith testun y cyfeirir atynt weithiau fel rhai sy'n condemnio pob gweithred y byddem ni bellach yn eu galw'n rhai 'un rhyw', sef:
- *Genesis 19:1-29*, lle mae dynion Sodom yn ceisio mynd ati fel torf i dreisio ymwelwyr gwryw Lot;
 - *Barnwyr 19:1-30*, lle mae dynion Gibeon yn ceisio mynd ati fel torf i dreisio ymwelydd gwryw dyn;
 - *Lefiticus 18:22 a 20:13*, lle dywedir ei fod yn ffaidd i ddyn orwedd gyda dyn eraill, fel petai gyda gwraig;
 - *1 Corinthiaid 6:9-10*, lle ceir dau air, y mae un ohonynt i'w weld yn *1 Timotheus 1:9-10* hefyd, a ddeallir yn aml fel rhai sy'n cyfeirio at wrywod yn ymddwyn yn rhywiol gyda'i gilydd (mae beibl.net yn eu cyfieithu fel 'puteiniwyr gwrygydiol' a 'gwrygydwyr gweithredol') sy'n digwydd mewn rhestrau o bobl y dywedir bod eu hymddygiad yn eu gosod y tu allan i deyrnas Duw; a
 - *Rhufeiniaid 1:26-27*, lle gwelir cyfnewid cyfathrach wahanrywiol am gyfathrach â pherson o'r un rhyw o ganlyniad i'r ffaith bod pobl yn addoli'r creadur, yn hytrach na Duw'r Creawdwr.

154 Gweler "cyfraith Crist" (Galatiaid 6:2).

155 Jeffrey John *Permanent, Faithful, Stable* 2^o arg. DLT 2012 t.20

156 Ibid. tudalen 22.

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

4.3.12 Fodd bynnag, mae'r testunau hyn wedi cael eu trafod yn helaeth, a bu dadlau ffyrnig yn eu cylch. Mae rhai pobl wedi profi defnydd ohonynt i gyfiawnhau pob math o ragfarn, eithrio a hyd yn oed trais, gwaetha'r modd. Maent hwythau, ac eraill, yn aml wedi darllen a dehongli'r testunau mewn ffyrdd eraill.

- Mae *Genesis 19:1-29* a *Barnwyr 19:1-30* yn trafod treisio ffyrnig a fwriadwyd i sarhau a darostwng tramorwyr neu ddieithriaid mewn modd sy'n torri cyfraith cariad a lletygarwch Duw. Nid yw'r hanesion yn condemnio cynnig merched i'w cam-drin yn rhywiol gan y torfeydd yn lle'r ymwelwyr, ond ni fyddem yn defnyddio'r hanesion hyn i gyfiawnhau ymddygiad o'r fath heddiw. Pan sonnir yn Mathew 10:11-15 am Iesu'n cyfeirio at Sodom a Gomorrah, mae hynny yng nghyfdestun trafodaeth ar reolau lletygarwch.
- Mae *Lefiticus 18:22* a *20:13* yn rhan o'r Codau Sancteiddrwydd, sy'n diffinio hunaniaeth grefyddol, dinesig a diwylliannol pobl Duw ('Israel'). Roedd hyn i'w gyflawni yn anad dim trwy *arwahanrwydd*. Er enghraifft, dylai Israel gadw ar wahân i genhedloedd eraill (Cenedl-ddynion) ym mhopeth; dylid cadw gwryw a benyw ar wahân; dylid hau gwahanol fathau o hadau mewn caeau gwahanol; ni ddylid gwau gwahanol fathau o ddeunydd ynghyd yn yr un dilledyn.¹⁵⁷ Ni wahaniaethir rhwng y rhain a phethau eraill yn y codau. Mae'n anodd dewis pa rai ohonynt sy'n dal yn rhwymol a chael gwared ar y lleill heb ddefnyddio meini prawf eraill o'r tu allan i'r testunau eu hunain. Ond ar ben hynny, yn Mathew 15:10-11, 17-20 mae Iesu'n dweud bod sancteiddrwydd yn ymwneud yn fwy â meddylfryd mewnol na gweithredoedd allanol, mewn geiriau eraill a yw'r hyn sy'n cael ei wneud yn digwydd er mwyn caru Duw a charu cymydog.
- Mae'n anodd canfod union ystyr y geiriau a ddefnyddir yn *1 Corinthiaid 6:9-10* a *1 Timotheus 1:9-10*. Mae'n wir mai'r ffurfiau gweladwy mwyaf cyffredin o weithredoedd rhwng pobl o'r un rhyw ym myd y Cenedloedd, fel yr oedd yn bennaf, fyddai puteinio a phederastiaeth. Beth bynnag, nid yw'n bosibl cyffredinoli'n hyderus ar sail y termau a ddefnyddiwyd a dod i'r casgliad bod gweithredoedd rhwng pobl o'r un rhyw sy'n gariadus, yn gydsyniol, ac nad ydynt yn camfanteisio o reidrwydd yn cael eu condemnio ganddynt.
- Mae *Rhufeiniaid 1:26-27* yn digwydd mewn adran sy'n ymdrin ag eilunaddoliaeth. Y nod yw dangos bod yr holl Genhedloedd wedi pechu a syrthio'n fyr o ogoniant Duw, tra bod pennod 2 yn mynd ymlaen i ddangos sut mae'r holl Iddewon hefyd wedi pechu a syrthio'n fyr o ogoniant Duw trwy anuffudd-dod. Mae'n bosibl bod Paul yn meddwl am buteinio defodol a gweithredoedd rhywiol eithafol a gyflawnwyd mewn cysylltiad â chwltiau a themlau paganaid (sy'n cynnwys 'eilunod'). Efallai ei fod yn rhagdybio bod cyfeiriadedd gwahanrwydol gan bawb, a bod pob ymddygiad rhywiol gyda pherson arall o'r un rhyw o ganlyniad i ddewis gweithredu yn erbyn y cyfeiriadedd hwnnw (syniad nad yw'n cyd-fynd â'r hyn sy'n

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

hysbys heddiw am y natur ddynol). “Mae eilunaddolwyr yn methu â rhoi'r gogoniant a'r diolch i Dduw. Mae Duw yn caniatáu iddynt golli rheolaeth mewn angerdd erotig, sy'n dwyn gwaradwydd arnynt”.¹⁵⁸

4.3.13 Ar yr un pryd, defnyddiwyd testunau eraill i fwrw goleuni ar y drafodaeth, ac fel Grŵp Tasg rydym wedi ystyried perthnasedd y rhain i'r pwnc. Er enghraifft:

- Mae *Salm 139* yn canu am adnabyddiaeth fanwl Duw o bob person, a'i gariad tuag atynt, a 'wnaed mor syfrdanol a rhyfeddol' ym mhob ffordd.
- Mae *Eseia 56:3-5* yn datgan y bydd y rhai y bernir eu bod yn 'wahanol yn rhywiol' ac na fyddant yn mwynhau bendith yr Hen Destament ar ffurf epil (gelwir hwy'n 'eunuchiaid' yn y testun) yn cael bendith gyfatebol gan Dduw, oherwydd bod Duw yn eu caru.
- Mae *Actau 8:26-39* yn dangos nad yw statws rhywiol eunuch o Ethiopia, o safbwynt Duw, yn ei gau allan nac yn ei rwystro rhag cael ei gynnwys yng nghymuned dilynwyr y Crist atgyfodedig.
- Mae *Actau 10* yn disgrifio sut mae Pedr yn dysgu nad yw datganiad Duw ynghylch pwy a beth sy'n lân ac yn gynwysedig ymhlith pobl Duw yn cael ei ddiffinio gan ffiniau dynol, na hyd yn oed gan ddealltwriaeth ddynol o gyfraith Duw.
- Mae *Mathew 22:34-40* a darnau cyfatebol yn *Marc 12:28-34* a *Luc 10:25-28* yn dangos lesu yn dod â holl gyfreithiau a dysgeidiaeth broffwydol yr Hen Destament o dan egwyddorion gor-redol cariad at Dduw a chariad at gymydog.

4.3.14 Ni friadiwyd i'r uchod fod yn ymdriniaethau cynhwysfawr o'r testunau perthnasol, ond yn hytrach yn rhai cynrychioliadol. Fe'u cyflwynir mewn grwpiau sy'n adlewyrchu ffyrdd sylfaenol o ddarllen y Beibl a dehongli awdurdod ei osodiadau. Yr her i'r Eglwys Fethodistaidd, ac felly i'n gwaith ninnau fel Grŵp Tasg yw bod adroddiad i Gynhadledd 1998 (fel y soniwyd yn 0.3.3) wedi nodi saith agwedd wahanol at awdurdod beiblaidd, ac amrywiaeth o ffyrdd sydd gan y Methodistiaid o ddefnyddio'r hyn a ysgrifennwyd yn y Beibl yn ffynhonnell ar gyfer yr hyn maen nhw'n ei gredu a'i wneud.¹⁵⁹ Ond ni ddewisodd Cynhadledd 1998 nac unrhyw Gynhadledd ddilynol wrthod unrhyw un o'r ffyrdd hyn o ddefnyddio'r Ysgrifurth; ni chafodd yr un ohonynt chwaith ei hybu fel dull mwy defnyddiol neu gywir na'r lleill. Felly, lle mae amrywiaeth barn ynghylch dehongli a defnyddio'r Beibl – a gadarnhawyd gan y Gynhadledd ym mhob achos – yn arwain at gasgliadau gwahanol neu hyd yn oed rai sy'n gwrthdaro ynghylch materion cred neu ymarfer, mae tasg heriol i'r Gynhadledd o ran cael hyd i ffordd ymlaen.

4.3.15 Wedi dweud hynny, mae'r Grŵp Tasg yn ymwybodol bod y drafodaeth ysgolheigaidd

158 Jack Rogers *Jesus, the Bible and Homosexuality 2nd arg.* Westminster John Knox Press 2009 tt. 75-76

159 Adroddiad y Pwyllgor Ffydd a Threfn i Gynhadledd 1998, *Llusern i'm Traed a Llewyrch i'm Llwybr / A Lamp to my Feet and a Light to my Path*

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

yn tueddu i symud i ffwrdd oddi wrth ddadleuon ynghylch union ystyr a goblygiadau termau mewn testunau penodol, at ddyfarniadau ynghylch eu pwysigrwydd yng nghyd-destun yr holl ystod o leisiau a geir yn y Beibl. Gyda’i gilydd, y lleisiau hyn sy’n creu ei awdurdod fel Gair Duw, y mae’r Gair a wnaed yn gnawd yn lesu yn llefaru â ni trwyddo. Fel Grŵp Tasg, rydym wedi dod i weld na allwn ni symud ymlaen ond yn ostyngedig, yn ofalus, yn weddigar, a chan ymgysylltu’n barhaus â’r Ysgrhythurau wrth i ni gyd-drafod er mwyn ceisio gweld sut gellid ymgorffori egwyddorion cariad Duw heddiw.

- 4.3.16 Ym mhob cenhedlaeth mae Cristnogion ffyddlon sy’n darllen y Beibl wedi dehongli ac aildehongli testunau penodol dan arweiniad yr Ysbryd, wrth iddynt ddod i ddeall mwy am y diwyllianau pryd y cawsant eu hysgrifennu ac yng ngoleuni amgylchiadau newidiol eu cyfnod eu hunain. Mae’r Ysgrhythurau eu hunain yn llawn enghreifftiau o destunau y rhoddwyd statws neu bwys mawr arnynt ar un adeg, ond y cyhoeddwyd yn ddiweddarach eu bod yn llawer llai pwysig mewn rhannau eraill o’r Beibl. Ym maes perthnasoedd a phriodas, er enghraifft, mae ysgrhythurau’r Hen Destament yn caniatáu polygami, gydag un dyn yn gallu cael llawer o wragedd, heb i hynny gael ei weld fel rhywbeth sy’n groes i ddyd a gwraig yn dod yn ‘un cnawd’. Nid yw testunau’r cyfnodau diweddarach, fodd bynnag, ond yn caniatáu monogami; a dyma’r safbwynt a ategir gan lesu yn yr efengylau.¹⁶⁰ Enghraifft arall yw’r darpariaethau ar gyfer priodas lefiraid.¹⁶¹ O dan y rhain, hyd yn oed os yw eisoes yn briod, mae dyn yn priodi gweddw ei frawd, er mwyn darparu ar ei chyfer a diogelu etifeddiaeth ei frawd. Ni cheir gorchymyn i’r gwrthwyneb i’r darpariaethau ysgrhythurol hyn, hyd yn oed gan lesu. Ac eto, gan ddilyn y llwybrau a gyflwynwyd gan lesu, ac yng ngoleuni eu profiad o’r Ysbryd yn yr Eglwys fore, mae Cristnogion yn ddiweddarach wedi peidio â’u trin fel elfennau normadol na’u hystyried yn bwysig o gwbl.
- 4.3.17 Un ddadl a gyflwynir weithiau yn erbyn priodas rhwng dau berson o’r un rhyw yw na cheir sôn am hynny yn y Beibl; a bod pob sôn am briodas yn y Beibl yn cynnwys dyn ac (o leiaf) un fenyw. Mae adroddiadau eraill gan y Methodistiaid, fodd bynnag, wedi datgan na ddylem gyfyngu ein syniadau ynghylch beth gallai Duw ei wneud i’r pethau hynny a ddigwyddodd yn hanesyddol yng nghyfnod y Beibl.¹⁶²
- 4.3.18 Gwrthwynebiad arall i briodas un rhyw a godir yn aml yw na all cwpl o’r un rhyw genhedlu plant yn naturiol.¹⁶³ Gwelsom yn gynharach, wrth i’r pwyslais ar gyfeillach a

160 Marc 10:7-8, Mathew 19:4-6. Gweler paragraff 2.3.3 uchod.

161 Genesis 38; Deuteronomium 25:5-6; Ruth (*passim*); Mathew 22:23-28

162 Mae *Created in God’s image* yn enghraifft dda o adroddiad o’r fath.

163 Robert Song, *Covenant and Calling: Towards a Theology of Same-Sex Relationships* (Llundain, SCM Press, 2014), tt. 47, 53, 81 ac 84.

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

ffyniant dynol yn nealltwriaeth yr Eglwys Fethodistaidd o Briodas Gristnogol gynyddu gyda threigl y blynyddoedd, bod y pwyslais ar genhedlu plant wedi lleihau.¹⁶⁴ Petai'r cloc yn cael ei droi yn ôl yn yr Eglwys Fethodistaidd, a bod pwysigrwydd cenhedlu plant yn cael ei bwysleisio eto, byddai'n rhaid ailasesu rhesymoldeb cynnal priodasau ar gyfer y rhai sydd, oherwydd oedran, gallu neu am ryw reswm arall, yn methu cenhedlu plant. Ni fyddai hynny'n hawdd nac i'w groesawu. Ni fyddai'r Grŵp Tasg am i gynrychiolwyr yr Eglwys wrthod cynnal gwasanaethau priodas ar gyfer pobl mewn sefyllfaoedd o'r fath. Mae sensitifrwydd bugeiliol a thosturi bob amser wedi golygu bod Methodistiaid yn awyddus i ymateb yn gadarnhaol yn y cyfryw achosion. Yn unol â'n diwinyddiaeth perthnasoedd a phriodas sy'n datblygu, byddai'r Grŵp Tasg yn dymuno cadarnhau a llawenhau mewn cariad hunanroddol ble bynnag y ceir hyd iddo.

- 4.3.19 Mae'r Grŵp Tasg yn credu bod y model 'cyfeillach' o briodas y mae'r Eglwys Fethodistaidd wedi'i ddatblygu gyda threigl y blynyddoedd yng nghyswllt perthnasoedd gwahanrywiol yr un mor berthnasol, yn ddiwinyddol ac yn ymarferol, i'r priodasau rhwng cyplau o'r un rhyw sydd bellach yn cael eu caniatáu gan gyfraith gwlad yn y rhan fwyaf o'r Deyrnas Unedig. Mae modd cymhwyso'r dibenion, y priodweddau a'r arferion cysylltiedig â pherthnasoedd priodas a nodwyd yn yr adroddiad hwn fel rhai sy'n galluogi'r perthnasoedd hynny i ffynnu i berthnasoedd cariadus ymroddedig rhwng cyplau o'r un rhyw yn ogystal â pherthnasoedd gwahanrywiol.
- 4.3.20 O ganlyniad, rydym ni'n credu bod angen i'r Eglwys Fethodistaidd, mewn parchedig ofn a gostyngeddwrwydd, gydnabod ei bod yn cael ei galw gan Dduw i gymryd y camau nesaf yn natblygiad ei dealltwriaeth o berthnasoedd a phriodas. Mae'r camau hynny yn cynnwys galluogi pobl o'r un rhyw i ymrwymo i'w gilydd mewn gwasanaethau priodas Cristnogol. Mae achos cryf i ddadlau, os yw priodas yr hyn mae'r Eglwys Fethodistaidd yn honni ei bod, ac mor rhyfeddol ag y mae'n honni, na all yr Eglwys hon barhau'n driw i Dduw cyfiawnder a chariad trwy barhau i wrthod hynny i'r cyplau hynny o'r un rhyw sydd ag awydd mor ddwfn amdani.
- 4.3.21 Wrth argymhell y symudiad hwn, mae'r Grŵp Tasg o'r farn ein bod yn ymateb i gymhelliad yr Ysbryd yng ngoleuni gwerthoedd yr efengyl a'r llwybrau datblygiad a gofnodir yn yr Ysgrifurau'n gyffredinol. Credwn y bydd yr Eglwys Fethodistaidd, wrth gymryd y cam hwn, yn bod yn ysgrythurol ac yn ffyddlon. Ond mae'r Grŵp Tasg hefyd yn cydnabod y bydd rhai yn yr Eglwys sy'n dal, â'r un integriti, i roi pwys mawr ar yr adnodau hynny o'r Beibl y soniwyd amdanynt uchod, sy'n llefaru yn erbyn

164 Mae traddodiadau Cristnogol yn dal i fodoli, fodd bynnag, lle mae eu ffordd o feddwl yn dibynnu'n bennaf ar yr hyn y gallem ni ei alw'n 'ddyletswydd atgenhedlu'. Er enghraifft, o dan Gyfraith Ganonaidd y Catholigion Rhufeinig, nid oes hawl gan bobl i briodi os na allant, oherwydd anabledd naturiol neu ddamweiniol, gael cyfathrach rywiol yn y wain. Mae darpariaeth hefyd i ddi-ddymu priodas sydd heb ei chyflawni.

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

gweithgarwch rhywiol rhwng pobl o’r un rhyw. Bydd rhaid parchu ac anrhydeddu ffyddlondeb y rhai yn ein plith sy’n seilio’n diwinyddiaeth ar y dehongliadau hynny hefyd, a diogelu ein daliadau yn yr un modd ag y gofynnir i ninnau barchu daliadau pobl eraill. Byddwn yn dychwelyd at sut gellir gwneud hynny yn Adran 5 o’r adroddiad hwn. Yn ôl Paul (Rhufeiniaid 14:1-15.7), pan fydd gan Gristnogion ddaliadau sy’n gwrthdaro ar yr un materion, mae pawb ohonynt yr un mor atebol i Dduw, rhaid i bob un ohonynt weithredu’n unol â’i gydwybod, ac ni ddylai neb ohonynt ymddwyn mewn modd sy’n niweidio neu hyd yn oed yn dinistrio ffydd rhywun arall.¹⁶⁵ Mae’r crynodeb yn Rhufeiniaid 14:13 o gyngor Paul ar sut mae byw gyda daliadau sy’n gwrthdaro ymhlith aelodau corff Crist yn dal i sefyll: “Felly gadewch i ni stopio beirniadu’n gilydd o hyn ymlaen. Yn lle hynny, gadewch i ni benderfynu peidio gwneud unrhyw beth fydd yn rhwystr i Gristion arall”.

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

5. Y Camau Nesaf ar gyfer yr Eglwys Fethodistaidd

Yn yr adran hon o’r adroddiad, yr un olaf ond un, eir ymlaen i ystyried beth fydd ein diwinyddiaeth sy’n datblygu, o ran perthnasoedd a phriodas, yn ei olygu yn ymarferol ar gyfer yr Eglwys Fethodistaidd, a sut gallwn ni barhau’n unedig, fel cymuned Crist-ganolog lle mae pawb yn gyfartal er bod gennym ddaliadau gwahanol ar y materion hyn. Yn ei hanfod, rydym yn cynnig newidiadau i’r Rheol Sefydlog ar briodas, ac yn awgrymu cynnwys disgrifiad mwy datblygedig o’n dealltwriaeth o briodas yn adran Canllawiau *Arferion Cyfansoddiadol a Disgyblaeth yr Eglwys Fethodistaidd* (CPD). Rydym hefyd yn cynnig y dylid datblygu adnoddau i gefnogi priodas a pherthnasoedd pwysig eraill.

5.1 Canllawiau ar ddeall priodas

- 5.1.1 Nid dim ond diffiniadau fel sydd mewn geiriadur a geir yn y Rheolau Sefydlog a deunydd arall sy’n rhan o *Arfer Cyfansoddiadol a Disgyblaeth yr Eglwys Fethodistaidd* (CPD). Nid rhestr foel o reolau sydd yma ychwaith. Maent yn adlewyrchu dysgeidiaeth yr Eglwys, ac yn mynegi egwyddorion diwinyddol a disgrifiadau diwinyddol sy’n berthnasol i’r materion dan sylw.¹⁶⁶
- 5.1.2 Yng ngoleuni’r hyn a ddywedir mewn adrannau cynharach o’r adroddiad hwn am y datblygiadau yn niwinyddiaeth y Methodistaidd a’u harferion priodas, mae’r Grŵp Tasg yn argymhell bod y Canllawiau canlynol ar *Ddeall Priodas* yn ymddangos yn adran Canllawiau CPD.

G1 Mae’r Eglwys Fethodistaidd yn croesawu pawb, p’un a ydynt yn aelodau neu beidio, sy’n holi ynghylch bwriad i briodi mewn unrhyw un o’i haddoldai. Bydd yn chwilio am natur agored i Dduw ynddynt, ac nid o reidrwydd am ddealltwriaeth datblygedig o’r ffydd Gristnogol.

166 Ymhlith yr enghreifftiau mae Rheol Sefydlog 400A am ‘Natur a Dibenion’ Cyfundebau; 500 am ‘Natur a Dibenion’ Cylchdeithiau; 600 ar ‘Natur yr Eglwys Leol’; 700 am ‘Egwyddorion Gweinidogaeth Bresbyteraidd’ a 701 am ‘Egwyddorion Gweinidogaeth Ddiagonaidd’. O ran y ddyw set olaf hyn o ‘Egwyddorion’, mae’n ddiddorol nodi at ein dibenion cyfredol fod Rheolau Sefydlog 700(2) a 701(2) yn egluro sut mae dealltwriaeth gyfamodol yr Eglwys o’r berthynas rhwng ei gweinidogion ordeinieidd a’r Gynhadledd yn cyd-fynd â dealltwriaeth gontractiol yn llygaid y gyfraith. Mae’r Rheolau Sefydlog yn datgan bod y berthynas gyfamodol rhwng gweinidogion a’r Gynhadledd yn codi o fewn y berthynas sydd ganddynt eisoes gyda’r Eglwys fel aelodau, ac yn mynd ymlaen; ac nid yw cychwyn ar y berthynas gyfamodol na gwasanaeth fel rhan ohoni erioed wedi creu, ac ni fu bwriad erioed iddi greu, perthynas gontractiol. Mae hyn yn ei dro yn cyfeirio’n ôl at y ddealltwriaeth sylfaenol o aelodaeth o’r Eglwys Fethodistaidd. Mae Gweithred Undod, Cymal 9(b) yn datgan mai “Breintiau a dyletswyddau aelodaeth... yw ymrwymadau gan bob aelod i fod yn ddisgyblion i Grist oddi mewn i’r Eglwys Fethodistaidd, a derbyn ei disgyblaeth, a chan yr Eglwys i ddarparu modd i fyneigi’r ddisgyblaeth honno’n llawn, gan gynnwys gofal bugeiliol a throsolwg. Mae aelodaeth, felly, yn berthynas gyfamodol rhwng yr aelod a’r Eglwys, yr ymrwymir iddi o wirfodd trwy ras Duw, ond nid oes bwriad i aelodaeth, ar ran y naill barti na’r llall, greu contract na pherthynas gyfreithiol arall, ac nid yw’n gwneud hynny.”

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

- G2 *Yn gyfreithiol, mae priodas yn berthynas contractiol rhwng dau berson sy'n gwneud addunedau ac ymrwymadau difrifol i'w gilydd, ac nid yw natur y briodas na natur yr ymrwymadau yn cael eu diffinio ymhellach o dan gyfraith gwlad. Yn nealltwriaeth yr Eglwys Fethodistaidd, mae priodas yn cwmpasu hynny, ond mae hefyd yn ddyfnach ac yn fwy cyfoethog. Mae'r Eglwys Fethodistaidd yn credu bod priodas yn berthynas gyfamodol rhwng dau berson, oddi mewn i gyfamod cariad Duw â nhw. Trwyddi, gallant brofi, archwilio a mynegi cariad graslon Duw.*
- G3 *Mae'r Eglwys Fethodistaidd yn credu bod priodas yn berthynas neilltuedig, yr ymrwymir iddi o wirfodd gyda bwriad gydol oes o uno dau berson mewn corff, calon, meddwl ac enaid, mewn ffyrdd sy'n briodol ar gyfer y ddau bartner. Ynndi, mae Ysbyrd Duw yn galluogi'r ddau bartner i brofi diogelwch cariad a gofal, gan roi cysur a chwmni i'w gilydd, cyfoethogi ac annog ei gilydd, a rhannu tynerwch ac ymddiriedaeth. Trwy briodas o'r fath gellir meithrin plant, cryfhau bywyd teuluol, a chyfoethogi cymdeithas ddynol.*
- G4 *Mae'r Eglwys Fethodistaidd yn cydnabod bod gwahanol safbwyntiau ymhlith ei haelodau ynghylch dehongi'r Beibl a'r traddodiad Cristnogol o ran a all unrhyw ddau berson briodi, neu a yw priodas rhwng dyn a benyw yn unig. Mae'r Eglwys Fethodistaidd wedi penderfynu parchu a gwneud darpariaethau ymarferol ar gyfer y ddau safbwynt.*
- G5 *Ni ellir cynnal gwasanaeth priodas neu wasanaeth yn bendithio priodas a gynhaliwyd eisoes mewn addoldy Methodistaidd ond os gellir dangos bod gofynion y ddeddfwriaeth yn yr awdurdodaeth briodol wedi'u bodloni.*
- G6 *Pan fydd awydd i ddefnyddio addoldai ar gyfer gwasanaethau priodas neu wasanaethau yn bendithio priodas a gynhaliwyd eisoes, dylai ymddiriedolwyr rheolaethol y safleoedd hynny fynd ati i ystyried a ydynt am wneud hynny ar gyfer priodasau cyplau gwahanrywiol yn unig, neu briodasau cyplau o'r un rhyw yn ogystal. Dylai'r ymddiriedolwyr rheolaethol ailystyried cwestiwn defnyddio'r addoldy ar gyfer gwasanaethau o'r fath bob pum mlynedd neu'n amlach.*
- G7 *Os yw'r ymddiriedolwyr rheolaethol am ddefnyddio addoldy ar gyfer gwasanaethau priodas, ac mae deddfwriaeth yr awdurdodaeth berthnasol yn gofyn bod adeiladau neu bersonél yr eglwys yn cael eu cofrestru neu eu hawdurdodi i gynnal priodasau, dylai'r ymddiriedolwyr rheolaethol gymryd y camau perthnasol i gydymffurfio.*

5.2 Rheol Sefydlog Ddiwygiedig ynghylch Priodas

Mae'r Grŵp Tasg yn argymhell bod y Rheol Sefydlog ynghylch priodas yn cael ei

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

diwygio i ddarllen fel a ganlyn (i gael disgrifiad llawn o'r newidiadau i'r Rheol Sefydlog bresennol, gweler Penderfyniad 9 isod)¹⁶⁷:

011A Priodas

1. *Mae'r Eglwys Fethodistaidd yn credu bod priodas wedi'i rhoi gan Dduw i fod yn gyfrwng arbennig ar gyfer gras Duw, a bod priodas sy'n uniad gydol oes o ran corff, meddwl ac ysbryd rhwng dau berson sy'n priodi o'u gwirfodd yn unol â dibenion Duw.*

Sylwer: Cyflwynodd y Grŵp Tasg yr argymhelliad uchod i'r Gynhadledd; mae penderfyniadau'r Gynhadledd yn ei gylich i'w gweld yn y Penderfyniadau ar ddiwedd yr Adroddiad.

5.3 Parch at ddaliadau gwahanol

- 5.3.1 Mae'r paragraffau blaenorol wedi codi'r cwestiwn a ellir diogelu gwahanol ddaliadau ynghylch materion yn ymwneud â phriodas yn yr Eglwys Fethodistaidd. Fel Grŵp Tasg, rydym ni'n cydnabod bod ein hargymhellion yn cyffwrdd â materion cariad a chadarnhad mewn priodas sy'n mynd at wraidd hunaniaeth, hapusrwydd a ffyniant pobl, a'u sefyllfa yn eu cymunedau. Ym marn rhai, felly, bydd y rhain yn llawer mwy difrifol a phwsig na materion eraill mae'r Eglwys wedi eu hystyried, lle mae wedi darparu ar gyfer barn wahanol. Serch hynny, fe all fod cyfatebiaethau a chyfarwyddyd defnyddiol yn yr hyn a ganiatawyd o'r blaen.
- 5.3.2 O ran ailbiodi rhai sydd wedi ysgaru, mae'r pwyslais ar ddaliadau'r gweinidog neu'r person awdurdodedig, yn hytrach na'r eglwys leol. Mae cymalau mewn Rheolau Sefydlog a fwrriadwyd i roi sylw i hyn yng nghyswllt rhai sydd wedi ysgaru, ond maent wedi'u geirio yn y fath fodd fel eu bod yn llawer mwy cyffredinol gymwys. Maent yn datgan nad oes gofyn bod gweinidog na pherson arall sydd ag awdurdod i gynnal priodasau ac sydd o dan ddisgyblaeth yr Eglwys yn gweinyddu ym mhriodas cwpl penodol yn groes i'w 'g/chydwylbod'; ond mae gofyniad arno/arni i gyfeirio'r cwpl dan sylw at gydweithiwr awdurdodedig nad yw ataliaeth o'r fath yn effeithio arno/arni.¹⁶⁸ Egwyyddor waelodol yr olaf yma yw 'cyfundebaeth'.¹⁶⁹

167 Mae'r Grŵp Tasg yn argymhell y dylid grwpio'r darpariaethau ar gyfer ysgaru ac ailbiodi a geir ar hyn o bryd mewn cymalau eraill o Reol Sefydlog 011A gyda darpariaethau newydd ar gyfer diogelu daliadau gwahanol ynghylch pwy sy'n cael priodi mewn Eglwys Fethodistaidd, a'u rhoi mewn Rheol Sefydlog newydd 011B. Gweler ymhellach 5.3.8 isod.

168 SO 011A (2), (3) a (4).

169 Cyfundebaeth yw deinameg waelodol dull y Methodistiaid o fod yn Eglwys. Fel mae adroddiad 2017 *Rhodd Cyfundebaeth / The Gift of Connexionalism*, paragraff 9, yn dweud: "Perthynas sydd wrth wraidd cyfundebaeth. Mae strwythurau ac ymarfer y Methodistiaid yn ceisio mynegi a thystio i "ryngddibyniaeth a pherthynas o'r ddeutu sy'n deillio o gyfranogiad pob Cristion trwy Grist ym mywyd Duw ei hun" (Called to Love and Praise, §4.6.1)."

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

- 5.3.3 Ar y llaw arall, os bydd cwpl yn gofyn na ddylai gweinidog penodol wasanaethu yn eu gwasanaeth priodas, a hynny ar sail rhywedd neu hil, mae’r Rheolau Sefydlog yn datgan, oherwydd bod yr Eglwys yn gwrthwynebu camwahaniaethu, na chaniateir eithriad.¹⁷⁰ Y ddadl yma eto yw cyfundebaeth. Beth bynnag yw barn unigol gweinidog, aelod arall, neu eglwys leol, mae pawb ohonynt yn perthyn i Eglwys sy’n gwrthod camwahaniaethu; ac maent wedi’u clymu gan hynny.
- 5.3.4 Sut, felly, mae diogelu ‘cydwybod’ yng nghyswllt priodas Gristnogol cyplau o’r un rhyw? O ran gweinidogion neu weinyddwyr eraill, gellid cyflwyno darpariaethau sy’n cyfateb i’r rhai ynghylch ailbriodi rhai sydd wedi ysgaru. Ni fyddai gweinidog neu weinyddwr arall awdurdodedig, o dan unrhyw amgylchiadau, yn cael ei orfodi i gynnal priodas rhwng cwpl o’r un rhyw, ond byddai gofyn eu bod yn cyfeirio unrhyw gwpl oedd yn gofyn am hynny at gydweithwyr a allai wneud.
- 5.3.5 O ran defnyddio safleoedd eglwysi lleol, nododd adroddiad 2014 gan y Gweithgor ar briodas a phartneriaethau sifil, petai’r Gynhadledd yn cytuno i ganiatáu gweinyddu priodasau un rhyw mewn Eglwysi Lleol, y byddai gofyn bod Cyngor Eglwys unrhyw Eglwys Leol oedd am fanteisio ar y cyfle hwn yn cofrestru’r eglwys at y cyfryw ddiibenion o dan y ddeddfwriaeth berthnasol cyn y gallai priodas o’r fath gael ei chynnal.¹⁷¹ Soniodd adroddiad 2014 hefyd am bryderon a fynegwyd wrthynt ynghylch yr anawsterau a allai ddeillio o wneud penderfyniadau o’r fath yn yr Eglwysi Lleol.¹⁷² Mae’r Grŵp Tasg yn eithriadol ymwbyddol o’r tyndra sy’n gysylltiedig â’r materion hyn, er bod Cyngor yr Eglwys leol eisoes yn gorfod penderfynu cofrestru adeilad o dan y ddeddfwriaeth berthnasol cyn bod modd gweinyddu priodasau gwahanrywiol ynddo. Serch hynny, mae dewisiadau unigol o’r fath ar gyfer yr Eglwys Leol yn arwain at fodel cynulleidfaol o wneud penderfyniadau, ac yn llaõo undod y Cyfundeb. Mae hynny hefyd yn achosi problemau gan y byddai’r Eglwys Fethodistaidd yn cyfleu neges gymysg i bobl ynghylch cynhwysedd, eu croeso, ac angen bugeiliol. O ganlyniad, gellid gweld tyndra cynhenid rhwng unigolion mewn eglwysi unigol a rhwng eglwysi mewn Cylchdeithiau.
- 5.3.6 Mae’r anhawster yn ymwneud nid yn unig â sut rydym ni’n cyd-fyw fel Eglwys Fethodistaidd pan fydd gennym ddaliadau sy’n gwrthdaro, ond sut rydym ni’n byw gydag arferion sy’n gwrthdaro rhwng gwahanol eglwysi yn y Cyfundeb. Un posibilrwydd fyddai bod y Gynhadledd yn dweud wrth yr ymddiriedolwyr rheolaethol, os yw safle i gael ei gofrestru fel adeilad awdurdodedig ar gyfer gweinyddu unrhyw fath o briodas, bod rhaid cofrestru ar y naill law o dan Ddeddf Priodas 1949 (ar gyfer priodasau gwahanrywiol) a hefyd ar y llall o dan Ddeddf Priodas (Cyplau o’r Un Rhyw) 2013 yng

170 SO 011A (5)

171 Gweithgor ar Briodas a Pherthnasoedd 2014, paragraffau 10, 116

172 Gweithgor ar Briodas a Pherthnasoedd 2014, paragraffau 61, 117

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

Nghymru a Lloegr (a'r deddfau cyfatebol mewn awdurdodaethau eraill).

- 5.3.7 Mae'r Grŵp Tasg yn ymwybodol bod y canllawiau a roddwyd yn flaenorol ynghylch Eglwysi Lleol a phriodasau cyplau o'r un rhyw yn cyfateb i'r darpariaethau ar gyfer Eglwysi Lleol yng nghyswllt priodasau gwahanrywiol, lle mae gan yr ymddiriedolwyr eisoes ddewis ynghylch a ydynt am gofrestru eu safleoedd ar eu cyfer. O ganlyniad, nid yw'n fwriad gan y Grŵp Tasg argymhell newid y canllawiau blaenorol. Byddai gan Eglwysi Lleol, felly, ddewis o ran cofrestru fel adeilad awdurdodedig ar gyfer y ddau fath o briodas, neu un ohonynt yn unig. Ond mae'r Grŵp Tasg o'r farn y dylid cynnal undod cyfundebaeth gymaint â phosibl trwy geisio sicrhau cyfatebiaeth rhwng y darpariaethau sy'n berthnasol i weinidogion, a gofyn bod eglwysi sy'n dewis peidio â chofrestru eu safleoedd ar gyfer priodasau cyplau o'r un rhyw yn cyfeirio unrhyw gwpl sy'n chwilio am un at yr eglwys agosaf sy'n cynnig hynny.
- 5.3.8 Mae'r Grŵp Tasg yn argymhell bod y darpariaethau ar gyfer diogelu gwahanol ddaliadau ynghylch pwy sy'n cael priodi mewn eglwys Fethodistaidd yn cael eu grwpio mewn Rheol Sefydlog newydd, O11B, ynghyd â'r darpariaethau i ddiogelu 'cydwybod' ynghylch ysgaru ac ailbriodi a geir ar hyn o bryd yng nghymalau Rheol Sefydlog O11A. (I gael disgrifiad llawn o'r newidiadau i'r Rheol Sefydlog presennol, gweler Penderfyniad 9 isod.)

011B Ysgaru, Ailbriodi, Priodas rhwng Cyplau o'r Un Rhyw a Pharchu Cydwybod

- (1) Nid yw ysgariad yn un o lysoedd y wlad, a materion rhyw neu rywedd, ynddynt eu hunain yn atal person rhag priodi mewn unrhyw addoldy o eiddo'r Methodistiaid.
- (2) Nid yw'r Gynhadledd, o dan unrhyw amgylchiadau, yn gofyn bod unrhyw berson a awdurdodwyd i weinyddu priodasau sy'n destun disgyblaeth yr Eglwys fel gweinidog, darpar-weinidog, swyddog neu aelod yn gwasanaethu nac yn cyfranogi ym mhriodas cwpl penodol, os byddai gwneud hynny'n groes i'w gydwybod/chydwytod.
- (3) Rhaid i weinidog, darpar-weinidog neu aelod sydd wedi'i awdurdodi'n briodol i gynnal priodasau ond na fydd, am resymau cydwybod, byth yn gwasanaethu ym mhriodasau cyplau o dan amgylchiadau penodol, gyfeirio cyplau o'r fath at gydweithiwr awdurdodedig nad yw'n wynebu ataliaeth o'r fath. Rhaid cyfeirio cwpl sydd am gael eu priodi ar safle o eiddo'r Methodistiaid nad yw wedi'i gofrestru'n briodol at y dibenion hynny at y personau sy'n gyfrifol am gynnal priodasau ar safleoedd sydd wedi'u cofrestru felly, o ddewis yn yr un Gylchdaith.
- (4) Mae'r Eglwys Fethodistaidd yn gwrthwynebu camwahaniaethu ar sail rhywioldeb, rhywedd neu hil. O ganlyniad, os bydd cwpl yn awyddus i briodi mewn addoldy o eiddo'r Methodistiaid, ni oddefir gwrthwynebiad gweinidog, darpar-weinidog, swyddog nac aelod i gyflawni unrhyw ddyletswydd yng nghyswllt eu priodas arfaethedig ar sail o'r fath. Ni chaiff unrhyw weinidog, darpar-weinidog, swyddog nac aelod gyflawni'r ddyletswydd neu'r ddyletswyddau

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

perthnasol yn lle'r person arall dan sylw, na chynorthwyo'r cwpl mewn modd arall i wneud y gwrthwynebiad yn effeithiol.

Nodyn: Cyflwynodd y Grŵp Tasg yr argymhelliad uchod i'r Gynhadledd; dangosir penderfyniadau'r Gynhadledd mewn perthynas ag ef yn y Penderfyniadau ar ddiwedd yr Adroddiad.

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

5.4 Camau i gefnogi priodas a pherthnasoedd eraill arwyddocaol

- 5.4.1 Fel y cynigiwyd yn 2.7 rydym yn argymhell bod yr Eglwys Fethodistaidd yn datblygu adnoddau ar gyfer dathlu partneriaethau sifil. Byddai cyfatebiaeth â’r hyn sydd eisoes yn cael ei ddarparu ar gyfer priodas cyplau gwahanrywiol. Mae gennym eisoes wasanaeth ar gyfer cyplau gwahanrywiol sydd wedi priodi mewn seremoni sifil (ee mewn Cofrestrfa). Ein henw ar hyn yw Gwasanaeth ar gyfer ‘Bendithio Priodas a Weinyddwyd yn Flaenorol’. Nid yw gwasanaeth o’r fath yn cyflawni nac yn creu priodas gyfreithiol. Ni fyddai gwasanaeth tebyg ar gyfer partneriaethau sifil yn cyflawni nac yn creu partneriaeth gyfreithiol. Ond byddai yn agor yr achlysur i ras Duw trwy ddiolchgarwch, ac i fendith Duw fel yr amlinellwyd gennym.
- 5.4.2 Fel y cynigiwyd yn 3.2.6 rydym yn argymhell bod testunau litwrgaidd yn cael eu cynhyrchu a’u cymeradwyo i’w defnyddio pan ddaw priodas i ben, i gydnabod realiti diwedd y berthynas ac i alluogi’r partneriaid a’r bobl eraill mae hyn yn effeithio arnynt (a’r Eglwys ei hun) i gynnig ac agor eu hunain i gariad grasol Duw wrth fynd trwy’r profiad. Er y gall ymddangos yn rhyfedd argymhell hyn mewn adran dan y pennawd cefnogi priodas a pherthnasoedd eraill arwyddocaol, mae diwedd rhywbeth yn bwysig, a byddai’r patrwm hwn yn anrhydeddu’r hyn sydd wedi peidio â bod. Gall diwedd fod yn gam cyntaf tuag at ddechrau newydd. Mae gwasanaeth diweddar yr Eglwys Bresbyteraidd (UDA) yn fodel defnyddiol.¹⁷³
- 5.4.3 Gofynnwn am gymryd camau i adolygu’r adnoddau mae’r Eglwys Fethodistaidd wedi’u cynhyrchu yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf i gefnogi priodas (nid dim ond wrth baratoi ar gyfer priodas), rhianta a pherthnasoedd eraill pwysig. Yng ngoleuni’r adolygiad hwn, a fydd yn cynnwys y canllawiau a roddir yn Llyfr VII o CPD, Adran C, Rhan 8, ar Baratoad Cristnogol ar gyfer Priodas, rydym yn awgrymu bod y deunyddiau’n cael eu diweddarau neu eu datblygu er mwyn cymryd i ystyriaeth y gwirioneddau cyfoes a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn. Dylai adnoddau o’r fath gynnwys hefyd y materion a godwyd gan Adroddiad Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2016, i’w cynnwys mewn unrhyw Ddatganiad neu ganllawiau bugeiliol a pholisi sy’n cael eu diweddarau.¹⁷⁴ Awgrymwn fod y gwaith hwn yn digwydd yn eāwmenaid lle bynnag y bo modd. Dylai gwaith o’r fath gymryd i ystyriaeth y papur “We are family” a gyhoeddwyd ar y cyd gan Rwydwaith y Weinidogaeth Plant a’r Eglwys Fethodistaidd, sy’n olrhain natur newidiol teuluoedd a rhan hanfodol yr Eglwys wrth gefnogi teuluoedd i feithrin ymdeimlad o lesiant.¹⁷⁵

173 *The Book of Common Worship 4^{ydd}* argraffiad Eglwys Bresbyteraidd (UDA) 2018

174 Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2016 3.2.2 (e)

175 *We are Family: the changing face of family ministry* t.30-31, TMCP 2017

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

- 5.4.4 Gofynnwn i’r deunyddiau a gynhyrchwyd eisoes gan y pwyllgor EDI er mwyn datblygu dealltwriaeth o rywioldeb a rhywedd gael eu hyrwyddo a’u defnyddio ymhellach ar draws y cyfundeb (Pecyn Offer EDI, modiwlau 5, 7.1 a 7.2). Rydym yn cymeradwyo’r gwaith sy’n cael ei wneud ynghylch cynnwys pobl trawsrywiol, rhyngryw ac eraill sydd â rhywedd gwahanol ym mywyd yr ysgol, ac yn gofyn bod y Cyfundeb yn cael anogaeth yn y man i ddefnyddio’r modiwl newydd hwn yn y Pecyn Offer EDI pan gaiff ei gynhyrchu.¹⁷⁶
- 5.4.5. Yng Nghynhadledd 2018, gofynnodd Rhybudd o Gynnig 2018/203 i ni gynnwys cynigion yn yr adroddiad hwn oedd yn cyd-fynd ag ymrwymadau blaenorol i fyw gyda daliadau sy’n gwrthdaro, a hefyd bod y Gynhadledd yn “derbyn adroddiadau ar ymarfer sy’n dod i’r amlwg a fydd yn llywio myfyrdod diwinyddol parhaus”.¹⁷⁷ Nodwn y cyfeiriad hwnnw yn syml yma er mwyn ei gynnwys mewn gwaith a wneir ar y materion hyn yn y dyfodol.

176 Rhybudd o Gynnig 2018/204 Grŵp Rhanddeiliaid Traws. Cofnod Dyddiol Rhif 7/17/9

177 Cofnod Dyddiol 2018 7/17/8

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

Casgliadau

“Er na allwn feddwl yn debyg, oni allwn garu'n debyg?”

John Wesley (Pregeth XXXIV, *Catholic Spirit*¹⁷⁸)

Fel Grŵp Tasg, rydym yn ymateb i her John Wesley i fod “yn unfryd ein calon, er nad ydym yn unfryd ein barn” â'i eiriau ei hun: “Yn gwbl ddiamau, fe allwn”.¹⁷⁹ Fe'ch anogwn chi, y Methodistiaid, i dderbyn yr adroddiad hwn yn yr ysbryd hwnnw, a'i ddefnyddio'n fap wrth i ni barhau ar Bererindod ein Ffydd. Yn hyn o beth, ceisiwn annog pawb o'r Methodistiaid i garu ei gilydd, er bod ganddynt farn wahanol ar faterion perthnasoedd a rhywioldeb.

Dechreuwyd yr adroddiad hwn trwy gydnabod y llu o wahanol berthnasoedd sydd o'n cwmpas heddiw. Yna buom ni'n ystyried sut gallai pawb ohonom ddeall perthnasoedd yn well, a pherthnasoedd rhywiol yn arbennig. Nodwyd bod Duw wedi ein creu yn fodau rhywiol, mewn ffordd yr ydym ni bellach yn deall sy'n llawer mwy cymhleth ac amrywiol na'r hyn a gredid yn flaenorol; a bod Duw wedi ein creu i fod mewn perthynas â'n gilydd. Yna buom ni'n myfyrio ar sut gallai'r perthnasoedd hynny fod yn fwy (ac yn llai) unol â dibenion Duw, a sut gallent ddwyn nod esiampl Iesu (neu beidio). Y tu hwnt i hynny, buom ni'n edrych ar y patrymau a'r arferion a allai helpu'r perthnasoedd hyn i dyfu a ffynnu. Yn olaf, nodwyd camau y gallai ein Heglwys eu cymryd i gefnogi perthnasoedd da, a pha waith pellach mae angen ei wneud.

Wrth gloi ein myfyrdodau, rydym wedi nodi tair thema allweddol sy'n rhedeg trwy ein gwaith. Rydym yn awr yn eu cynnig fel awgrymiadau ar gyfer sut gallai'r Methodistiaid ddymuno parhau â'r gwaith hwn. Yn gryno, rydym yn cynnig y nodau canlynol.

- **Bod yn agored ac yn gadarnhaol ynghylch rhywioldeb a pherthnasoedd.** Ein gobaith yw galluogi'r Eglwys Fethodistaidd i siarad yn agored, yn gadarnhaol ac yn llawen, yn ogystal ag yn ddoeth, am berthnasoedd a rhywioldeb fel un agwedd ar ddaioni gasol Duw a'r bobl mae Duw wedi'u creu ynom ni.
- **Gosod gwerth ar bob perthynas trwy ras.** Rydym yn gwahodd yr Eglwys Fethodistaidd i osod gwerth ar bob perthynas gariadus ffyddlon sy'n dwyn y nodau a welwn yng nghariad Iesu, ac sydd o fewn cyfraith gwlad. Rydym yn annog yr Eglwys i fynd ati'n weithredol i gynnig mwy o urddas, cynhwysiad ac adferiad yng nghymuned creadigaeth newydd Duw i'r rhai sy'n cyd-fyw, sy'n sengl, neu sy'n datblygu perthnasoedd, beth bynnag yw eu rhywioldeb a'u rhywedd.
- **Ehangu a chyfiawnhau'r ddealltwriaeth o briodas rhwng dau berson.** Rydym yn cynnig i'r Eglwys Fethodistaidd fyfyrdod diwinyddol ar briodas fel ffurf arbennig ar berthynas 'yr efengyl'

178 John Wesley, *Sermons on Several Occasions* Pedwerydd Argraffiad ar Ddeg 1980

179 Ibid

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

rhwng dau berson, ac yn cynnig ein bod yn cymryd camau i alluogi cyplau o’r un rhyw i briodi yn yr Eglwys Fethodistaidd. Ar yr un pryd, rydym yn cydnabod na fydd pawb yn cytuno â hyn, ac felly gofynnwn i’r Eglwys geisio diogelu daliadau gwahanol y rhai nad ydynt yn cytuno.

Mae’r Eglwys Fethodistaidd wedi gweithio’n galed dros gyfnod o 25 mlynedd i’n galluogi fel corff o Gristnogion i fyw gyda daliadau sy’n gwrthdaro ynghylch y rhain a materion eraill. Yr alwad yw parhau ar hyd y llwybr hwnnw. I ddyfynnu John Wesley eto, wrth iddo ddisgrifio cymeriad Methodist: “O ran pob barn nad yw’n mynd at wraidd Cristnogaeth, rydym yn ffurfio barn ein hunain, ac yn gadael i eraill ffurfio eu barn hwythau”.¹⁸⁰

Rydym ni’n cydnabod ein bod, fel dilynwyd i Iesu, wedi’n galw i garu ein gilydd, ac felly i fynegi gwerthoedd yr efengyl yn ein perthynas â’n gilydd fel aelodau o deulu Duw. Mae’r un cariad hunanroddol a welwn yn Iesu yn nod yr ydym i’w ddwyn mewn perthynas â’n gilydd. Wrth gwrs mae hynny’n costio’n ddrud. Mae angen gras gwirioneddol, yn arbennig ar ran y rhai nad ydynt yn rhannu barn y mywyaf. Mae’n bwysig anrhydeddu a pharchu’r gras hwnnw ar waith.

Yn hyn o beth, mae angen cymorth yr Ysbryd Glân ar bawb ohonom er mwyn aeddfedu fel ein bod yn gallu ymarfer y cyfryw gariad a gras hyd yn oed pan fydd ein dealltwriaeth a’n barn yn amrywio’n fawr. Ond addawyd cymorth o’r fath i ni. Rydym ni’n gorff o bobl a ffurfiwyd gan yr Ysbryd Glân. Mae gan bawb ohonom ran yn rhoddion a grasusau’r Ysbryd. Gyda’n gilydd, mae gennym bopeth sydd ei angen i barhau i ganfod ffordd i fod yn gorff amrywiol o bobl. Wrth i ni wneud hynny, bydd gennym ni ryw beth pwysig dros ben i’w gynnig i fyd sy’n llawn rhaniadau a gwrthdaro yn barhaus.

Fel Grŵp Tasg, rydym yn sylweddoli ein bod wedi cael y fraint o gydweithio ar y materion hyn yn ystod y tair blynedd diwethaf. Ni fydd y rhan fwyaf o bobl sy’n darllen yr adroddiad hwn wedi cael cyfle unrhyw beth tebyg i hynny. Fe’ch anogwn i neilltuo cymaint o amser ag y gallwch i fyfyrar ar y materion hyn yn weddigar, ac i ymgysylltu ag eraill gydag agwedd mor agored â phosibl. Mae ein cyfnod fel grŵp wedi’n helpu i dyfu o ran ein dealltwriaeth o’r materion hyn a’r gwahanol safbwyntiau sydd gan bobl amdanynt. Ac eto, rydym ni’n cydnabod bod gennym lawer i’w ddysgu o hyd. Mae’r adroddiad hwn yn cynrychioli ffrwyth ein llafur hyd yma. Rydym yn ei gynnig mewn gobaith a gweddi y bydd yn galluogi pawb ohonom i ddysgu a thyfu, ac i ymrwymo fel Eglwys i barhau i wneud hynny. Wrth fynd ymlaen gyda’n gilydd, yng ngeiriau emyn diweddar, boed i ni gofio bod pawb ohonom:

Wedi’n galw gan y Duw a’n creodd
yn holl gyfoeth ein hamrywiaeth,
wedi dod ynghyd yn enw Iesu,
yn gyfoethocach fyth mewn undod.¹⁸¹

180 John Wesley, *The character of a Methodist*, cyhoeddwyd gyntaf yn 1742

181 Addasiad o waith Dolores Dufner, OSB sydd i’w weld yn *Singing the Faith* rhif 689.

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

***PENDERFYNIADAU A FABWYSIADWYD GAN Y GYNHADLEDD

- 10/1.** Derbyniodd y Gynhadledd yr Adroddiad a'i argymhell i'r Cyfundeb ar gyfer astudio a thrafodaeth weddigar.
- 10/4.** Rhoddodd y Gynhadledd gyfarwyddyd i'r Pwyllgor Ffydd a Threfn adolygu'r ddarpariaeth adnoddau litwrgaidd yng ngoleuni'r adroddiad hwn, gan gynnwys y cwestiwn ynghylch a ddylid darparu un gwasanaeth priodas neu ddau yn *Llyfr Addoliad y Methodistiaid*, paratoi gwasanaeth dathlu drafft ar gyfer partneriaethau sifil, a pharatoi unrhyw adnoddau litwrgaidd eraill drafft y gallai fod angen amdanynt. Rhoddodd y Gynhadledd gyfarwyddyd pellach i'r Pwyllgor Ffydd a Threfn adrodd i Gynhadledd 2020, ar y ddealltwriaeth y byddai cyflwyno unrhyw litwrgiau drafft a newidiadau arfaethedig i *Llyfr Addoliad y Methodistiaid* i'w cymeradwyo gan y Gynhadledd yn dibynnu ar ganlyniadau'r ymgynghori ar benderfyniadau Cynhadledd 2019 ac unrhyw benderfyniadau yng Nghynhadledd 2020 oedd yn deillio o hynny.
- 10/5.** Mabwysiadodd y Gynhadledd yr argymhelliad ym mharagraffau 3.2.6 a 5.4.2, a rhoi cyfarwyddyd i'r Pwyllgor Ffydd a Threfn edrych ar y posibilrwydd o gynhyrchu adnoddau litwrgaidd a chanllawiau perthnasol i'w defnyddio pan fyddai priodas yn dod i ben.
- 10/6.** Mabwysiadodd y Gynhadledd yr argymhelliad ym mharagraff 3.4 y dylai'r Eglwys Fethodistaidd gynnig mwy o gefnogaeth i briodas, ochr yn ochr â pherthnasoedd eraill ymroddedig; a rhoi cyfarwyddyd i Gyngor y Methodistiaid sicrhau bod adnoddau'n cael eu cynhyrchu i helpu i ddarparu'r gefnogaeth honno, gan dynnu ar y ddealltwriaeth ddiwinyddol o ddibenion, ansawdd a phatrymau perthnasoedd da a gyflwynwyd yn yr adroddiad.
- 10/10.** Cyfarwyddyd y Gynhadledd oedd y dylai Penderfyniadau 10/2, 10/3, 10/7, 10/8 a 10/9 gael eu trin fel Darpar Benderfyniadau o dan Reol Sefydlog 122.
- 10/10A.** Rhaid i Benderfyniadau 10/8A a 10/8B ddod i rym yn amodol ar gadarnhau penderfyniad 10/8 gan Gynhadledd 2020 yn yr un ffurf neu ffurf sylweddol debyg, o'r dyddiad pan ddaw'r penderfyniad a gadarnhawyd i rym.
- 10/8A.** At ddibenion adran 26A o Ddeddf Priodas 1949 (fel y cynhwyswyd yn adran 4(1) o Ddeddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013) mae'r Gynhadledd yn cydsynio i briodas cyplau o'r un rhyw, ac o ganlyniad yn awdurdodi ymddiriedolwyr rheolaethol, neu os nad oes rhai, ymddiriedolwyr unrhyw adeilad sy'n perthyn i'r Methodistiaid yng Nghymru a Lloegr y gellir ei gofrestru o dan adran 43A o Ddeddf Priodas 1949 (fel y'i newidiwyd gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013) i gofrestru'r adeilad hwnnw o dan yr adran honno.

- 10/8B. At ddibenion Deddf Priodas (yr Alban) 1977 fel y'i newidiwyd gan Ddeddf Priodas a Phartneriaeth Sifil (yr Alban) 2014, penderfyniad y Gynhadledd yw y gall gweinidogion, darpar weinidogion neu aelodau o blith y Methodistaidd gael eu henwebu gan yr Eglwys Fethodistaidd yn yr Alban i Gofrestrydd Cyffredinol yr Alban i'w cofrestru ar gyfer gweinyddu priodasau rhwng cyplau o'r un rhyw, ac y gellir gweinyddu priodasau rhwng cyplau o'r un rhyw ar safleoedd o eiddo'r Methodistaidd yn yr Alban os bydd yr ymddiriedolwyr rheolaethol yn caniatáu hynny a bod yr holl ofnyion cyfreithiol eraill perthnasol wedi'u bodloni.**
- 10/11. Rhoddodd y Gynhadledd gyfarwyddyd i Ysgrifennydd y Gynhadledd gynnull grŵp o bersonau oedd yn cynrychioli'r Pwyllgor Cyfraith a Llywodraeth, y Pwyllgor Ffydd a Threfn a'r Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd, i dderbyn adroddiadau'r Synodau a'r Pwyllgor Cyfraith a Llywodraeth, ac i adrodd i Gynhadledd 2020 gyda phenderfyniadau priodol, gan gynnwys datganiad ar y goblygiadau eciwmenaidd, fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 121(2).**

*****PENDERFYNIADAU A GYMERADWYFYD GAN Y GYNHADLEDD FEL DARPAR-BENDERFYNIADAU**

- 10/2. Mae'r Gynhadledd yn mabwysiadu'r argymhelliad ym mharagraff 2.2.5 ei bod yn cadarnhau'r ddealltwriaeth grynodol ganlynol o egwyddorion neu briodweddau perthynas dda:**
- Dylai pob perthynas bwysig fod wedi'i seilio ar gariad hunanroddol, ymroddiad, ffyddlondeb, teyrngarwch, gonestrwydd, parch o'r ddeutu, cydraddoldeb a'r awydd i'r dda berson dan sylw ffynnu fel ei gilydd.
 - Trwy fod yn hunanroddol, yn hytrach na hunangeisiol, y mae'r hunan yn ffynnu ac yn dechrau profi bywyd yn ei holl gyflawnder (er bod angen cydnabod bod pwyslais hanesyddol yr Eglwys yn gyffredinol ar hunan-aberth wedi cael ei gamddeall a'i gamddefnyddio'n aml (e.e. gan bartneriaid sy'n cam-drin] mewn modd sy'n dinistrio llesiant y rhai sy'n cael eu cam-drin [benywod yn aml]).
- 10/3. Mae'r Gynhadledd yn mabwysiadu'r argymhelliad ym mharagraff 2.6.4 y dylai gadarnhau'r ddealltwriaeth grynodol ganlynol o gyd-fyw:**
- Mae'r Eglwys yn cydnabod bod cariad Duw yn bresennol yng nghariad bodau dynol sy'n cael eu denu at ei gilydd, ac sy'n ymroi o'u gwirfodd i ryw fath ar berthynas ymroddedig â'i gilydd sy'n gwella'u bywydau, boed hynny trwy gyd-fyw anffurfiol neu ymrwymiad mwy ffurfiol a wneir yn gyhoeddus.
 - Fel Eglwys rydym am ddatlu bod cariad Duw yn bresennol o dan yr amgylchiadau hynny, hyd yn oed os nad yw'r bobl dan sylw yn ymateb i'r gras hwnnw na hyd yn oed yn ymwybodol ohono.

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

- Mae galwad bwysig gan yr Eglwys, felly, i dynnu sylw at bresenoldeb cariad Duw mewn perthnasoedd o'r fath, ac i annog pobl i ymateb i hynny trwy adnewyddu a dyfnhau eu hymrwymiad (ym mha fodd bynnag).

10/7. Mae'r Gynhadledd yn mabwysiadu'r Canllawiau ar y Ddealltwriaeth o Briodas a gyflwynir ym mharagraff 5.1.2 ac yn rhoi cyfarwyddyd y dylid eu cynnwys yn adran Canllawiau CPD.

- G1 *Mae'r Eglwys Fethodistaidd yn croesawu pawb, p'un a ydynt yn aelodau neu beidio, sy'n holi ynghylch bwriad i briodi mewn unrhyw un o'i haddoldai. Bydd yn chwilio am natur agored i Dduw ynddynt, ac nid o reidrwydd am ddealltwriaeth ddatblygedig o'r fydd Gristnogol.*
- G2 *Yn gyfreithiol, mae priodas yn berthynas gontractiol rhwng dau berson sy'n gwneud addunedau ac ymrwymadau difrifol i'w gilydd, ac nid yw natur y briodas na natur yr ymrwymadau yn cael eu diffinio ymhellach o dan gyfraith gwlad. Yn nealltwriaeth yr Eglwys Fethodistaidd, mae priodas yn cwmpasu hynny, ond mae hefyd yn ddyfnach ac yn fwy cyfoethog. Mae'r Eglwys Fethodistaidd yn credu bod priodas yn berthynas gyfamodol rhwng dau berson, oddi mewn i gyfamod cariad Duw â nhw. Trwyddi, gallant brofi, archwilio a mynegi cariad graslon Duw.*
- G3 *Mae'r Eglwys Fethodistaidd yn credu bod priodas yn berthynas neilltuedig, yr ymrwymir iddi o wirfodd gyda bwriad gydol oes o uno dau berson mewn corff, calon, meddwl ac enaid, mewn ffyrdd sy'n briodol ar gyfer y ddau bartner. Ynddi, mae Ysbryd Duw yn galluogi'r ddau bartner i brofi diogelwch cariad a gofal, gan roi cysur a chwmni i'w gilydd, cyfoethogi ac annog ei gilydd, a rhannu tynerwch ac ymddiriedaeth. Trwy briodas o'r fath gellir meithrin plant, cryfhau bywyd teuluol, a chyfoethogi cymdeithas ddynol.*
- G4 *Mae'r Eglwys Fethodistaidd yn cydnabod bod gwahanol safbwyntiau ymhlith ei haelodau ynghylch dehongli'r Beibl a'r traddodiad Cristnogol o ran a all unrhyw ddau berson briodi, neu a yw priodas rhwng dyn a benyw yn unig. Mae'r Eglwys Fethodistaidd wedi penderfynu parchu a gwneud darpariaethau ymarferol ar gyfer y ddau safbwynt.*
- G5 *Ni ellir cynnal gwasanaeth priodas neu wasanaeth yn bendithio priodas a gynhaliwyd eisoes mewn addoldy Methodistaidd ond os gellir dangos bod gofynion y ddeddfwriaeth yn yr awdurdodaeth briodol wedi'u bodloni.*
- G6 *Pan fydd awydd i ddefnyddio addoldai ar gyfer gwasanaethau priodas neu wasanaethau yn bendithio priodas a gynhaliwyd eisoes, dylai ymddiriedolwyr rheolaethol y safleoedd hynny fynd ati i ystyried a ydynt am wneud hynny ar*

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

gyfer priodasau cyplau gwahanrywiol yn unig, neu briodasau cyplau o'r un rhyw yn ogystal. Dylai'r ymddiriedolwyr rheolaethol ailystyried cwestiwn defnyddio'r addoldy ar gyfer gwasanaethau o'r fath bob pum mlynedd neu'n amlach.

G7 Os yw'r ymddiriedolwyr rheolaethol am ddefnyddio addoldy ar gyfer gwasanaethau priodas, ac mae deddfwriaeth yr awdurdodaeth berthnasol yn gofyn bod adeiladau neu bersonél yr eglwys yn cael eu cofrestru neu eu hawdurdodi i gynnal priodasau, dylai'r ymddiriedolwyr rheolaethol gymryd y camau perthnasol i gydymffurfio.

10/8. Mae'r Gynhadledd yn cydsynio o ran egwyddor i briodi cyplau o'r un rhyw ar safleoedd o eiddo'r Methodistiaid ar draws y Cyfundeb a chan weinidogion, darpar-weinidogion neu aelodau'r Methodistiaid, i'r graddau y mae cyfraith yr awdurdodaeth berthnasol yn caniatáu neu'n mynnu, ac yn amodol ar gydymffurfio â gofynion pellach o'r fath, os bydd rhai, y mae'r gyfraith honno'n eu pennu.

10/9. Mae'r Gynhadledd yn diwygio Gorchmynion Sefydlog fel a ganlyn:

011A Priodas (1) Mae'r Eglwys Fethodistaidd yn credu bod priodas yn rhedd gan Dduw ac mai bwriad Duw yw y dylai priodas wedi'i rhoi gan Dduw i fod yn gyfrwng arbennig o ras Duw, a bod priodas yn unol â bwriadau Duw pan yw'n uniad gydol oes o ran corff, meddwl ac enaid rhwng un dyn ac un fenyw dau berson sy'n ymrwymo iddo o'u gwirfodd. Oddi mewn i'r Eglwys Fethodistaidd deallir hyn mewn dwy ffordd: mai rhwng dyn a benyw yn unig y gall priodas ddigwydd; y gall priodas fod rhwng unrhyw ddau berson. Mae'r Eglwys Fethodistaidd yn cadarnhau'r ddwy ddealltwriaeth, ac yn darparu ar eu cyfer yn ei Rheolau Sefydlog.

(2) Mae'r Eglwys Fethodistaidd yn croesawu pawb, p'un a ydynt yn aelodau neu beidio, sy'n holi ynghylch bwriad i briodi mewn unrhyw un o'i haddoldai.

011B Ysgariad, Ailbriodi, Priodi Cyplau o'r Un Rhyw a Pharch at Gydwybod

(2)(1) Nid yw ysgariad **yn un o lysoedd y wlad** ynddo'i hun yn atal rhywun rhag priodas mewn addoldy Methodistaidd.

(3)(2) Nid yw'r Gynhadledd, o dan unrhyw amgylchiadau, yn gofyn bod unrhyw berson a awdurdodwyd i weinyddu priodasau sy'n destun disgyblaeth yr Eglwys fel gweinidog, darpar-weinidog, swyddog neu aelod yn gwasanaethu nac yn cyfranogi ym mhriodas cwpl penodol, os byddai gwneud hynny'n groes i'w g/chydwytod.

(4)(3) **Pan fydd:** gweinidog **neu;** ddarpar-weinidog **yn dod i benodiad newydd;** neu **pan gynigir y dylai** aelod **gael ei awdurdodi i gynnal priodasau** ond na fydd

10. DUW MEWN CARIAD SY'N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

ac na fydd ef neu hi am resymau cydwybod byth yn gweinyddu ym mhriodasau cyplau o dan amgylchiadau penodol, rhaid cyfeirio cyplau o'r fath at gydweithiwr awdurdodedig nad yw'n cael ei atal yn y fath fodd **rhaid i'r person dan sylw gymryd rhan mewn sgwrs fugeiliol ar y mater gyda Chadeirydd y Dalaith a Goruchwylydd y Gylchdaith berthnasol (os nad ef neu hi yw'r Goruchwylydd). Gwneir pob ymdrech i sicrhau na fydd unrhyw unigolyn yn cael ei roi o dan unrhyw bwysau i weithredu yn erbyn llais cydwybod.**

(4) P'un a yw cyfraith yr awdurdodaeth berthnasol yn gofyn bod rhaid cofrestru safleoedd y Methodistiaid ar gyfer priodasau rhwng cyplau o'r un rhyw cyn i'r cyfryw briodasau fedru digwydd, ni all priodas rhwng dau berson o'r un rhyw ddigwydd ar safle o eiddo'r Methodistiaid oni bai bod yr ymddiriedolwyr rheolaethol, neu os nad oes rhai, yr ymddiriedolwyr wedi cymeradwyo defnydd o'r safle at y diben hwnnw, ac wedi cymryd unrhyw gamau a all fod yn angenrheidiol o dan y gyfraith berthnasol.

(5) Rhaid i weinidog, darpar-weinidog neu aelod y gofynnir iddo/iddi weinyddu ym mhriodas cwpl gwahanrhywiol ar safle o eiddo'r Methodistiaid sydd wedi'i gofrestru'n briodol at y diben (lle mae cofrestru'n ofynnol), ond sy'n cael ei (h) atal rhag gweinyddu am resymau cydwybod, gyfeirio'r cwpl at gydweithiwr awdurdodedig nad yw wedi'i atal yn yr un modd.

(6) Rhaid i weinidog, darpar-weinidog neu aelod y gofynnir iddo/iddi weinyddu ym mhriodas cwpl o'r un rhyw ar safle o eiddo'r Methodistiaid sydd wedi'i gofrestru'n briodol at y diben (lle mae cofrestru'n ofynnol), ond sy'n cael ei (h)atal rhag gweinyddu am resymau cydwybod, roi gwybod i Gadeirydd y Dalaith, a fydd yn gorfod cyfeirio'r cwpl at gydweithiwr awdurdodedig nad yw wedi'i atal yn yr un modd.

(7) Rhaid cyfeirio cwpl sydd am gael eu priodi ar safle o eiddo'r Methodistiaid nad yw wedi'i gofrestru'n briodol at y diben, os yw cofrestru'n ofynnol, at y personau sy'n gyfrifol am gynnal priodasau ar safleoedd sydd â'r cyfryw gofrestriad, yn ddefnyddol yn yr un gylchdaith. Os nad yw'r person sy'n derbyn y cais yn barod i wneud atgyfeiriad o'r fath, am resymau cydwybod, rhaid iddo/iddi roi gwybod i Gadeirydd y Rhanbarth, a fydd yn gorfod gwneud yr atgyfeiriad yn ei (l)le.

(8) Ni chaiff unrhyw weinidog, darpar-weinidog nac aelod gytuno i gynnal priodas rhwng dau berson o'r un rhyw heb roi gwybod i Gadeirydd y Dalaith yn gyntaf.

(9) Rhaid i ymddiriedolwyr rheolaethol, neu os nad oes rhai, ymddiriedolwyr unrhyw safle o eiddo'r Methodistiaid sydd wedi'i gofrestru ar gyfer cadarnhau

10. DUW MEWN CARIAD SY’N EIN HUNO: Adroddiad y Grŵp Tasg Priodas a Pherthnasoedd 2019

priodas cyplau o’r un rhyw, sicrhau bod Cadeirydd y Dalaith yn cael gwybod am y cyfryw gofrestriad.

(5)(10) Mae’r Eglwys Fethodistaidd yn gwrthwynebu camwahaniaethu ar sail *rhywioldeb*, rhywedd neu hil. O ganlyniad, os bydd cwpl yn awyddus i briodi mewn addoldy o eiddo’r Methodistiaid, ni oddefir gwrthwynebiad gweinidog, darpar-weinidog, *swyddog* nac aelod i gyflawni unrhyw ddyletswydd yng nghyswllt eu priodas arfaethedig ar sail o’r fath. Ni chaiff unrhyw weinidog, darpar-weinidog, *swyddog* nac aelod gyflawni’r ddyletswydd neu’r dyletswyddau perthnasol yn lle’r person arall dan sylw, na chynorthwyo’r cwpl mewn modd arall i wneud y gwrthwynebiad yn effeithiol.